CYNGOR GWYNEDD COUNCIL



# Cynllun Cyngor Gwynedd
# 2018 - 2023

## *Adolygiad 2021/22*



# Cynnwys


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| **Rhagair Arweinydd y Cyngor** | 1 |
| **Cyflwyniad i'r Cynllun** | 2 |
| **Blaenoriaethau Gwella** | 5 |
| **Cynlluniau Adrannol** | 37 |
| Addysg | 39 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 45 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 49 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 57 |
| Amgylchedd | 63 |
| Economi a Chymuned | 75 |
| Tai ac Eiddo | 83 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 90 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 93 |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 100 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | 107 |
| **Gwybodaeth Ariannol** | 109 |


**Os ydych chi angen y ddogfen yma mewn iaith neu fformat arall ffoniwch 01766 771000 neu ebostiwch cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru**

Graffeg "designed by Freepik"

**Os ydych angen mwy o wybodaeth am y Cynllun hwn cysylltwch â Thîm Cefnogi Busnes y Cyngor drwy ffonio 01766 771000 neu cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru**

# RHAGAIR ARWEINYDD Y CYNGOR



Wrth gyflwyno'r adolygiad hwn o Gynllun Cyngor Gwynedd ar gyfer 2021/22 i chi mae'n amhosibl peidio ag edrych yn ôl ar y flwyddyn ddigynsail a fu. Byddai'n ffôl, os nad yn anghyfrifol, i beidio ymateb i effeithiau pellgyrhaeddol pandemig Covid-19 wrth i ni gynllunio ein gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Bu 2020/21 yn flwyddyn na welwyd mo'i thebyg o'r blaen yn ein hoes ni, gydag unigolion a theuluoedd wedi dioddef profedigaethau a gwaeledd, colli gwaith neu incwm, a busnesau wedi eu taro yn ddigynsail. Rydw i, a'r Cyngor, yn cydymdeimlo â phob un ohonoch yn ddiffuant. Er na fedr y Cyngor ddatrys yr holl broblemau y mae Covid-19 wedi ei luchio atom fe wnawn bopeth o fewn ein gallu ein hunain i ymateb.

Mae'r Cynllun hwn felly'n cynnwys nifer o flaenoriaethau a phrosiectau sydd wedi eu datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf, a rhai newydd ar gyfer 2021/22. Pwy fyddai wedi rhagweld flwyddyn yn ôl y byddem wedi darparu Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu sydd wedi, ac a fydd yn parhau, i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r frwydr yn erbyn y feirws? Gyda sefyllfa Covid-19 mor anwadal mae angen i ni fedru ymateb yn gyflym i anghenion pobl Gwynedd, ac os fydd angen i ni ddargyfeirio i wneud gwaith gwahanol yna mae angen bod yn realistig ynghylch yr hyn y mae'n bosib i ni ei gyflawni o fewn y Cynllun hwn.

Wedi dweud hynny, mae yna waith pellach sydd angen ei wneud mewn rhai meysydd i ddeall gwir effaith Covid-19, megis ar les ac addysg ein plant, ond fe wnawn y gwaith hwnnw a gweithredu yn ôl yr angen. Yn yr un modd rydym am addasu rhai prosiectau oedd yn rhedeg yn barod, megis 'twristiaeth gynaliadwy' a chynllun gweithredu cyffrous ac uchelgeisiol ar gyfer darparu cartrefi i bobl Gwynedd.

Byddwn yn cychwyn ail-adeiladu ar gyfer y dyfodol drwy edrych ar wahanol anghenion cymunedau lleol. Mae angen cychwyn wrth ein traed. Mae'n naturiol na fydd anghenion Bangor, Y Bala a'r Bermo yr un fath, felly bydd y gwaith yn cychwyn drwy greu Cynlluniau Adfywio Lleol a dwi'n edrych ymlaen i weld ffrwyth y gwaith hwn.

Cofiwch nad oedd effaith Covid-19 yn gwbl negyddol. Mae hefyd wedi amlygu yr holl elfennau rhagorol hynny oedd eisoes yn bodoli o dan yr wyneb ym mhobl Gwynedd. Drwy galedi y flwyddyn a fu mae pobl wedi helpu pobl. Mae cymunedau wedi dod at ei gilydd ac wedi lapio blanced ddiogel o amgylch y rhai mwyaf bregus yn ein plith. Mae angen diolch a dathlu yr ymdrech honno, ac mae gennym gynlluniau fydd yn ceisio cynnal y momentwm hwnnw i'r dyfodol, megis Cefnogi Llesiant Pobl.

Fedr Cyngor Gwynedd ddim ateb gofynion pawb a fedrwn ni ddim gwneud popeth ar ein pennau ein hunain. Yn fwy nag erioed mae Covid-19 wedi dangos pa mor ddibynnol ydym ni ar ein gilydd; a thrwy gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill, y trydydd sector, busnesau a chymunedau, dwi'n obeithiol wrth edrych ymlaen at 2021/22 i'r sir arbennig hon.

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn,

Arweinydd Cyngor Gwynedd

# CYFLWYNIAD I'R CYNLLUN

Cafodd Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Mawrth 2018 (a'i adolygu yn flynyddol wedyn). Fe'i lluniwyd ar sail tystiolaeth o fewn yr asesiad llesiant a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd a Môn ynghyd ag adborth o ymgynghori efo cymunedau, aelodau etholedig, staff a phartneriaid.

Yn unol â gofynion **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf)** mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant, sydd yn syml yn crynhoi uchelgais y Cyngor o weld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu. Mae hyn yn golygu bod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosibl
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y Sir.

Mae'r amcanion yma wedi eu cyhoeddi eisoes yn ein datganiad llesiant, sydd hefyd yn egluro sut y maent yn cyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol a osodwyd gan Llywodraeth Cymru yn y Ddeddf. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut mae gwaith y Cyngor yn cyfrannu tuag at wireddu'r uchelgais hon drwy gyfuniad o waith ddydd i ddydd Adrannau'r Cyngor a phrosiectau penodol sydd wedi eu hadnabod er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd hynny lle mae angen y mwyaf o'm hymdrech i'w datblygu. Mae'r prosiectau hyn wedi eu crynhoi o dan yr hyn a elwir yn Flaenoriaethau Gwella. Mae pob un o'r blaenoriaethau gwella yn cyfrannu at sawl un o'n hamcanion llesiant, ac mae'r cynllun yn nodi pa rai fesul prosiect.

Wrth weithredu byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy ystyried y tymor hir, atal rhag digwydd, gweithio'n integredig, gweithio'n gydweithredol a chynnwys pobl o bob oed. Byddwn yn gwneud hyn drwy fabwysiadu ffordd o weithio, "Ffordd Gwynedd", sydd â'i ffocws ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mae'r cynllun yn cyfeirio at sawl enghraifft lle rydym yn gweithio'n ataliol, yn cynnwys pobl Gwynedd drwy ymgynghori a chydweithio â'n cymunedau a lle rydym yn ystyried anghenion y dyfodol. Mae hefyd enghreifftiau lle'r ydym yn cydweithredu ac yn gweithio yn integredig i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd - megis drwy ein gwaith fel aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, neu'n fewnol drwy brosiectau ein byrddau rhaglen e.e. y Bwrdd Cefnogi Pobl.

Er bod camau eisoes wedi eu cymryd i ddangos sut yr ydym yn cyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf rydym yn cydnabod fod gwaith pellach angen ei wneud er mwyn tystiolaethu hyn a'r effaith a geir ar drigolion Gwynedd. O ganlyniad, byddwn yn edrych i gryfhau ein trefniadau herio ac adrodd ar berfformiad er mwyn amlygu ein cyfraniad i egwyddorion y Ddeddf.

Bu i ni adolygu cynnwys y Cynllun dros y misoedd diwethaf er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i wneud y pethau sy'n bwysig i bobl Gwynedd gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sy'n dylanwadu ar y Cyngor ac sy'n debygol o ddylanwadu ar bobl Gwynedd i'r dyfodol. Wrth gwrs, mae rhai newidiadau sylweddol yn anghenion ein cymunedau

yn sgil argyfwng Covid-19 ac mae bywyd bobl Gwynedd ar hyn o bryd yn edrych yn dra gwahanol i'r hyn yr oedd y tro diwethaf i ni adolygu'r cynllun hwn.

Rydym fel Cyngor felly wedi bod yn adolygu cynnwys y cynllun a'r blaenoriaethau a oedd wedi eu gosod gennym eisoes. Mae adolygiad 2021-22 o Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 yn cynnwys parhad o gynlluniau sydd eisoes yn y cynllun, yn ogystal â chasgliad o flaenoriaethau newydd; nifer ohonynt wedi codi yn uniongyrchol o ganlyniad i argyfwng Covid-19, ac eraill wedi codi'n anuniongyrchol wrth i'r argyfwng, yr amodau byw a'r cyfyngiadau a ddaeth gydag o ddod ag anghenion eraill fwy i'r wyneb. Mae llawer o'r meysydd sydd wedi eu cynnwys o fewn rhai o'r prosiectau, megis 'Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes' ac 'Enwau llefydd cynhenid Cymreig', wedi bod yn derbyn sylw fel rhan o waith y cyngor ers rhai blynyddoedd wrth gwrs. Fodd bynnag, mae heriau penodol sydd wedi codi yn sgil argyfwng Covid-19 wedi amlygu'r problemau fwyfwy, ac felly mae rhai pethau oedd eisoes ar waith bellach wedi eu cynnwys ymysg prif flaenoriaethau'r Cynllun.

Bydd y fersiwn hon o'r Cynllun, 'Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2021/22', yn disodli'r fersiwn gyfredol. Isod, ceisir grynhoi'r prif addasiadau a wnaed yn dilyn yr adolygiad:

Mae'r prosiectau canlynol wedi eu hychwanegu o'r newydd:

- **Adfywio: llunio cynllun adfywio ar gyfer ein hardaloedd**
- **Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc**
- **Strategaeth Dysgu Digidol**
- **Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes**
- **Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig**
- **Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol**
- **Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i Gilydd**
- **Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth**
- **Sicrhau fod teuluoedd a plant ag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd angen arnynt i ffynnu**
- **Capasiti Gwarchod y Cyhoedd**
- **Sicrhau fod rheolwyr yn arddel eu rôl Iechyd a Diogelwch yn effeithiol**
- **Cyflawni Arbedion**
- **Cymunedau Glân a Thaclus**
- **Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

Yn ogystal, mae sgôp neu gynnwys y prosiectau canlynol wedi newid:

- **Elwa o Dwristiaeth** bellach wedi ei ehangu a'i ail-enwi yn **Twristiaeth – llunio Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy**
- Sgôp prosiect **Busnesau'n cael Cymorth i Ffynnu** wedi'i ehangu yn sgil yr angen am gefnogaeth ychwanegol i fusnesau'n dilyn heriau argyfwng Covid-19
- **Darpariaeth Ôl-16, Dalgylch Bangor, Dalgylch Treferthyr (Cricieth), Cydweithio Meirionnydd** wedi ei rannu yn bedwar prosiect unigol sef:
    - **Darpariaeth Addysg Ôl-16 yn Arfon**
    - **Dalgylch Bangor**
    - **Dalgylch Cricieth;** a
    - **Cydweithio Meirionnydd**

- Sgôp prosiect **Cefnogi Llesiant Pobl** wedi'i ehangu yn sgil anghenion gwahanol yn dod i'r amlwg ymysg ein cymunedau'n ystod argyfwng Covid-19
- Sgôp prosiect **Mwy o drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith** wedi'i ehangu yn sgil cynnydd mewn diweithdra yn dilyn argyfwng Covid-19
- **Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-24** wedi ei newid i fanylu ar dri prosiect ychwanegol sydd yn dod o dan faner y strategaeth, sef:
  - **Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Sicrhau cymeradwyraeth i'r Cynllun Tai a dechrau gweithredu**;
  - **Mynediad rhwydd a chlir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai : Sefydlu un drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn eu helpu gyda phroblemau tai**; a
  - **Gosod tai cymdeithasol i bobl leol**: **Creu polisi gosod newydd ar gyfer y sir fydd yn rhoi mwy o flaenoriaeth i bobl leol**
- Sgôp prosiect **Hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc** wedi'i newid oherwydd yr angen i ystyried sgil effaith y cyfnod clo ar sgiliau a hyder dysgwyr yn y Gymraeg
- Mae'r prosiect **Gwydnwch Cymunedol** wedi ei ymgorffori fel rhan o brosiect **Cefnogi Llesiant Pobl**
- Sgôp prosiect **Cynllun Prentisiaethau** wedi ei ehangu a'i ail-enwi yn **Cynllunio'r Gweithlu**
- Mae'r prosiect **Busnesau Gwynedd i ddefnyddio'r Gymraeg** erbyn hyn yn derbyn sylw fel rhan o waith ddydd i ddydd yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Adran Economi a Chymuned.

Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch yr hyn yr ydym wedi ei wneud mewn ymateb i'r materion a amlygwyd gan Gynghorwyr fel Blaenoriaethau Lleol yn ôl yn hydref 2017. Bydd unrhyw newidiadau neu addasiadau i'r blaenoriaethau, ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu y bwriedir eu cynnal i'r dyfodol, yn cael eu cyfarch o fewn y Cynlluniau Adran perthnasol.

Mae sefyllfa ariannol ansicr Cymru a Phrydain yn gosod cryn her i ni fel Cyngor wrth i ni gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Mae cynnydd annigonol mewn grant gan y Llywodraeth yn golygu bod parhau i ddarparu nifer o wasanaethau yn anodd. Rhaid, felly, bod yn greadigol ac ystyried pob ffordd posib o ddarparu'r gwasanaethau y mae pobl Gwynedd yn eu haeddu. Rydym yn datgan yn glir fodd bynnag y bydd unrhyw newid yn seiliedig ar yr angen i weld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu ac i wella lles ein trigolion i'r dyfodol.

Ers i'r Cynllun gwreiddiol gael ei fabwysiadu mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu eu Cynllun Llesiant yn ystod gwanwyn 2018. Mae'r amcanion llesiant a'r blaenoriaethau a amlygir o fewn y Cynllun Llesiant yn gyson â'r rhai sydd o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023. Mae Cynllun y Cyngor yn canolbwyntio ar y gwasanaethau dydd i ddydd a'r materion y mae'r Cyngor wedi eu blaenoriaethu tra bydd y Cynllun Llesiant yn canolbwyntio ar y meysydd lle y teimlir y gall sefydliadau cyhoeddus wneud mwy o wahaniaeth i lesiant pobl yr ardal trwy weithio ar y cyd.

**Ein uchelgais yw gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, a'n bod fel pobl yn...**

## Amcanion Llesiant


- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib
- Cael manteisio ar harddwch naturiol y sir

**Byddwn yn gwneud hyn drwy arloesi a bod ar flaen y gad ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, gan ganolbwyntio ar...**

## Blaenoriaethau Gwella

- Greu economi hyfyw a ffyniannus
- Roi cyfle i bob disgybl gael y cyfle i gyflawni ei botensial
- Leihau anghydraddoldeb o fewn y sir
- Sicrhau mynediad at gartref addas
- Helpu pobl i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg
- Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant
- Roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud
- Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd

**...fydd yn cael ei gynnal gan holl waith dydd i ddydd Adrannau'r Cyngor.**



# Blaenoriaethau Gwella

Ein Blaenoriaethau Gwella yw'r meysydd y credwn mae angen i ni ganolbwyntio arnynt oherwydd bod angen cynyddu neu wella'r sefyllfa bresennol. Isod, fe welwch ddisgrifiadau o'r 8 Blaenoriaeth Gwella, ac yna'r prosiectau unigol fydd yn cyfrannu at bob un ohonynt.

Mae yna rai prosiectau blaenoriaeth lle y bydd yn gwbl angenrheidiol i ni eu cyflawni ac, wrth gwrs, mae'r Cyngor yn bwriadu gwireddu pob un o'r prosiectau o fewn y cynllun hwn ac yn ymrwymo i roi pob ymdrech i wneud hynny. Fodd bynnag, dylid nodi fod argyfwng Covid-19, fel yr ydym wedi ei weld ers mis Mawrth 2020, yn achosi anawsterau a all gyfyngu ar ein gallu i gyflawni'n llawn ar rai pethau. Byddwn yn adrodd ar unrhyw anawsterau o'r fath yn ein hadolygiad nesaf o'r cynllun hwn ac mewn adroddiadau perfformiad perthnasol.

## Blaenoriaeth Gwella 1

### Creu economi hyfyw a ffyniannus

**Sylfaen caniatáu i bobl Gwynedd ffynnu yw sicrhau fod yna swyddi addas ar gael yn y sir sy'n talu cyflogau sy'n eu galluogi i gynnal eu hunain a'u teuluoedd.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### 1. Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru — Adran Economi a Chymuned

Mae diffyg twf yn wendid yn economi Gogledd Cymru gyfan, a'r gogledd orllewin yn arbennig. Er mwyn ceisio gwyrdroi'r sefyllfa daeth chwe sir y gogledd, a rhanddeiliaid eraill megis sefydliadau addysg y rhanbarth a'r sector breifat, ynghyd i sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Prif gynllun y Bwrdd yw 'Cais Twf Gogledd Cymru' ac yn Rhagfyr 2020 arwyddwyd cytundeb rhwng y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer gwireddu'r Cais Twf. Bydd y cais yn arwain at £945m o fuddsoddiad yn rhanbarth y Gogledd dros y pymtheg mlynedd nesaf gan greu hyd at 4,000 o swyddi ledled y Gogledd.

Fel aelod o'r Bwrdd Uchelgais, ein nod fel Cyngor yw sicrhau y bydd pobl a busnesau Gwynedd yn elwa i'r eithaf o'r buddsoddiad ariannol hwn, yn enwedig mewn cyfnod pan fydd angen ymateb i sgil-effeithiau Covid-19 a Brexit.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i gyfrannu at raglen waith y Bwrdd Uchelgais, gan gynnwys gwella argaeledd band eang cyflym, datblygu safle Atomfa Trawsfynydd a datblygu Canolfan Arloesedd Gwledig yng Nglynllifon. Byddwn hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad Fframwaith Economaidd Gogledd Cymru sy'n cael ei pharatoi gan Lywodraeth Cymru i adnabod prif raglenni buddsoddi rhanbarthol i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 2. Cadw'r Budd yn Lleol — Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael, neu brynu, nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn **aros yn lleol**.

Nid yw'r farchnad leol yn gallu ymateb i gyfleon bob amser oherwydd cyfyngiadau o ran maint neu rwystrau eraill sy'n bodoli. Mae hynny wedyn yn arwain at fusnesau lleol yn colli'r awydd a'r gallu i gystadlu am waith gyda'r canlyniad nad oes modd uchafu gwariant y Cyngor a gedwir yn lleol.

Rydym yn ceisio cefnogi busnesau lleol gyda'r newidiadau i'r rheoliadau caffael yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd gan fanteisio ar y cyfleoedd hefyd i gaffael yn lleol.

Byddwn yn rhoi sylw i'r meysydd canlynol:

1. Cwblhau prosiect er mwyn asesu ymarferoldeb cyflwyno **'Social Value Portal'** neu debyg i Wynedd h.y. rhannu y dull o asesu tendrau sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd trwy fesur Pris ac Ansawdd i un sy'n mesur Pris, Ansawdd a Gwerth Lleol.
2. Cynlluniau i **ddatblygu gallu'r farchnad** i ennill cytundebau caffael y Cyngor - Ymateb i gwestiynau y Ddeddf Llesiant mewn tendrau, cefnogaeth i ennill achrediadau iechyd a diogelwch.
3. Asesu cyfleon i osod tendrau i gwmnïau lleol yn sgil **Brexit** a'r rhyddid i weithredu tu allan i reoliadau caffael Ewrop.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 3. Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £28,500 neu fwy) — Adran Economi a Chymuned

Mae cyflogau yng Ngwynedd ymysg yr isaf unman ym Mhrydain. Roedd tâl wythnosol yn y sir bron yr isaf yng Nghymru yn 2020 (£500 ar gyfartaledd) â thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£418 – yr isaf ym Mhrydain). Mae cyflogau isel, yn anorfod, am arwain at lefelau uwch o dlodi a dad-boblogi gwledig, sydd yn eu tro yn cael effaith ar ein cymunedau, dyfodol ein pobl ifanc ac ar y Gymraeg fel iaith gymunedol iach.

Mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel eisoes wedi cymryd camau i wella'r sefyllfa, gan sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynllun i ddatblygu gofod i fusnesau leoli yng Nghanolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr, gweithredu cynllun i gynyddu'r nifer o ddisgyblion ysgol sy'n astudio'r pynciau a ddymunir gan fusnesau o fewn sectorau sy'n talu'n dda, ac wedi dylanwadu ar benderfyniad i barhau'r gwaith dadgomisiynu ar safle Atomfa Trawsfynydd.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau hyn, ac hefyd yn arwain ar gynlluniau eraill megis cefnogi datblygiad sector diwydiannau creadigol a digidol, cefnogi datblygiad sector iechyd a meddygol a datblygu cynllun gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i baratoi Safle Atomfa Trawsfynydd er mwyn cynhyrchu ynni carbon isel ac isotopau meddygol i'r dyfodol. Cynlluniau o'r fath fydd yn sicrhau parhad swyddi gwerth uchel yn lleol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 4. Arloesi Gwynedd Wledig — Adran Economi a Chymuned

Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 79% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae hyn yn arwain at fygythiadau o ran cynaliadwyedd ein cymunedau gwledig gyda'r heriau hyn wedi cynyddu o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws a Brexit.

Mae'r Cyngor yn ceisio cryfhau sail yr economi wledig gan annog mentrau lleol i ddatblygu, creu a chynnal swyddi ar draws Gwynedd. Mae pecyn ariannol wedi'i ganfod trwy Ewrop i weithredu Rhaglen Datblygu Gwledig yn yr ardal sydd yn cynnwys pecyn o brosiectau i hyrwyddo mentergarwch.

Mae sicrhau cysylltedd ddigidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd wedi bod yn derbyn sylw eisoes. Rydym wedi cynnal peilot i roi WiFi cyhoeddus mewn 8 tref wledig, ac i gynyddu mynediad at offer cyfrifiadurol. Rydym hefyd yn rhan o raglen ARFOR, sef buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i greu mwy a gwell swyddi mewn ardaloedd yng ngorllewin Cymru ble mae canran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i ymestyn y ddarpariaeth ddigidol mewn cymunedau ac yn gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon gan roi sylw arbennig i'r sector bwyd a diod, ynghyd â gweithio i ddatblygu'r economi sylfaenol a chefnogi ein busnesau gwledig i addasu a datblygu yn sgil Covid-19 a Brexit.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 5. Hybu Canol Trefi — Adran Economi a Chymuned

Mae canol trefi bywiog yn gallu cyfrannu'n sylweddol i lewyrch economaidd a chymdeithasol ardaloedd lleol gan gynnig ystod o wasanaethau i'n cymunedau.

Ond mae ardaloedd "stryd fawr" ein canol trefi yn wynebu heriau sylweddol ar hyn o bryd gyda nifer o siopau cadwyn cenedlaethol yn cau a masnachu yn cael ei gyfyngu yn sgil Covid-19. Mae angen hybu a chefnogi datblygiad canol trefi i sicrhau eu bod yn gallu addasu a ffynnu i'r dyfodol; i gynnal a chreu gwaith; darparu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar drigolion ac ymwelwyr a darparu unedau preswyl newydd.

Rydym eisoes wedi bod yn cydweithio â busnesau ym Mangor a Chaernarfon i hyrwyddo'r Ardaloedd Gwella Busnes (BIDS) ac i ddenu adnoddau Rhaglen Adfywio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru. Buom yn llwyddiannus yn sefydlu rhaglen fenthyg i uwchraddio adeiladau segur yn ardaloedd Caernarfon, Bangor, Bethesda a Phenygroes a bydd y rhaglen yn ymestyn i holl drefi Gwynedd yn ystod 2021.

Yn ystod 2020 sefydlwyd grŵp traws-adrannol ar gyfer datblygu rhaglen o welliannau a mesurau tymor byr mewn ymateb i argyfwng Covid-19. I'r dyfodol byddwn yn parhau â'r gwaith yma ac yn paratoi cynlluniau ar gyfer 13 o ddalgylchoedd yng Ngwynedd a hynny ar sail yr hyn sydd yn bwysig i drigolion o fewn y cymunedau hyn.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 6. Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith — Adran Economi a Chymuned

Yn ystod 2020 cyflwynwyd enwebiad llawn o Wynedd i Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ac i Unesco ar gyfer dynodiad Safle Treftadaeth y Byd i Dirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r enwebiad yn rhoi cyfle i ni gydnabod cyfraniad y diwydiant llechi traddodiadol ar blatfform rhyngwladol, ac i ddathlu a gwarchod y diwylliant Cymraeg sydd ynghlwm â'r ardaloedd hynny.

Rydym eisoes wedi defnyddio enwebiad Safle Treftadaeth y Byd fel arf i adfywio ein cymunedau llechi ac i gynyddu gwerth y diwydiant ymwelwyr. Mae £1m o adnoddau ychwanegol wedi eu denu i'r sir trwy'r Gronfa Dreftadaeth, Llywodraeth Cymru, Yr Undeb Ewropeaidd a Pharc Cenedlaethol Eryri trwy brosiect LleCHI.

I'r dyfodol byddwn yn cydweithio gyda'r cymunedau llechi, trwy brosiect LleCHI, i greu rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn gwella gwedd a golwg cymunedau, gwella ansawdd y profiad i ymwelwyr, ac yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, iaith a diwylliant.

Bydd y Pwyllgor Treftadaeth Byd yn cyfarfod fis Mehefin / Gorffennaf 2021 a byddwn yn parhau i ymgysylltu a chydweithio efo cymunedau, tirfeddianwyr, busnesau a phartneriaid i sicrhau ein bod yn barod i fanteisio ar y cyfleon a ddaw yn sgil y dynodiad er budd pobl Gwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

## 7. Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu — Adran Economi a Chymuned

Mae'n gyfnod ansicr i fusnesau ar hyn o bryd o ganlyniad i Covid-19 a Brexit gyda newidiadau mewn trefniadau masnachu a chystadlu. Mae Cyngor Gwynedd yn benderfynol o helpu mentrau lleol i addasu ac ymateb i'r her ac rydym eisoes wedi gwneud ymdrech ddigynsail i gefnogi busnesau lleol drwy ddarparu cymorth ariannol, cyngor a gwybodaeth.

Mae busnesau'r sir yn ymwneud â nifer o adrannau'r Cyngor neu'n derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael. Rydym eisoes wedi ymgynghori â busnesau'r sir i weld a yw'r cymorth a'r gefnogaeth y maent yn ei gael gan y Cyngor y gorau y gall fod.

Rydym eisoes wedi cefnogi a chydweithio gyda Swyddfa Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar becyn o brosiectau Cais Twf er mwyn creu cyfleoedd i fusnesau o fewn economi Gwynedd i'r dyfodol. Yn ogystal, rydym wedi cydweithio gyda thîm Adran Cefnogaeth Gorfforaethol i ddatblygu rhaglen i hyrwyddo prynu lleol, ac wedi adolygu'r angen am ofod gan fusnesau (cyn Covid-19)

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i flaenoriaethu adnoddau ac ymdrech i gefnogi ein busnesau lleol gan sicrhau fod pob rhan o'r Cyngor yn ystyried sut gallent gynnig cymorth i gefnogi busnesau. Byddwn hefyd yn annog busnesau Gwynedd i wneud y gorau o'r cymorth sydd ar gael gan eraill, ac i leisio anghenion busnesau Gwynedd yn rymus wrth drafod gyda'n partneriaid, yn enwedig yng ngoleuni'r pandemig a Brexit.

Byddwn hefyd yn gweithredu:

- Rhaglen Swyddi Gwerth Uchel ac o Ansawdd er mwyn diogelu a chreu swyddi ar safle Trawsfynydd, Llanbedr a sectorau allweddol sydd yn creu swyddi o ansawdd ar draws Gwynedd
- Rhaglen Arloesi Gwynedd Wledig ac ARFOR er mwyn annog busnesau bach yn yr economi sylfaenol i arloesi a ffynnu
- Rhaglen Gwella Busnes i Bawb ar draws gwasanaethau Cyngor Gwynedd
- Rhaglen Cyfathrebu Busnes er mwyn ymgysylltu gyda busnesau a rhannu gwybodaeth.

Yn ogystal, byddwn yn gweinyddu Pecynnau Cymorth Busnes ar ran Llywodraeth Cymru er mwyn cynnig cymorth ariannol i fusnesau Gwynedd mewn ymateb i gyfyngiadau masnachu Covid-19.

I'r dyfodol byddwn angen gwerthuso rhaglenni blaenoriaeth Cynllun y Cyngor ar gyfer datblygu'r economi a chefnogi busnesau a hynny yn sgil effaith Covid-19 a Brexit. Byddwn hefyd angen adolygu

rôl y Cyngor yn y maes gyda phartneriaid yn lleol a rhanbarthol a chytuno ar flaenoriaethau gwaith i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.

## 8. Twristiaeth – llunio cynllun twristiaeth cynaliadwy

**Adran Economi a Chymuned**

Mae gennym bryder nad yw pobl Gwynedd yn elwa cymaint ag y dylent o dwristiaeth, gyda'r argyfwng Covid-19 wedi tanlinellu sut y gall effeithiau negyddol y diwydiant weithiau orbwyso'r manteision.

Mae yna waith wedi ei wneud er mwyn deall y newid mewn tueddiadau twristiaeth dros y blynyddoedd ac adnabod y buddion a'r risgiau i Wynedd, yn cynnwys effaith ar gymunedau, iaith a diwylliant yr ardal ac ail-gartrefi.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae yna waith wedi ei wneud er mwyn llunio egwyddorion twristiaeth cynaliadwy ar gyfer Gwynedd fydd yn sail i gynllun rheoli i'r dyfodol.

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o sefydlu gweledigaeth ac egwyddorion ar gyfer twristiaeth i'r dyfodol ac yn datblygu Cynllun Rheoli Economi Ymweld Gwynedd mewn cydweithrediad efo cymunedau a'r sector er mwyn sicrhau y budd gorau i bobl Gwynedd o ymwelwyr. Bydd y Cynllun yn gosod cyfeiriad i bolisïau a gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor i'r dyfodol, ond bydd hefyd yn cydnabod yr angen tymor byr i ymateb i effaith Covid-19.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

## 9. Adfywio: Llunio cynlluniau adfywio ar gyfer ein hardaloedd

**Adran Economi a Chymuned**

Mae risg fod pob gwasanaeth yn gweithredu eu rhaglenni eu hunain yn unol a'u canllawiau grant, ond efallai ddim yn ymateb i wir anghenion a chyfleoedd adfywio Gwynedd. Rydym wedi sefydlu Bwrdd Adfywio gyda'r bwriad o ddatblygu Rhaglen Adfywio ar gyfer cymunedau'r sir. Bydd y Rhaglen yn ymgorffori gweithgareddau traws-adrannol ynghyd â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor.

Byddwn yn sefydlu Fframwaith Adfywio newydd ac yn datblygu 13 Cynllun Adfywio ar gyfer ardaloedd Gwynedd.

Byddwn yn ymgynghori gyda rhanddeiliaid er mwyn deall sut mae cymunedau yn dymuno gweld eu hardaloedd yn datblygu yn y 10-15 mlynedd nesaf, ac yn adnabod blaenoriaethau lleol. Bydd y cynlluniau hyn yn rhoi sylw arbennig i anghenion canol trefi a dyfodol y 'stryd fawr' ar draws Gwynedd i'r dyfodol.

Byddwn yn sicrhau fod gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor yn cyfrannu at ddatblygiad a gweithrediad y Cynlluniau Adfywio hyn.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

# Blaenoriaeth Gwella 2

## Pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial

**Os am fanteisio ar unrhyw gyfleoedd fydd yn codi, mae'n allweddol fod gan Wynedd gyfundrefn addysg gynaliadwy o ansawdd, sy'n rhoi'r sgiliau i'n trigolion fanteisio ar y cyfleoedd hynny.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### 1. Darpariaeth Addysg Ôl-16 yn Arfon — Adran Addysg

Mae amrywiaeth yn ansawdd yr addysg a phrofiadau dysgwyr ar draws y gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon yn effeithio ar ddeilliannau a llwybrau dysgu.

Mae'r Cabinet eisoes wedi rhoi caniatâd i gychwyn ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i drafod y weledigaeth ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon. Cynhaliwyd yr ymgysylltu anffurfiol yn ystod Tymor yr Hydref 2020.

Yn 2021/21, byddwn yn defnyddio casgliadau'r ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i symud ymlaen i sefydlu cynigion drafft fydd yn arwain at gynnig opsiwn ffafredig i Gabinet y Cyngor yn yr Hydref.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

### 2. Dalgylch Bangor — Adran Addysg

Mae amgylchedd dysgu'r plant yn anaddas gan fod nifer o ysgolion cynradd ym Mangor (ac yn ardal Penrhosgarnedd yn benodol) yn llawn neu'n orlawn.

Mae gwaith adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol y Garnedd fydd â chapasiti i dderbyn hyd at 420 o ddysgwyr wedi ei gwblhau erbyn Tachwedd 2020. Yn ystod 2021/22 byddwn yn cwblhau'r gwaith o adeiladu estyniad a sicrhau gofal cymunedol ar safle Ysgol y Faenol ym Mhenrhosgarnedd gyda chapasiti i dderbyn 315 o ddysgwyr.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 3. Dalgylch Cricieth **Adran Addysg**

Mae cyflwr adeilad ac amgylchedd dysgu presennol Ysgol Treferthyr yng Nghricieth yn wael, sy'n effeithio ar brofiad y dysgwr. Byddwn felly'n adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau'r adnoddau gorau i'r dysgwyr ffynnu.

Yn 2021/22, yn sgil y broses o gyhoeddi rhybudd statudol, byddwn yn symud ymlaen i ymgysylltu ar gynlluniau, sicrhau caniatâd cynllunio ac apwyntio contractwyr.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 4. Cydweithio Meirionnydd **Adran Addysg**

Mae risg fod materion yn ymwneud â'r drefn bresennol yn effeithio ar brofiadau dysgwyr ym Meirionnydd, e.e. mae ysgolion uwchradd Meirionnydd yn ei chael hi'n anodd recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr. Os na fydd datrysiad i'r sefyllfa, bydd yr effaith ar wydnwch y gyfundrefn addysg a'r amodau arweinyddiaeth yn yr ardal yn parhau.

Mae gwaith wedi ei gomisiynu i ymchwilio i ganfod datrysiadau creadigol fydd yn arwain at gydweithio rhwng ysgolion uwchradd Meirionnydd er mwyn sicrhau bod ansawdd yr addysg yn gyson dda ac yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn sefydlu trefn ddiwygiedig ar y cyd gyda Chadeiryddion, Is gadeiryddion a Phenaethiaid Meirionnydd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 5. Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad **Adran Addysg**

Mae yna risg y byddwn yn methu a darparu yn addas ar gyfer pob disgybl gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) oherwydd na chafwyd adnoddau gan y Llywodraeth i gwrdd â'r cynnydd mewn angen am ddarpariaeth statudol (Deddf ADY a Tribiwnlys, 2018).

Mae'n bosibl hefyd na fydd plant a phobl ifanc yn cael y mynediad cywir at staff arbenigol (e.e. Seicolegwyr Addysg dwyieithog, Athrawon Synhwyraidd) a rolau allweddol o ran swyddi statudol o fewn y cod (Swyddog Arweiniol y Blynyddoedd Cynnar, Cydlynydd ADY) oherwydd cyfuniad o anawsterau recriwtio, cyllido, a chynnydd mewn llwyth gwaith.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

- Parhau i baratoi at y newid deddfwriaethol gan roi ffocws ar y blynyddoedd cynnar, Ôl-16, partneriaeth gyda rhieni ac asiantaethau, a'r dull cyllido mwyaf addas ar gyfer y gofyn deddfwriaethol
- Sefydlu prosesau a darpariaethau yn y blynyddoedd cynnar, ac mae hyn yn cynnwys mapio'r galw mewn llwyth gwaith (e.e. nifer o blant fydd angen sylw arbenigol/cymorth)
- Sefydlu prosesau a darpariaethau yn y sector Ôl-16, gan gydweithio'n agos gyda'r Colegau Addysg Bellach
- Sefydlu dull ariannu - adolygu'r dull ariannu er mwyn cael model sydd yn rhoi gwell sefydlogrwydd o ran darpariaeth
- Parhau â thrafodaethau cenedlaethol, gan barhau i drosglwyddo'r neges ynglŷn â phryder hyfforddi a recriwtio staff arbenigol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

## 6. Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc — Adran Addysg

Mae pryder y gall rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y bu angen help ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw ynghyd â chefnogaeth gyda'u lles.

Mae rhieni yn bryderus ynglŷn a'u gyrru i'r ysgol neu yn penderfynu addysgu gartref, ac mae cynnydd mewn pryderon diogelu.

Rydym yn ymwybodol fod pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar. Yn ystod 2021/22 byddwn yn canolbwyntio ar ddeall effeithiau y cyfnod clo ar les plant bach ac yn adolygu ein trefniadau a'n darpariaethau er mwyn sicrhau y cychwyn gorau i deuluoedd a phlant 0-5 oed. Yn ystod 2021/22 byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar gyfer y grŵp oedran 5-16 drwy gefnogi'r ysgolion i weithredu Rhaglen Cyflymu'r Dysgu gydag arian gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn ein caniatáu i ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr.

Tu hwnt i'r ysgol rydym hefyd yn sylweddoli fod y grŵp oedran 16-24 oed wedi eu heffeithio yn anghymesur gan yr argyfwng, fwy nag unrhyw grŵp oedran arall. Mae mwy o gyfeiriadau am gymorth llesiant, iechyd meddwl a digartrefedd ymysg y grŵp oedran hwn. Law yn llaw gyda'r cynnydd yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, addysg nac hyfforddiant mae bwriad felly i roi sylw penodol i'r maes hwn er mwyn lliniaru unrhyw sgil-effeithiau gan sicrhau fod ein pobl ifanc yn cael cefnogaeth a darpariaeth briodol i'w galluogi i ffynnu.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib

## 7. Strategaeth Dysgu Digidol — Adran Addysg

Mae risg o ddarparu addysg is-safonol i blant Gwynedd oherwydd methiant i uchafu'r cyfleoedd y mae dysgu digidol yn ei gynnig. Bwriad y strategaeth yw rhoi'r ddarpariaeth ddigidol orau i gefnogi ein dysgwyr a'n hathrawon i feithrin ystod o sgiliau i ddefnyddio technoleg yn hyderus, creadigol ac yn feirniadol.

Yn sgil diwygio'r cwricwlwm mae cymhwysedd ddigidol yn gyfrifoldeb statudol ar draws pob maes dysgu ac mae angen ei ystyried ym mhob agwedd wrth ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae amrywiaethau mewn ansawdd rhwydweithiau ysgolion, a chyflwr a nifer ac argaeledd dyfeisiadau i athrawon a dysgwyr. Mae amrywiaeth yn nealltwriaeth y cyfrwng ymysg athrawon. Nid yw'r drefn o gynnal offer yn sicrhau mynediad di- dor.

Mae gwaith yn digwydd i lunio strategaeth o'r newydd ac erbyn 2021/22 byddwn wedi cyhoeddi'r strategaeth ac yn cychwyn ei rhoi ar waith.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

# Blaenoriaeth Gwella 3

## Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir

**Rhaid cydnabod hefyd, ar hyn o bryd, nad yw pob un yn ein cymdeithas yn cael y cyfleoedd i gyflawni eu potensial. Yn sicr, fel ym mhob sir yng Nghymru, mae yna anghydraddoldeb yn bodoli o fewn y sir ar wahanol lefelau, gyda'r anghydraddoldeb a grëir gan dlodi yn sylweddol o ran y niwed sy'n cael ei greu.**

**Mae'n amlwg fod tlodi hefyd yn gallu cael effaith andwyol sylweddol ar lesiant, ac yn arbennig felly y dyfodol a gynigir i blant. Tra bod gennym wasanaethau sy'n ceisio meirioli effeithiau tlodi, mae'n ddyletswydd arnom i ystyried a oes mwy y gallwn ei wneud.**

**Mae'n ddyletswydd arnom hefyd i gynnal gwasanaethau o safon ar gyfer edrych ar ôl y plant hynny sy'n canfod eu hunain mewn sefyllfaoedd lle mae angen i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb amdanynt. Yn y pen draw, nid oes unrhyw un ohonynt eisiau bod yn y fath sefyllfa.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

## 1. Mwy o drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith

**Adran Economi a Chymuned**

Mae nifer fawr wedi colli eu gwaith yng Ngwynedd dros y flwyddyn ddiwethaf yn sgil Covid-19. Mae lefelau diweithdra wedi codi yn sylweddol a rhagolygon yn dangos y bydd yn cynyddu eto dros y misoedd nesaf. Mae nifer o bobl Gwynedd hefyd yn methu â chyflawni eu llawn botensial gan eu bod wedi eu tangyflogi neu wedi eu heithrio o gyflogaeth.

Gall diweithdra a lleihad mewn incwm aelwydydd effeithio ar iechyd a lles unigolion a theuluoedd a chynyddu'r galw ar adnoddau cyhoeddus. Mae atal hyn yn rhan allweddol o'r agenda gwrth dlodi. Ceir budd uniongyrchol o fod mewn gwaith o ran cynyddu enillion, ond hefyd ceir budd ehangach o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau.

Rydym eisoes wedi gwyro blaenoriaethau er mwyn gallu ymateb o fewn adnoddau presennol gan:

- ymestyn rhaglen Cymunedau i Waith er mwyn cefnogi mwy o unigolion di-waith sydd wedi eu cyfeirio gan asiantaethau Llywodraeth i dderbyn cymorth i oresgyn rhwystrau i waith
- weithio gyda chyflogwyr, yn arbennig o fewn y diwydiant ymwelwyr, i sicrhau fod mwy o bobl Gwynedd yn elwa o'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael, ac yn cefnogi trigolion Gwynedd i fagu'r sgiliau digidol sydd eu hangen i gael mynediad i waith
- gefnogi gweithluoedd sydd yn cael eu diswyddo er mwyn iddynt gael mynediad at wybodaeth berthnasol gan wahanol wasanaethau, a hynny mewn cyfnod lle mae cyfyngiadau Covid-19
- gydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu rhaglen 'Kickstart' y Llywodraeth yng Ngwynedd i gefnogi busnesau a chyflogwyr lleol i gyflogi pobl ifanc am gyfnod o 6 mis a datblygu eu sgiliau gwaith.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau uchod ac yn cydweithio yn agos gyda'n partneriaid ledled Gogledd Cymru a chydag Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU i wella cydlyniad ein gwasanaethau. Byddwn yn darparu rhaglen i gynnig profiadau gwaith i bobl ifanc di-waith mewn busnesau ar draws Gwynedd a bydd tasglu a sefydlwyd yn ystyried os oes camau pellach gall Cyngor Gwynedd ei gymryd i ymateb i'r her anferthol o gefnogi pobl Gwynedd yn ôl i waith cyn gynted â phosibl.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 2. Cefnogi Llesiant Pobl — Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd yn sgil argyfwng Covid-19, ac mae sefyllfa fregus rhai trigolion eraill wedi gwaethygu yn ystod yr argyfwng. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel ac yn iach.

Mae trigolion yn ei chael hi'n anodd i gael mynediad at wasanaethau a chanfod gwybodaeth am be sydd ar gael i'w helpu, yn arbennig drwy gyfryngau rhithiol ac ar-lein ac felly'n wynebu eu allgau yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Mae rhai trigolion yn wynebu caledi ariannol, yn wynebu colli gwaith a cholli cartref. Mae trigolion yn ei chael hi'n anodd cael yr help sydd ei angen arnynt i ddelio gyda'r heriau hyn a chynnal eu llesiant yn lleol, ac yn amserol.

Mae gennym rwydwaith eang a niferus drwy gymunedau'r sir sy'n helpu a chefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w anghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

1. Blaenoriaethu ein ymdrechion a byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi trigolion:-
   - sy'n wynebu digartrefedd
   - sy'n gofalu am anwyliaid yn ddi-dâl
   - sy'n wynebu tlodi ariannol a thlodi bwyd
   - sy'n cael eu allgau'n ddigidol.

2. Byddwn yn gweithio ar draws gwasanaethau a gyda'n partneriaid ar:
   - ymyraethau llesiant i blant, pobl ifanc a phobl o bob oed
   - cefnogi cymunedau
   - cynnal gwydnwch cymunedau a chefnogi gwirfoddolwyr/ysbryd cymunedol.

3. Byddwn hefyd yn edrych ar fodelau ar gyfer sicrhau fod trigolion yn cael mynediad i'r ystod eang a newydd o gefnogaeth sydd ar gael yn amserol, yn gydlynus ac yn lleol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 3. Merched mewn Arweinyddiaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Er yn gadarn ei fod yn talu cyflog ar sail cyfartal, mae'r Cyngor yn cydnabod bod y nifer o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth rheolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad o fewn y gweithlu cyfan - h.y. 70% merched 30% dynion.

Byddwn yn cyflwyno rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, cynnal awdit o'n dulliau recriwtio a phenodi ar gyfer swyddi rheolaethol a chreu fforwm ar gyfer arweinwyr a darpar-arweinwyr benywaidd o fewn y Cyngor.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib**.**

## 4. Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb (Sicrhau Tegwch i Bawb) Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Rydym yn awyddus i sicrhau fod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio'n ddwfn o fewn gwaith y Cyngor er mwyn gwella ein gwasanaethau ar gyfer pawb o bobl Gwynedd.

Erbyn diwedd 2020/21 byddwn wedi cynnal ymchwiliad trylwyr o farn pobl Gwynedd sydd â nodweddion gwarchodedig (fel maent yn cael eu nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010) am y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu cynnig, gan hefyd adnabod unrhyw rwystrau sy'n bodoli. Bydd canlyniad yr ymchwiliad hwn yn sail i nifer o'r gweithgareddau pellach o fewn y Cynllun Gweithredu ar gyfer y 5 Amcan o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24.

Yn ystod 2021/22 fe fyddwn yn:

- Datblygu rhaglen hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth i staff a rheolwyr er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o anghenion pobl Gwynedd a'r Ddeddf ar gyfer ei chyflwyno o Fedi 2021 ymlaen
- Byddwn hefyd yn parhau i gynnig cymorth a hwyluso gallu rheolwyr i gynnal Asesiadau Cydraddoldeb
- Annog staff i gwblhau'r holiadur monitro er mwyn cael tystiolaeth ddibynadwy i'n helpu i wella amrywiaeth ein gweithlu, ac i leihau unrhyw fylchau tâl.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib**.**

# Blaenoriaeth Gwella 4

## Mynediad at gartrefi addas

**Mae gan y maes tai rôl allweddol i helpu'r Cyngor gyflawni ein huchelgais. Gwyddwn fod cael cartref sydd yn addas ac o safon yn arwain at well iechyd, cymunedau mwy gwydn a phoblogaeth sy'n gallu cyfrannu yn llawn i gymdeithas. Mae'n bwysig ein bod yn datblygu cynigion tai amrywiol, arloesol, a gwyrdd y gall pobl fyw ynddynt trwy gydol eu hoes yn ogystal â chynnig cefnogaeth gynnar i'r rhai sydd ei angen.**

**Fel Awdurdod Lleol, byddwn yn ymyrryd i annog ystod o opsiynau cefnogaeth a llety er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth heddiw, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Law yn llaw â hyn, rhaid sicrhau fod y camau a gymerir yn parchu diwylliant cymunedau'r sir.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### 1. Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Sicrhau cymeradwyaeth i'r Cynllun Tai a dechrau gweithredu

**Adran Tai ac Eiddo**

Er mwyn cyrraedd uchelgais ein Strategaeth Tai i "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd", rydym wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynnwys dros 30 o gynlluniau penodol a buddsoddiad o £77 miliwn.

Bydd y cynlluniau hyn yn anelu i gyflawni'r amcanion canlynol:

- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn cychwyn gweithredu ar y cynlluniau hyn er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl leol gael cartrefi addas o fewn eu cymunedau.

Mae'r galw ar ein gwasanaeth digartrefedd wedi cynyddu yn y misoedd diwethaf o ganlyniad i bandemig Covid-19 a byddwn yn anelu i flaenoriaethu nifer o'r cynlluniau a fyddai'n cynyddu'r cyflenwad o dai ar gael i'r gwasanaeth digartrefedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 2. Mynediad rhwydd a chlir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai : Sefydlu un drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn eu helpu gyda phroblemau tai

**Adran Tai ac Eiddo**

Ar hyn o bryd, mae nifer o bwyntiau cyswllt o fewn yr Adran i'r cyhoedd gael mynediad at wahanol wasanaethau yn y maes Tai ac Eiddo. Mae ein Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys prosiect i sefydlu un pwynt cyswllt drwy greu Desg Gymorth Tai.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn ymchwilio i fodelau gwahanol o ddarparu desg gymorth a chychwyn ar y gwaith o sefydlu math o Ddesg Gymorth Tai all gynghori'r cyhoedd sut orau i ddatrys eu hanghenion tai.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 3. Gosod tai cymdeithasol i bobl leol : Creu polisi gosod newydd ar gyfer y sir fydd yn rhoi mwy o flaenoriaeth i bobl leol

**Adran Tai ac Eiddo**

Rydym wedi cyflwyno Polisi Gosod Tai newydd sydd wedi bod yn weithredol ers Haf 2020. Mae'r polisi hwn yn blaenoriaethu pobl leol, ac yn disodli'r hen system pwyntiau i ddyrannu tai.

Mae'r drefn newydd yn golygu fod ceisiadau am dai cymdeithasol yn cael eu rhoi mewn un o 4 'band' yn ddibynnol ar eu hanghenion tai a'u cysylltiad gyda Gwynedd neu beidio.

Yn ystod 2021/22 byddwn angen sicrhau fod trefniadau effeithiol ar gyfer gweithredu'r polisi gosod newydd a sefydlu trefn i fonitro fod y polisi hwn yn cael ei weithredu drwy'r sir i sicrhau'r cyfleoedd gorau i bobl Gwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 4. Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes

**Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth**

Ers sawl blwyddyn, mae'r Cyngor wedi bod yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i newid Adran 66 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 er mwyn rheoli trosglwyddiad cartrefi domestig i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar sy'n destun ardrethi annomestig. Mae'r mwyafrif helaeth yn osgoi unrhyw drethiant

lleol am eu bod yn derbyn rhyddhad ardrethi busnesau bychain. Rydym yn bwriadu parhau i bwyso am ddiwygio'r drefn yn y maes yma yn ystod y blynyddoedd nesaf, gan ddefnyddio tystiolaeth rydym yn ei gasglu yn barhaus, er mwyn cael Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ddeall maint y broblem sy'n bodoli yng Ngwynedd. Siomedig fu'r ymateb hyd yma gyda'r Llywodraeth yn canolbwyntio mwy ar yr effaith niweidiol honedig ar dwristiaeth yn hytrach na'r effaith niweidiol go iawn ar drigolion Gwynedd.

Byddwn hefyd yn parhau â'r gwaith o bwyso ar Lywodraeth Cymru i ddiwygio'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref i gynnwys dosbarth defnydd penodol ar gyfer tai preswyl a ddefnyddir fel llety gwyliau, ynghyd â chyflwyno trefn trwyddedu gorfodol er mwyn gallu gweithredu'r busnes. O ganlyniad, ni ddylai unrhyw eiddo heb ganiatâd priodol ar gyfer ei ddefnyddio fel llety gwyliau tymor byr fod yn gymwys i drosglwyddo o fand Treth Cyngor i'r rhestr ardrethi annomestig.

Mae'r Cyngor yn buddsoddi'r incwm a geir o'r premiwm Treth Gyngor yn ein Cynllun Gweithredu Tai er mwyn ceisio lleddfu rhywfaint ar yr effaith andwyol y mae ail gartrefi yn ei gael ar argaeledd tai i bobl leol. Wrth i eiddo drosglwyddo i fod yn unedau gwyliau mae posibilrwydd y bydd llai o eiddo yn destun y premiwm.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

# Blaenoriaeth Gwella 5

## Byw bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg

**Un nodwedd unigryw sydd gan Wynedd fel sir hefyd yw ei Chymreictod. Mae Cyngor Gwynedd ei hun wedi ymrwymo i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond ni fydd hynny ynddo'i hun yn ddigonol os ydym am gadw natur unigryw'r sir yn fyw.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### 1. Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor

**Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i **Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor,** ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.

I'r dyfodol fe fyddwn yn canolbwyntio ar weithio gyda gweddill gwasanaethau'r Cyngor, yn enwedig y rhai rheng flaen, i gwblhau'r asesiad a datblygu sgiliau staff newydd.

Byddwn hefyd yn datblygu cynllun prentisiaethau i ddenu a datblygu staff gyda'r gallu ieithyddol briodol ac yn parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth dysgu sydd eisoes yn ei le (gyda hyblygrwydd i addasu i anghenion timau penodol).

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

### 2. Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus

**Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

Ar hyn o bryd mae anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo cyrff cyhoeddus.

Trwy Is-Grŵp y Gymraeg o fewn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus byddwn yn llunio cynllun ar y cyd gyda'n partneriaid ar y Bwrdd er mwyn ceisio symud i sefyllfa lle mae defnyddio'r Gymraeg yn naturiol ar y cyfle cyntaf bosib, ac i annog pobl i wneud hynny.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 3. Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig

**Adran Cefnogaeth Gorfforaethol**

Mae gennym bryder fod enwau llefydd cynhenid Cymreig yn diflannu o dirlun Gwynedd o ganlyniad i ddiffyg defnydd o'r enwau Cymraeg a'r cynnydd mewn ail enwi llefydd yn Saesneg.

Byddwn yn llunio rhaglen waith gan flaenoriaethu'r meysydd i gael sylw ac ym mha drefn. Byddwn hefyd yn ystyried yr hyn y gellir ei wneud fel rhaglen waith ym meysydd adeiladau'r Cyngor, enwau strydoedd ac enwau llefydd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## 4. Hybu Defnydd o'r Gymraeg Ymysg Plant a Phobl Ifanc

**Adran Addysg**

Mae sgiliau a hyder dysgwyr (o gartrefi di-Gymraeg yn arbennig) yn y Gymraeg wedi dirywio yn sgil y cyfnod clo a Covid-19.

Yn 2021/22 byddwn yn sefydlu gwaelodlin o sefyllfa bresennol y Gymraeg yn sgil effaith y cyfnod clo a Covid-19, ac yn llunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu mewn ymateb i'r sefyllfa.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

# Blaenoriaeth Gwella 6

## Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant

**Rydym fel Cyngor yn darparu gofal yn uniongyrchol i blant a'u teuluoedd a phobl sydd angen cymorth arbenigol, ond ein gweledigaeth yw bod pawb o bob oedran yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen yn y ffordd fwyaf addas a chyfleus iddyn nhw.**

**Gan fod anghenion pob unigolyn a theulu yn siŵr o fod yn wahanol, er mwyn iddynt barhau i fyw eu bywydau fel y dymunant mae angen i ni fel Cyngor addasu ein gwasanaethau i fod wedi eu teilwra yn agosach at wir anghenion y rhai hynny sydd angen ein cymorth. Er mwyn llwyddo, bydd angen i ni barhau i gydweithio â darparwyr eraill, megis y Bwrdd Iechyd, gan gofio rhoi anghenion yr unigolyn yn ganolog bob tro.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### 1. Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol
### Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu nifer o ffactorau a all effeithio ar ein gallu i **barhau i ddarparu gwasanaethau gofal priodol i bobl Gwynedd.** Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau byddwn yn ystod 2021/22 yn:

- ceisio deall "gwir gost gofal" er mwyn ystyried opsiynau posib ar gyfer ein trefniadau comisiynu gofal i'r dyfodol
- sicrhau ein bod yn deall yr angen am ddarpariaeth gwelyau nyrsio yn y sir, a symud ymlaen gyda phrosiect Safle Penrhos er mwyn cyfarch y prinder ym Mhen Llŷn
- gweithio tuag at gynyddu nifer y gwelyau dementia yn y sir ymhellach
- ystyried a yw'n gwasanaethau cefnogol e.e. gofal dydd ac ysbaid yn parhau'n addas er mwyn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd, neu os oes angen i ni wneud rhywbeth yn wahanol
- ystyried sut allwn ni wella addasrwydd ein hadeiladau darparu gofal wrth geisio cwrdd â mesurau rheoli haint ychwanegol.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i **wella safon ein darpariaeth gofal ar draws y sir**. Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

- agor uned dementia pwrpasol sydd wedi'i gwblhau yn Llan Ffestiniog, ond sydd heb allu agor oherwydd argyfwng Covid-19
- cwblhau'r gwaith o adeiladu uned dementia ychwanegol yn ein cartref yn y Bermo
- cwblhau addasiadau i'n cartref yn Nolgellau er mwyn medru cynnig gofal mwy pwrpasol ar gyfer unigolion ag anghenion corfforol dwys
- cydweithio gyda chymdeithas tai Adra ar ddatblygiad Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli a cheisio adnabod cyfleon am ddatblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sir, gyda blaenoriaeth i ardal Dolgellau a Meirionnydd yn ehangach

- cryfhau ein gwasanaethau sicrwydd ansawdd i sicrhau cefnogaeth ddigonol i ddarparwyr gofal i'w helpu i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib

## 2. Ail-Ddylunio ein Gwasanaethau Gofal

**Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Mae anghenion gofal y sir yn newid, ac rydym wedi bod yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i drawsnewid ein gwasanaethau cymunedol. Mae angen i ni hwyluso gallu ein staff ni a staff y Bwrdd Iechyd i gydweithio fel un tîm o fewn ardaloedd penodol. Bydd hyn yn arwain at sicrhau mai un pwynt cyswllt fydd gan unigolion sydd angen cymorth iechyd a gofal yn y gymuned er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau a gwasanaeth di-dôr. Rydym hefyd yn gweithio i newid ein ffordd o ddarparu gofal cartref ar draws y sir er mwyn hwyluso'n gallu i sicrhau fod y gofal wedi'i deilwro yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn.

Yn ystod 2021/22, byddwn yn:

- arfogi'r timau integredig (timau sy'n cynnwys staff gofal yn ogystal â staff iechyd) i allu cyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar hyfforddiant priodol a dileu unrhyw rwystrau technolegol
- dyfarnu cytundebau gofal cartref newydd ymhob ardal gyda'r nod o weithredu'r model newydd yn fuan yn 2022/23
- cryfhau'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol, yn cynnwys datblygu gwasanaeth symud a thrin arbenigol i alluogi unigolion i fyw mor annibynnol â phosib
- ychwanegu at y rhwydwaith o hybiau cymunedol sy'n cefnogi a chreu cyfleon i unigolion gydag anableddau dysgu drwy ddatblygu cynlluniau ar gyfer Canolfan Dolfeurig yn Nolgellau
- ailagor ein hwb iechyd meddwl cymunedol ym Mhwllheli, yn dilyn iddo orfod cau yn sgil argyfwng Covid-19 ac edrych ar opsiynau i ddatblygu hybiau pellach ar draws y sir
- edrych ar opsiynau i ddatblygu darpariaeth cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i garfan iau ardal Arfon.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

## 3. Y Gweithlu a Recriwtio yn y Maes Gofal

**Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Mae recriwtio i'r maes gofal yn heriol am amryw o resymau. Mae gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, ac mae hyn wedi ei amlygu yn arbennig yn ystod argyfwng Covid-19. Ond, mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol.

Yn ystod 2021/22, byddwn yn:

- adolygu trefniadau'r ymgyrch recriwtio diweddar #GalwGofal er mwyn ystyried sut fyddwn ni'n mynd ati i recriwtio i'r dyfodol
- ystyried ein trefniadau cofrestru ac hyfforddi yn ogystal â threfniadau datblygu staff er mwyn cynyddu hyblygrwydd a chadernid yn y maes
- datblygu cynllun Meithrin Talent i fynd i'r afael â phrinder arbenigedd mewn rhai meysydd e.e. Therapi Galwedigaethol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

## 4. Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i Gilydd

**Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd**

Mae rhai teuluoedd angen cefnogaeth benodol ar adegau i'w helpu i fagu plant fel bod y plant hynny yn gallu aros gyda'u teulu, yn ffynnu, yn iach, ac yn ddiogel. Nid oes plant yn dod i ofal yn ddi-angen yng Ngwynedd ac rydym am sicrhau nad yw hynny yn digwydd. Weithiau, mae'n orfodol fod plentyn yn dod i'n gofal oherwydd ei bod yn beryglus iddynt aros gartref. Mae ein trefniadau a'n penderfyniadau pan fo hynny'n digwydd yn seiliedig ar risg ac anghenion y teulu. Pan mae plentyn yn dod i ofal mae angen gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn derbyn gofal briodol, addas a lleol; a'u bod nhw a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi fel bod y plentyn yn gallu dychwelyd at ei deulu.

Bydd Rhaglen Trawsffurfio "Amddiffyn Plant yn Effeithiol" yn weithredol yng Ngwynedd, yn cael ei gwerthuso'n barhaus a byddwn yn rhannu'r model gydag Awdurdodau eraill Gogledd Cymru.

Byddwn yn cwblhau y gwaith Ffordd Gwynedd gan weithio ar draws gwasanaethau'r adran ac ar y cyd gyda'r Adran Addysg i ddeall yr hyn sy'n bwysig i deuluoedd Gwynedd ac yn cytuno ar egwyddorion, a ffyrdd o wella yr hyn rydym yn ei wneud a sut yr ydym yn gweithio, er mwyn rhoi'r gefnogaeth sydd ei angen.

Byddwn yn cyflwyno strategaeth "Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd" a'i mabwysiadu sy'n dangos ein nod, ein trefniadau a'n ymarfer tuag at osgoi rhag dod a phlant i ofal yn ddi-angen; ond os oes angen gofal yna sicrhau bod y plentyn yn cael gofal mewn lleoliad addas, priodol a lleol; a bod pob ymdrech a chefnogaeth i gael plant yn ôl gyda'u teuluoedd.

Byddwn yn derbyn adborth Llywodraeth Cymru ar ein strategaeth "Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd".

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

## 5. Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth

**Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd**

Mae rhai plant a phobl ifanc sy'n dod i'n gofal gydag anghenion cymhleth a dwys. Mae rhai o'r plant hyn yn gorfod derbyn gofal a chefnogaeth mewn lleoliad drud y tu allan i Wynedd neu Gymru ac ymhell o'u teulu a'u cymuned. Rydym am sicrhau bod gennym amrywiaeth a digon o leoliadau addas ar gael yn lleol, a bod gennym weithwyr a chefnogaeth arbenigol yn lleol ar gyfer anghenion y plant hyn.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

- Gweithredu rhaglen hyfforddiant arbenigol i staff fel eu bod yn gallu cynnig cefnogaeth addas i blant gydag anghenion cymhleth a'u teuluoedd
- Datblygu a chytuno achos busnes, ar draws partneriaid lleol, ar gyfer gweithredu ac ymarfer fel un tîm amlddisgyblaethol fel bod cefnogaeth i deuluoedd a phlant yn fwy effeithiol ac effeithlon
- Datblygu cynllun ar gyfer adnabod darpariaeth breswyl yn lleol i blant gydag anghenion cymhleth
- Cynyddu niferoedd gofalwyr maeth drwy recriwtio a rhoi adnoddau i asesu gofalwyr ar gyfer sicrhau digon o leoliadau.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

## 6. Sicrhau fod teuluoedd a phlant gydag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu

**Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd**

Mae plant a phobl ifanc sydd ag awtistiaeth a gallu sgiliau uchel; a phlant sydd ag awtistiaeth a dim anabledd dysgu, yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at y gefnogaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt. Mae profiad y plant yma a'u teuluoedd yn dangos bod lle i wella ein trefniadau asesu presennol; bod

bylchau mewn darpariaeth a bod angen help arnynt yn y cyfnod trosglwyddo i wasanaethau eraill megis oedolion ac iechyd.

Yn ystod 2021/22 byddwn yn:

- Lansio Cynllun Awtistiaeth i'r sir ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, partneriaid trydydd sector ac ar draws gwasanaethau'r Cyngor
- Penodi rôl yn y Cyngor ar gyfer gweithio yn y maes gan roi sylw penodol i'r cyfnod trosglwyddo o blentyndod i oedolyn yn y maes
- Adolygu trefniadau mynediad i wasanaeth integredig plant anabl (DERWEN)
- Gwella trefniadau cydweithio, rhannu gwybodaeth a darparu cefnogaeth yn y maes gyda'n partneriaid iechyd a gyda darparwyr arbenigol yn y trydydd sector.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

# Blaenoriaeth Gwella 7

## Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud

**Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor eisoes yn cyflawni amrediad eang o weithgareddau, sy'n ceisio sicrhau ein bod yn cyflawni'r weledigaeth sydd gennym. Ond nid da lle gellir gwell, rydym yn cydnabod fod yna enghreifftiau lle nad ydym yn edrych ar bethau drwy lygaid ein trigolion bob tro, ac mae angen sicrhau fod hynny'n digwydd ymhob man o fewn y Cyngor.**

**Nid yw hynny yn golygu gwneud pob dim i bawb wrth gwrs, gan nad yw adnoddau yn caniatáu i ni wneud hynny. Mae'n golygu ein bod yn blaenoriaethu'r pethau hynny sydd bwysicaf i'n cymunedau, ac yn sicrhau bod yr adnoddau prin sydd gennym yn cyfrannu at wneud yr hyn sydd bwysicaf i bobl Gwynedd (gan dderbyn y bydd y blaenoriaethu, yn anochel, yn golygu peidio â chyflawni dyheadau pawb).**

**Mae'r pwyso a mesur yma hefyd yn gorfod digwydd ar adeg pan fo'r arian sydd ar gael i wasanaethau yn lleihau'n sylweddol. Yn hynny o beth, bydd angen sicrhau fod yr arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r pethau pwysicaf.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### 1. Gweithredu Rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd *(Arfogi unedau i roi "Ffordd Gwynedd" ar waith)*

### Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Ein cyfrifoldeb ni fel Cyngor yw sicrhau, wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau, mai **anghenion pobl Gwynedd** sy'n llywio sut y byddwn yn cynnig y gwasanaethau hynny. Trwy wneud hyn fe ddylem osgoi unrhyw drefniadau gwaith diangen. Rydym eisoes yn herio timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.

Byddwn yn datblygu hyfforddiant ar gyfer cynorthwyo rheolwyr i ddeall y cyswllt agos rhwng diwylliant Ffordd Gwynedd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cyflwyno'r sesiwn honno i'r Rhwydwaith Rheolwyr yn ystod hanner cyntaf 2021, tra'n rhyddhau swydd-ddisgrifiad i arweinyddion tîm a gweddill staff y Cyngor fydd yn cadarnhau'r ymddygiadau disgwyliedig ohonynt.

Byddwn yn sefydlu dulliau o fesur cynnydd y diwylliant a geisir trwy gyfuniad o hunan-asesu ac herio cyson.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion llesiant.

## 2. Sicrhau bod rheolwyr yn arddel eu rôl Iechyd a Diogelwch yn effeithiol Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae angen i ni sicrhau bod ein trefniadau gwarchod Iechyd a Diogelwch yn gadarn, a thra bod gennym drefniadau aeddfed o fewn y Cyngor mae gennym bryder bod yna bocedi lle mae yna gyfle i wella trefniadau gweithredol.

Er mwyn ymateb i'r sefyllfa byddwn yn cynnal trafodaeth â phenaethiaid / uwch reolwyr / rheolwyr pob Adran er mwyn deall eu anghenion a chanfod y ffordd fwyaf effeithiol o ddatrys y sefyllfa.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion llesiant.

## 3. Cynllunio'r Gweithlu Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae'r Cynllun Pobl yn blaenoriaethu gwella trefniadau ar gyfer meithrin talent o fewn y Cyngor, gwella ein trefniadau Cynllunio'r Gweithlu, a sicrhau fod ein trefniadau dysgu a datblygu yn canolbwyntio ar y pethau angenrheidiol. Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi Pobl Gwynedd yn y canol bob amser, rhaid sicrhau fod gennym y staff iawn yn y lle iawn gyda'r sgiliau iawn. Golyga hynny fod angen i ni hyfforddi staff yn barhaus, gwerthuso eu perfformiad, a meithrin a datblygu eu talent. Mae trefniadau hyfforddi staff yn ffordd bwysig o hybu a lledaenu meddylfryd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor, ac wrth gwrs mae'n hollbwysig fod gan y Cyngor swyddogion sydd â'r sgiliau i gyflawni eu swyddi.

Bydd y gwaith o adnabod bylchau a gweithredu'n rhagweithiol, sydd wedi ei gychwyn gyda'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, yn cael ei ledaenu i weddill y Cyngor yn ystod 2021. Byddwn hefyd yn ymestyn y nifer o brentisiaid ac hyfforddeion presennol ac hynny ar draws nifer cynyddol o wasanaethau ar draws y Cyngor.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion llesiant.

## 4. Cyflawni arbedion Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth

Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol da, sydd eisoes wedi adnabod llawer o arbedion effeithlonrwydd er mwyn isafu'r toriadau gwasanaeth i drigolion Gwynedd.

Mae'r gwaith sydd eisoes wedi ei gyflawni dros nifer o flynyddoedd yn awgrymu ein bod wedi cynaeafu cyfran helaeth o'r arbedion effeithlonrwydd sydd ar gael, ond mae angen parhau i fonitro cynlluniau cymeradwy holl adrannau'r Cyngor er mwyn sicrhau fod y swmp o'r arbedion arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Ar ôl cyfnod hir o ddarganfod a chyflawni arbedion, dros £30m yn y cyfnod ers 2015/16, mae'r cynlluniau bellach gymaint yn anoddach i'w gwireddu gyda phrosiectau effeithlonrwydd yn llawer mwy o waith na thorri gwasanaethau. Adolygwyd yr holl gynlluniau arbedion er mwyn asesu pa rai sydd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22. Drwy'r trefniadau cadarn sydd gennym i fonitro sut y mae adrannau yn cyflawni arbedion, byddwn yn sicrhau bod y rhaglen ddiwygiedig yma yn cael ei chyflawni. Byddwn hefyd yn cefnogi adrannau gyda chostau trawsffurfio, wrth iddynt gyflwyno trefniadau gwaith newydd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion llesiant.

## 5. Cryfhau cyfathrebu ac ymgysylltu

**Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

Mae'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn weledol iawn gydag agweddau'r gwasanaethau yn cyffwrdd ar bob trigolyn drwy'r sir. Gellir ychwanegu gwerth at waith yr adran drwy gynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol; er enghraifft ymgyrchoedd atal mân sbwriel neu faw ci, neu ymgyrchoedd a chanllawiau i annog ail ddefnyddio, ail bwrpasu a lleihau gwastraff. Mae hefyd yn hynod bwysig fod trigolion yn hyderus yng ngwasanaethau'r adran a bod eu pryderon ac ymholiadau yn cael eu hymdrin â nhw'n effeithiol. Byddwn yn sicrhau bod trefniadau ymateb amserol ac ystyrlon mewn lle a byddwn yn:

- adolygu trefniadau cyfredol o gyfathrebu ac ymateb i ymholiad
- amlygu ble mae diffygion/llefydd gwella
- sefydlu grŵp tasg gyda chynrychiolaeth o swyddogion ynghyd â Galw Gwynedd
- adnabod mesurau er monitro.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

## 6. Capasiti Gwarchod y Cyhoedd

**Adran Amgylchedd**

Yn sgil argyfwng Covid-19, mae wedi dod yn fwy amlwg pa mor bwysig yw rôl ein Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd wrth warchod iechyd ein cymunedau, ond hefyd wrth gynghori a chefnogi busnesau'r sir. Mae hefyd disgwyliad ein bod yn defnyddio ein pwerau gorfodaeth yn sgil honiadau o dorri'r rheoliadau coronafeirws.

Mae'r profiadau yn ystod y cyfnod argyfwng wedi amlygu diffyg gwydnwch yng Ngwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn sgil blynyddoedd o doriadau. Credir fod angen datrysiad byr-dymor yn ogystal â datrysiad hir-dymor er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy ac effeithiol i gefnogi a gwarchod trigolion a busnesau Gwynedd.

Bwriedir cynnal adolygiad llawn o strwythurau Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn ystod 2021/22 er mwyn asesu'r anghenion yn llawn ac ystyried y capasiti staff fydd ei angen ar gyfer yr hirdymor (gan

nodi ei bod yn anodd rhagweld pa bryd fydd yr argyfwng presennol yn dod i ben) er mwyn cefnogi a gwarchod trigolion a busnesau Gwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

## 7. Cymunedau Glân a Thaclus — Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Byddwn yn cydweithio gyda thrigolion a chymunedau Gwynedd drwy ymgysylltu er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu i gyd-fynd â'r flaenoriaeth yma gan ehangu a datblygu partneriaethau cymunedol i wella ansawdd ac edrychiad y sir e.e.

- Strydoedd glan a deniadol
- Ffyrdd a llwybrau cerdded mewn cyflwr da
- Timau gwaith lleol er mwyn cyflawni'r gwaith
- Trafodaeth am yr egwyddorion a chamau gweithredu drwy ymgysylltu â'r gymuned a'r staff
- Llunio cynllun gweithredu, darganfod dyheadau a rhanddeiliaid posib ar lefel cymunedol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

# Blaenoriaeth Gwella 8

## Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd

**Yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019 bu i'r Cyngor ystyried cynnig yn ymwneud â newid hinsawdd ac fe benderfynwyd y dylid gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod. Byddem yn gwneud hyn drwy:**

- **Ddatgan Argyfwng Hinsawdd**
- **Ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon**
- **Chwilio am ffyrdd arloesol o gyflawni targedau di-garbon**
- **Adrodd yn ôl ymhen 6 mis ar y camau cadarnhaol y mae'r Cyngor wedi eu cymryd i leihau allyriadau carbon; a**
- **Galw ar Lywodraethau Cymru a San Steffan i ddarparu'r pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r targed o Wynedd di-garbon erbyn 2030.**

**Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?**

### 1. Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd — Adran Amgylchedd

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i ddatgan argyfwng newid hinsawdd rydym wedi bod yn ceisio llunio Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd, ond yn anffodus bu i argyfwng Covid-19 dorri ar draws y gwaith hwnnw.

Mae bwriad sicrhau bod gennym ddogfen gychwynnol yn amlygu'r hyn y mae'r adrannau yn bwriadu ei gyflawni er mwyn i honno fod yn sail i weithdy aelodau i'w gynnal drwy ddulliau rhithwir yn gynnar yn ystod 2021, fel bod hynny yn ei dro yn arwain at fabwysiadu Cynllun Gweithredu cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

Unwaith y byddwn wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu byddwn yn ei gyhoeddi ac yn dechrau gweithredu ar y cynlluniau fydd ynddo.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

## Yn olaf...

Bydd y Gyllideb a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2021 yn gosod y sylfaen ar gyfer medru ceisio cyflawni'r Blaenoriaethau Gwella uchod, wrth geisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau.

Mae'r setliad grant yr ydym yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22 yn decach nag a fu mewn blynyddoedd cyn 2020/21, ac yn cyfarch y lefel chwyddiant sydd oddeutu £6m, ond nid yw'n cyfrannu at y cynnydd sylweddol mewn galw am wasanaethau sydd oddeutu £4m ychwanegol, yn bennaf ym maes gofal cymdeithasol.

Ar ôl gorfod darganfod dros £30m o arbedion ers 2015/16, yn dilyn blynyddoedd blaenorol lle nad oedd grant y Llywodraeth yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, eleni penderfynwyd gohirio neu ddileu gwerth £3m o arbedion hanesyddol nad oedd modd i'w gwireddu. Bydd hyn yn rhoi sail fwy cadarn i gyllideb y Cyngor. Yn gyffredinol, daw'r cyfraniad net £725k o arbedion tuag at fantoli cyllideb 2021/22 o gynlluniau effeithlonrwydd oedd eisoes wedi'u cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol.

Drwy gynaeafu arbedion hanesyddol a chynyddu 3.7% ar lefel y Dreth Cyngor erbyn 2021/22, gellid sefydlu cyllideb gytbwys a dygymod gyda'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor heb unrhyw doriadau newydd mewn gwasanaethau i drigolion Gwynedd. Unwaith eto, mae'r Cyngor yn amddiffyn gwasanaethau ac yn anelu i gyfarch y materion newydd hynny sy'n bwysig i bobl Gwynedd.

Wrth lunio Cyllideb y Cyngor erbyn 2021/22, rhoddir ystyriaeth briodol i'r Blaenoriaethau a nodir uchod yng Nghynllun y Cyngor.

Gellir gweld Cyllideb y Cyngor yn llawn ar safle we'r Cyngor drwy ddilyn y ddolen hon – Cyllideb y Cyngor 2021/22

# Cynlluniau Adran

Mae'r rhan gyntaf o'r Cynllun, y Blaenoriaethau Gwella, wedi canolbwyntio ar weledigaeth y Cyngor ynghyd â'n Blaenoriaethau Gwella ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun.

Mae'r rhan nesaf o'r Cynllun yn cynnwys Cynlluniau yr Adrannau o fewn y Cyngor. Maent yn cynnwys disgrifiadau o waith 'dydd i ddydd' yr adrannau, ac mae llawer ohono yn ddyletswydd statudol ac yn orfodol i ni ei wneud, megis diogelu plant ac oedolion neu ddarparu addysg.

Yn ychwanegol at y Blaenoriaethau Gwella a'r gwaith 'dydd i ddydd' yma mae Blaenoriaethau Lleol wedi eu hadnabod gan yr Aelodau Etholedig fel y materion sy'n bwysig i drigolion eu hardal hwy. Trafodwyd y rhain fel rhan o'r gwaith o baratoi Cynllun y Cyngor yn wreiddiol, ac mae unrhyw ddatblygiadau arnynt yn cael ei esbonio yn y cynlluniau adran sydd i ddilyn. Mae'r Blaenoriaethau Lleol wedi eu hamlygu o fewn ffrâm sydd â chefndir lliw iddi.

Ceir rhestr o'r holl Adrannau isod ynghyd â gwybodaeth am eu prif gyfrifoldebau. Mae'r wybodaeth ariannol am gyllidebau pob adran i'w cael gyda'i gilydd ar y diwedd.

Os ydych am gysylltu â'r Adrannau neu'r Pennaeth gallwch ffonio 01766 771000 neu ddilyn y dolenni isod i'n gwefan.


| | Adran | Pennaeth | Tudalen |
|---|---|---|---|
| 1. | **Adran Addysg** | **Garem Jackson**<br>Manylion Cyswllt | 39 |


- Cefnogi gweithrediad dydd i ddydd Ysgolion Gwynedd
- Cefnogi a sicrhau cynnal a gwella safonau addysg mewn cyfleusterau modern
- Darparu cefnogaeth a gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Arwain ar weithrediad y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd


| | Adran | Pennaeth | Tudalen |
|---|---|---|---|
| 2. | **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **Aled Davies**<br>Manylion Cyswllt | 45 |


- Galluogi Oedolion Gwynedd i "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw"
- Darparu gwasanaethau gofal trwy bartneriaethau a chydweithio
- Cynnig darpariaeth gofal cartref, gofal dydd a gofal preswyl


| | Adran | Pennaeth | Tudalen |
|---|---|---|---|
| 3. | **Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **Steffan Jones**<br>Manylion Cyswllt | 49 |


- Casglu ailgylchu, gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol trigolion Gwynedd
- Cynnal a chadw ffyrdd a strydoedd y sir
- Torri gwair a chynnal meysydd chwarae


| | Adran | Pennaeth | Tudalen |
|---|---|---|---|
| 4. | **Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** | **Marian Parry Hughes**<br>Manylion Cyswllt | 57 |


- Diogelu plant a phobl ifanc rhag niwed
- Gweithio i roi sefydlogrwydd i deuluoedd, plant a phobl ifanc
- Gwasanaethau Ieuenctid

## 5. Adran Amgylchedd

**Dafydd Wyn Williams** 63
Manylion Cyswllt

- Gwarchod cefn gwlad a'r mynediad iddo
- Archwiliadau hylendid a safonau bwyd; safonau masnach a thrwyddedu
- Rheolaeth traffig, parcio, cludiant cyhoeddus a datblygu cyfleoedd teithio llesol
- Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu
- Gwarchod y Cyhoedd

## 6. Adran Economi a Chymuned

**Sioned E Williams** 75
Manylion Cyswllt

- Datblygu economi Gwynedd trwy gefnogi busnesau, twristiaeth a marchnata ac adfywio cymunedol
- Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac Archifau

## 7. Adran Tai ac Eiddo

**Dafydd Gibbard** 83
Manylion Cyswllt

- Cefnogi teuluoedd digartref a chanfod llety dros dro a chartrefi fforddiadwy
- Sicrhau cartrefi safonol a diogel i denantiaid tai cymdeithasol a phreifat
- Dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd
- Cynnal, cadw a datblygu eiddo'r Cyngor, gan geisio lleihau ein allyriadau carbon.

## 8. Ymgynghoriaeth Gwynedd

**Huw Williams** 90
Manylion Cyswllt

- Gwasanaeth Ymgynghorol Masnachol yn darparu gwasanaeth cynllunio a rheoli prosiectau isadeiledd
- Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu
- Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol

## 9. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

**Geraint Owen** 93
Manylion Cyswllt

- Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd
- Gwasanaethau Adnoddau Dynol, Cofrestru, Cyfathrebu a datblygu staff
- Gwasanaethau Gweinyddol a Chefnogol y Cyngor

## 10. Adran Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)

**Dafydd L Edwards** 100
Manylion Cyswllt

- Cefnogaeth ariannol a chyfrifol i holl wasanaethau'r Cyngor
- Gweinyddu Treth Cyngor a Chronfa Bensiwn Gwynedd
- Cefnogi a datblygu darpariaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor

## 11. Gwasanaeth Cyfreithiol

**Iwan Evans** 107
Manylion Cyswllt

- Cefnogaeth gyfreithiol i holl wasanaethau'r Cyngor
- Gweinyddu Etholiadau Gwynedd
- Cefnogi gwasanaeth y Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru

# Adran Addysg

**Pwrpas yr Adran Addysg yw i sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn derbyn yr addysg a'r profiadau gorau yn ein hysgolion i'w galluogi i gyrraedd y safonau uchaf ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu.**

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth gwella canlynol:

- Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Strategaeth Dysgu Digidol – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Cydweithio Meirionnydd – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Darpariaeth Addysg Ôl-16 yn Arfon – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Dalgylch Bangor – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Dalgylch Cricieth – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Hybu Defnydd o'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc – (Blaenoriaeth Gwella 5)

## GWASANAETH YSGOLION

### Cefnogi Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Llywodraethiant Effeithiol Ysgolion

Cyfrifoldeb yr Adran Addysg yw hyrwyddo arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethiant effeithiol ein hysgolion drwy gefnogi, arfogi a dal cyrff llywodraethol a thimau rheoli ysgolion yn atebol. Gwneir hynny mewn nifer o ffyrdd gwahanol yn ddibynnol ar anghenion ysgolion unigol.

Rhoddir cefnogaeth o safbwynt arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion drwy gyfres o raglenni proffesiynol sy'n cynnig llwybr o ddatblygiad proffesiynol i athrawon, arweinwyr canol ac uwch arweinyddiaeth. Gwneir hyn hefyd drwy raglen gymhelliant a luniwyd ar y cyd rhwng yr Adran Addysg a Dysgu a Datblygu ar gyfer penaethiaid, timau rheoli a rheolwyr canol mewn ysgol. Yn ogystal mae'r Adran Addysg yn ceisio adnabod cyfleoedd i roi profiadau gwerthfawr i arweinwyr er mwyn adeiladu cyfundrefn wydn.

Rhoddir cefnogaeth gan yr Adran Addysg i lywodraethwyr drwy sicrhau eu bod yn deall eu rôl ac yn gweithredu'n effeithiol, drwy roi cefnogaeth strategol ac ymarferol iddynt yn ôl yr angen, eu cynghori'n briodol, yn ogystal â thrwy ddarparu rhaglen o hyfforddiant bwrpasol ar eu cyfer er sicrhau llywodraethiant effeithiol ein hysgolion. Mae gan yr Adran Addysg hefyd bwerau ymyrryd i'w defnyddio pan nad yw ysgol yn cael ei llywodraethu'n briodol.

## Gwasanaeth Gwella Ysgolion

Cyfrifoldeb yr Adran Addysg a GwE mewn partneriaeth gyda'n hysgolion yw addysgu ein plant, ac mae canlyniadau ein hysgolion yn gyson dda. Gwasanaeth gwella ysgolion yw GwE, sydd yn gweithio ar ran chwe Awdurdod Lleol y gogledd, i arwain, trefnu a chydlynu gwelliannau ym mherfformiad ysgolion.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr Adran Addysg a GwE yn rhoi cefnogaeth a her i'n hysgolion er mwyn gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu yn y dosbarth, i gefnogi arweinwyr i wella ansawdd yr arweinyddiaeth yn ein hysgolion – a hyn oll er mwyn gwella canlyniadau ymhellach ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc.

Yng Ngwynedd, mae 80 o ysgolion cynradd, 12 o ysgolion uwchradd, 2 ysgol arbennig a 2 ysgol ddilynol.

## Perfformiad

Mae'r ysgolion yn darparu addysg gynhwysol i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed. Yng Ngwynedd, caiff addysg ôl-16 ei darparu mewn partneriaeth gyda'r colegau a'r ysgolion uwchradd yn Arfon, gan Goleg Meirion-Dwyfor (Grŵp Llandrillo Menai) yn Nwyfor a Meirionnydd ac Ysgol Godre'r Berwyn yn ardal Y Bala.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd clir i Awdurdodau Lleol beidio a chyhoeddi canlyniadau addysgol, ac mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r modd y gellir dal Awdurdodau Addysg yn atebol am berfformiad heb ddata cymharol o berfformiad ar draws Cymru.

## Trawsnewid y gyfundrefn ysgolion

Yn dilyn ymgynghori ar gynaliadwyedd y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd, ynghyd â phryderon cyffredinol nad yw'r gyfundrefn ysgolion bresennol yn gynaliadwy, bu i Gabinet y Cyngor fabwysiadu'r egwyddorion addysg addas i bwrpas canlynol fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn i sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, sef:

- Cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw
- Dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd
- Oddeutu 80% o amser digyswllt i'r Pennaeth ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn y cynradd.

Yn sgil mabwysiadu'r egwyddorion, bydd y maes hwn yn trosglwyddo'n rhan o waith dydd i ddydd yr Adran gan y rhagwelir nad proses gyflym, yn ystod cyfnod y Cyngor hwn, fydd gweithredu'r egwyddorion ar draws y gyfundrefn. Byddwn yn symud ymlaen yn bwyllog i sicrhau fod y gyfundrefn addysg yn gallu ymateb i'r newidiadau enfawr sydd ar y gorwel, megis newidiadau i drefn arolygu ysgolion (Estyn), ynghyd â newidiadau sylweddol iawn i'r cwricwlwm a threfniadaeth ein hysgolion yn sgil argymhellion Yr Athro Donaldson.

## TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG

Mae rhai o adeiladau ein hysgolion yn hen ac yn anaddas i gyfarch anghenion dysgu ac addysgu ein plant yn y dyfodol. Pwrpas y gwasanaeth yma ydy cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion neu adeiladu ysgolion newydd er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posib i'w galluogi i ffynnu.

Dros y cyfnod 2012-2022 bydd y Cyngor wedi llwyddo i fuddsoddi gwerth £69 miliwn i wella cyflwr ac amgylchedd dysgu yr ysgolion canlynol er lles plant y sir:

- Ysgol yr Hendre, Caernarfon
- Ysgol OM Edwards, Llanuwchllyn
- Ysgol Craig y Deryn, Llanegryn
- Ysgol Penybryn, Tywyn
- Ysgol Bro Llifon, Groeslon
- Ysgol Hafod Lon, Penrhyndeudraeth
- Ysgol Glancegin, Maesgeirchen
- Ysgol Bro Idris, Dalgylch Dolgellau
- Ysgol Godre'r Berwyn, Y Bala
- Ysgol y Garnedd ac Ysgol y Faenol, Bangor
- Ysgol Treferthyr, Cricieth.

Mae'r Tîm Moderneiddio Addysg yn datblygu modelau darparu addysg hyfyw sy'n ceisio:

- sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant a staff ysgolion Gwynedd
- gwella amodau ac amgylchiadau i benaethiaid er mwyn eu galluogi i arwain a rheoli ysgolion yn effeithiol a effeithlon
- sicrhau'r defnydd gorau a mwyaf effeithiol o gyllideb yr Adran Addysg.




## GWASANAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi plant a phobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol – sy'n cynnwys meysydd anghenion dysgu penodol, cyfathrebu a rhyngweithio, nam golwg, nam clyw a meddygol/corfforol.

Mae'r gwasanaeth yn rhoi ymyrraeth gynnar a chymorth wedi ei deilwra ar gyfer pob disgybl unigol drwy dîm o athrawon a chymorthyddion arbenigol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cynhaliaeth i ysgolion trwy'r Gwasanaeth Seicoleg. Mae pob disgybl yn cael mynediad llawn i ysgolion Gwynedd gan sicrhau, felly, fod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial.

## GWASANAETH LLES A CHYNHWYSIAD

Mae'r gwasanaeth lles a chynhwysiad yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo presenoldeb, ymddygiad cadarnhaol a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu ddatblygiad cymdeithasol. Cyflwynir y gefnogaeth yma gan dîm o athrawon arbenigol, swyddogion lles, cwnselwyr ysgol a chymorthyddion arbenigol.

Rydym yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn ysgolion Gwynedd drwy hyfforddi, cefnogi ar lawr dosbarth a darparu gwasanaeth cynnal ymddygiad y tu allan i ysgolion prif lif. Mae'r gwasanaeth lles yn hyrwyddo presenoldeb drwy weithio gyda disgyblion, ysgolion a theuluoedd. Mae presenoldeb ysgolion Gwynedd dros y dair blynedd ddiwethaf cyn pandemig Covid-19 wedi bod yn gyson dda.

Er bod presenoldeb yn uchel a chyfraddau gwaharddiadau parhaol yn isel, mae'r her o gynnal a hyrwyddo lles a chynhwysiad yn dwysáu gyda nifer cynyddol o ddisgyblion yn arddangos ymddygiad heriol. Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod ein hysgolion wedi eu hyfforddi a'u cefnogi'n gywir i gwrdd â'r her. Yn sail i hyn oll, mae'r gwasanaeth yn darparu arweiniad arbenigol ym maes diogelu. Darperir hyfforddiant a chyngor arbenigol i ysgolion ar draws yr awdurdod.

## GAGENDOR LLES A CHYRHAEDDIAD

Mae pryder y gall dysgwyr gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu lles a'u cyrhaeddiad yn sgil effaith y cyfnod clo a phandemig Covid-19. Mewn ymateb i hynny, mae pob ysgol yn gweithredu Rhaglen Cyflymu'r Dysgu gydag arian gan Lywodraeth Cymru er mwyn ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr.

## YR IAITH GYMRAEG




Mae'r Gymraeg yn treiddio drwy holl waith a gwasanaethau'r Adran Addysg. Mae dogfen statudol 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' yn gosod disgwyliadau clir i'r Adran ac i'n hysgolion ar gyfer y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu. Yn ystod 2021-22, yn unol â'r rheoliadau newydd a gyhoeddwyd, byddwn yn llunio ac yn ymgynghori ar ddogfen newydd 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' fydd yn disodli'r ddogfen bresennol ym Medi 2022. Bydd y cynllun newydd yn para 10 mlynedd er mwyn cyd-fynd ac ategu targedau Llywodraeth Cymru yn Cymraeg 2050.

Mae Gwynedd wedi arwain ar waith arloesol i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg yn yr ysgolion cynradd drwy gyfrwng y Siarter Iaith Gymraeg. Pwrpas y Siarter yw cael y plant i siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth, gan sicrhau cyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol i wireddu'r nod.

Gwynedd yw'r unig sir ar draws Cymru sydd wedi llunio Strategaeth Iaith Uwchradd fel dilyniant i'r Siarter Iaith, ac roedd yr ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd yn awyddus i weld dilyniant sicr i'r Siarter Iaith. Un gwahaniaeth sylfaenol yng nghyd-destun y Strategaeth Iaith Uwchradd yw ei fod yn ymwneud â hyrwyddo defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg.

Mae'r Adran hefyd yn cynnal Canolfannau Iaith sy'n darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu helpu i ddysgu Cymraeg a chyfrannu i fywyd addysgol a chymdeithasol Gwynedd. Mae'r canolfannau yma yn helpu ein hysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith.

## CANOLFAN FUSNES YSGOLION

Ers peth amser, mae cynnydd wedi bod ym mhryderon penaethiaid ysgolion ynglŷn a'u hamodau gwaith wrth iddynt orfod cyflawni nifer o rolau gwahanol; fel arweinwyr, rheolwyr, athrawon a gweinyddwyr. Mae arolygiadau Estyn yn ddieithriad yn dangos mai arweinyddiaeth effeithiol, gyda'r adnoddau ac amser digonol ynghlwm wrthi, sydd yn arwain at addysg dda a safonau uchel.

Ers Medi 2019 sefydlwyd y Ganolfan Fusnes Ysgolion er mwyn datblygu'r gefnogaeth a'r gynhaliaeth i'n hysgolion, a rhesymoli a rhannu'r gofynion rheolaethol. Gwaith craidd y Ganolfan Fusnes Ysgolion yw darparu gwasanaeth rheoli gwybodaeth (SIMS) i'r ysgolion cynradd, a chanolbwyntir hefyd ar osgoi darparu cytundeb lefel gwasanaeth i'r ysgolion cynradd sydd yn sicrhau gwasanaethau megis cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd i ysgolion. Ceir ffocws hefyd ar leihau baich gwaith rheolaethol a gweinyddol penaethiaid ac athrawon.

## GWASANAETH ADNODDAU

Pwrpas y gwasanaeth yma ydy rhoi cefnogaeth statudol angenrheidiol i ysgolion Gwynedd allu gweithredu o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys mynediad i ysgolion, cyflogau a chontractau staff, glanhau, arlwyo a chynlluniau bwyta'n iach, a chludiant i ysgolion. Rhoddir hefyd gefnogaeth cyllidol, adnoddau dynol, iechyd a diogelwch a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ysgolion. Mae'r gwasanaeth hefyd yn rhoi cefnogaeth i Lywodraethwyr ysgolion.

Mae gwaith yr adran hon yn cyfrannu tuag at rai o Amcanion Llesiant Gwynedd, gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatau i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

# Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

**Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn darparu amryw o wasanaethau gofal cymdeithasol i drigolion 18 oed neu hŷn sydd angen cyngor, gwybodaeth, cymorth neu ofal oherwydd anghenion penodol. Pwrpas yr adran yw i alluogi oedolion Gwynedd i '*fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw*'**

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth canlynol:

- Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r Dyfodol – (Blaenoriaeth Gwella 6)
- Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal – (Blaenoriaeth Gwella 6)
- Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal – (Blaenoriaeth Gwella 6)

Wrth gwrs, mae argyfwng Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar holl wasanaethau'r adran. Er ein bod wedi llwyddo i gynnal y rhan helaethaf o'n gwasanaethau, mae hynny wedi bod ar ffurf rhywfaint yn wahanol gydag ambell wasanaeth. Bydd yr her o adfer rhai o'r gwasanaethau hyn yn ein wynebu yn ystod 2021/22, ac fe fydd angen pwyso a mesur ein opsiynau o ran adfer y gwasanaeth ar yr un wedd neu rhoi gwasanaeth newydd yn ei le.

## Gwasanaeth Pobl Hŷn, Anabledd Corff a Synhwyraidd

Pwrpas y gwasanaeth yma yw i helpu unigolion i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i geisio cyflawni eu hamcanion personol drwy ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r gwasanaeth yn asesu anghenion mewn dull sy'n adeiladu ar gryfderau unigolion. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn ffordd syml a hwylus o fewn cymunedau.




Er mwyn parhau i wella ein cynnig ddi-dor, byddwn yn adeiladu ar y berthynas waith rhyngom â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, asiantaethau statudol a'r trydydd sector, a hynny er mwyn cyfarch amcanion personol oedolion.

## Gwasanaeth Iechyd Meddwl

Pwrpas y gwasanaeth yma yw i gynnig cefnogaeth i unigolion dros ddeunaw sy'n profi anawsterau iechyd meddwl gan roi cymorth iddynt i fyw bywyd llawn ac i gefnogi adfywiad.

Rydym yn gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd i gefnogi unigolion ag anawsterau iechyd meddwl o fewn y gwasanaethau cynradd ac yn cefnogi unigolion efo anghenion mwy dwys neu gymhleth, er mwyn hyrwyddo adferiad a'u cefnogi i fyw yn annibynnol. Rydym hefyd yn cynnig asesiad a chefnogaeth i ofalwyr iechyd meddwl.

## Gwasanaeth Anableddau Dysgu



Pwrpas y gwasanaeth yw i gyfarch anghenion llesiant corfforol, emosiynol, meddyliol a chymdeithasol unigolion ag anabledd dysgu.

Rydym yn darparu cefnogaeth drwy ganolbwyntio ar lesiant yr unigolyn. Er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn llawn i anghenion unigolion, bydd ystod eang o'n gwasanaethau'n aml yn cael eu cynnig mewn partneriaeth.

Rydym eisiau canolbwyntio ar ddarpariaeth sy'n cynnig cyfleoedd i gymdeithasu a chynnal perthnasoedd. Mae ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol drwy'r hybiau lleol a chynlluniau llesiant lleol.



## Gwasanaeth Llesiant

Prif bwrpas y gwasanaeth yw i wella ansawdd bywyd drwy gysylltu pobl, ond mae'r tîm hefyd yn rhoi ffocws ar gefnogi gofalwyr (di-dâl).

Rydym yn gwneud hyn drwy gynlluniau sydd â'r elfennau canlynol yn ganolog iddynt:

- pwyslais ar fod yn gymdeithasol a chymunedol (lleihau unigrwydd)
- hybu iechyd a lles positif
- hyrwyddo cydweithio gyda phobl a rhwng pobl
- cryfhau a datblygu gwasanaethau yn seiliedig ar beth sy'n bwysig i bobl Gwynedd.

Mae cefnogi gofalwyr yn ganolog i'n gwaith a cheisir gwneud hynny trwy gynnig cyfleoedd newydd ac mae amryw o gynlluniau wedi eu datblygu. Wrth gwrs, rydym wedi gweld mwy o bwysau ar ofalwyr di-dâl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a byddwn yn mynd ati i adolygu trefniadau rhithiol a roddwyd yn eu lle yn sgil argyfwng Covid-19 er mwyn ystyried a oes modd dysgu gwersi ar sut i gefnogi gofalwyr yn well i'r dyfodol.

Mae'r rhan helaeth o waith y gwasanaeth yma'n derbyn sylw o fewn y flaenoriaeth 'Cynllun Llesiant Pobl' sy'n cael ei arwain gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

## Gwasanaeth Darparu



Rydym yn darparu gofal preswyl, gofal cymunedol a gofal dydd ar gyfer oedolion ag anghenion dwys a chymhleth.

Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am y meysydd isod:

- darpariaeth Gofal Preswyl a Gofal Preswyl Dementia
- darpariaeth Gofal Cartref
- darpariaeth Gofal Dydd.

Mae llawer o waith y gwasanaeth yn derbyn sylw o fewn y prosiectau blaenoriaeth y mae'r adran yn arwain arnynt.

Roedd ardal Dolgellau wedi'i adnabod fel blaenoriaeth i ddatblygu darpariaeth gofal pwrpasol, ac mae'r ymdrech i adnabod safleoedd ar gyfer datblygiad yn yr ardal yma'n parhau. Rydym hefyd yn edrych ar ardaloedd eraill ym Meirionnydd yn ehangach.

Roedd galw hefyd am unedau pwrpasol i drigolion Llŷn, ac mae'r gwaith o adeiladu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli wedi cychwyn mewn partneriaeth â chymdeithas dai **Adra**. Disgwylir i'r cynllun 28 fflat gael ei gwblhau yn ystod 2022.

Mae'r flaenoriaeth yma yn derbyn sylw o fewn y prosiect flaenoriaeth 'Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r Dyfodol.'

Mae argyfwng Covid-19 wedi creu heriau newydd a gwahanol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn benodol, ac wrth i ni ystyried datblygiad pellach y gwasanaeth fe fydd yn hanfodol ein bod yn sicrhau ein bod yn dysgu'r gwersi sy'n deillio o'r heriau hynny.



## Gwasanaethau Diogelu a Diogelwch Cymunedol

Pwrpas y **Gwasanaeth Diogelu** yw diogelu unigolion sydd ag anghenion cefnogaeth ac sydd mewn perygl neu'n dioddef camdriniaeth, a sicrhau ansawdd gwasanaethau'r adran drwy fonitro a chynnal archwiliadau i brofiadau unigolion.

Rydym yn arwain ar achosion o bryderon cynyddol, trefniadau o Ddiogelu Rhag Colli Rhyddid (trefn sy'n cefnogi ac amddiffyn pobl sy'n methu a gwneud penderfyniadau eu hunain na rhoi caniatâd am eu gofal) ac yn ymateb i gwynion a phryderon yn amserol.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am arwain gwaith partneriaeth **Diogelwch Cymunedol**, sy'n bartneriaeth statudol. Rydym yn gweithio dros ddwy sir, sef Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.




Byddwn yn arwain ar y gwaith ar ran yr holl aelodau cyfrifol, sef y ddau Gyngor, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, y Gwasanaeth Prawf a'r Bwrdd Iechyd i daclo a lleihau trosedd ac anhrefn er budd diogelwch a lles pobl y ddwy sir. Byddwn rŵan yn gweithio ar gynllun y bartneriaeth ar gyfer 2021/22 er mwyn ymateb i flaenoriaethau trosedd ac anrhefn a adnabuwyd yn y ddwy sir.



## Gwasanaeth Busnes

Rydym yn darparu cefnogaeth i dimau rheng-flaen yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, a hynny er mwyn eu galluogi i gyflawni eu pwrpas er lles trigolion Gwynedd. Rydym yn gyfrifol am:

- Teleofal
- Datblygu'r Gweithlu
- Cyllid Cleientiaid
- Uned Incwm a Lles
- Contractio a Chomisiynu
- Gwasanaeth Gweinyddol
- Uned Cefnogi Systemau

Mae gwaith yr adran hon yn cyfrannu tuag at rai o Amcanion Llesiant Gwynedd, gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
Byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

# Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

**Mae'r adran hon yn darparu gwasanaethau rheng flaen sy'n bwysig i drigolion Gwynedd, megis casglu gwastraff, gwasanaethau profedigaeth a chynnal a chadw ffyrdd, cynnal fflyd, caeau chwarae a thiroedd gwyrdd. Mae gofalu am amgylchedd arbennig y sir yn ganolog i waith yr adran, ac mae'n cyfrannu at Gynllun Gweithredu Newid Hinsawdd y Cyngor. Mae'r Adran yn ogystal wedi llwyddo cyrraedd Achrediad Bsi 45001 (Iechyd a Diogelwch): 14001 (Amgylcheddol) a 9001 (Rheolaeth Ansawdd)**

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth ganlynol:

- Cymunedau Glân a Thaclus – (Blaenoriaeth Gwella 7)
- Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu - (Blaenoriaeth Gwella 7)

## Gwastraff ac Ailgylchu




Mae'r adran yn gyfrifol am dros filiwn o gasgliadau gwastraff o fewn cyfnod o 3 mis. Mae rhai o'r casgliadau yma'n cael eu methu, ac er bod y ffigwr yn isel (llai na 1%) rydym yn cydnabod bod y methiant yn bwysig i'r trigolyn. Mae'r adran bellach yn casglu gwybodaeth er mwyn dod i ddeall pam fod hyn yn digwydd ac i'w galluogi i ymateb i unrhyw broblemau perthnasol.

Rydym yn y broses o gyflwyno trefniadau casglu newydd a fydd yn lleihau'r nifer o gasgliadau sy'n cael eu methu ac yn gwella profiadau pobl Gwynedd o'r gwasanaeth gan sicrhau y bydd yr un criw ar yr un gylchdaith bob tro.

Mae'r newidiadau i drefniadau casglu gwastraff pob tair wythnos, a chasglu gwastraff bwyd a deunyddiau ailgylchu yn wythnosol, wedi arwain at gynnydd mewn ailgylchu, a bu i'r Cyngor gyrraedd targed statudol Llywodraeth Cymru o 64% o wastraff y sir yn cael ei ailgylchu erbyn diwedd Mawrth 2019/20 gyda perfformiad Gwynedd yn 64.74%. Bydd y targed yn codi i **70% erbyn Mawrth, 2025**.

Mae'n hanfodol ymdrin â **gwastraff** mewn modd cywir os am amddiffyn ein hamgylchedd ac osgoi creu problemau i'n plant a phlant ein plant. Mae Cyngor Gwynedd yn falch ein bod yn ymdrin â'n gwastraff mewn dull cyfrifol, a'n bod yn uchafu bod mor ecogyfeillgar â phosib yn y broses hon.



Mae claddu gwastraff yn y ddaear yn achosi llygredd i'r tir, dŵr a'r awyr. O 2020/21 ymlaen bydd Cyngor Gwynedd yn anfon prin dim i dirlenwi gan ein bod yn trin ein gwastraff gweddilliol yn y safle gwastraff i drydan, Parc Adfer. Mae'r hen safleoedd tirlenwi o fewn y sir, sydd bellach wedi cau, hefyd yn cynhyrchu trydan gwyrdd.


Rydym hefyd yn gyfrifol am y drefn o gasglu gwastraff gardd drwy'r sir gan ei droi yn gompost/gwrtaith. Mae'r Adran yn cynnig y compost er defnydd trigolion Gwynedd ar adegau penodol yn y flwyddyn.

## GwyriAD

GwyriAD yw ein safle trin bwyd sydd wedi ei leoli o fewn y sir, ac yn trin yr holl fwyd a gesglir gan drigolion a busnesau Gwynedd. Mae'r safle yn gallu ymdrin ag 11,000 tunnell o wastraff bwyd gan ei droi yn ynni gwyrdd sy'n cael ei gyflenwi i'r grid cenedlaethol. Mae hyn yn ddigon i gynhyrchu trydan i 850 o dai.

Mae capasiti o fewn y safle i gynyddu'r tunnelli o fwyd yr ydym yn ei gasglu er mwyn atal unrhyw wastraff rhag cyrraedd y bin gwastraff gweddilliol, a byddwn yn gweithio tuag at y nod hwnnw yn ystod 2020/21. Casglwyd 9200 tunnell o wastraff bwyd yn 2019/2020.

## Gwasanaethau Gwastraff Masnachol




Rydym yn darparu casgliadau gwastraff ac ailgylchu masnachol i dros 2,000 o fusnesau'r sir. Ers peth amser, rydym wedi cyflwyno casgliadau ailgylchu a bwyd fel rhan o'r pecyn sydd ar gael i'r busnesau i sicrhau bod y cwmniau'n dargyfeirio eu gwastraff o'r bin gweddilliol a manteisio ar y drefn ailgylchu. Mae hyn yn cyfrannu at berfformiad ailgylchu'r cyngor wrth adrodd yn erbyn ein targedau statudol ac mae'r perfformiad wedi codi'n sylweddol ers 2014. Gyda thargedau statudol yn codi mae peth gwaith i'w wneud er mwyn gwella ymhellach a bydd gofyniad i wahanu deunydd ailgylchu, sydd ar hyn o bryd yn cael eu casglu mewn un bin cymysg gennym, yn dod i rym. Bydd y drefn newydd yn sicrhau fod y gwastraff yn cael ei drin yn gywir er budd yr amgylchedd.


Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:

- cwblhau'r newid i drefniadau casglu Gwynedd er mwyn gwella'r profiad a'r gwasanaeth i drigolion y Sir, gan leihau'r nifer o gasgliadau sy'n cael eu methu
- datblygu strategaeth wastraff newydd i'r sir

- ystyried dulliau arloesol i annog ailddefnyddio a chynyddu ailgylchu er mwyn sicrhau y gallwn gyrraedd y targed statudol newydd o 70% o wastraff yn cael ei ailgylchu erbyn 2025
- cynyddu ein casgliadau bwyd domestig a masnachol er mwyn ei drin yn GwyriAD a lleihau faint o'r deunydd yma sy'n cyrraedd y bin gweddilliol
- ceisio cyrraedd y nod o anfon dim gwastraff i'w dirlenwi
- hyrwyddo'r economi gylchog yng Ngwynedd (sef economi sy'n hybu ailddefnyddio ac ailgylchu gan leihau gwastraff)
- edrych i gynyddu ein darpariaeth masnachol er mwyn dod a ffrwd incwm i'r Cyngor a sicrhau fod gwastraff y sir yn cael ei ymdrin ag o mewn ffordd gyfrifol ac eco-gyfeillgar
- cynnig casgliadau ailgylchu wedi eu gwahanu i gwsmeriaid masnachol.

## Edrychiad Strydoedd a Thiroedd Cyhoeddus

O ran yr amgylchedd lleol, mae'n hynod bwysig bod ein strydoedd yn lân a diogel ac felly mae'n rhaid eu glanhau'n rheolaidd. Mae edrychiad strydoedd a mannau cyhoeddus yn bwysig i drigolion Gwynedd ac mae tîm bychan o swyddogion yn gyfrifol am ymdrin â throseddau amgylcheddol fel tipio slei bach, graffiti a baw cŵn. Rydym, ar gyfartaledd, yn cymryd 1.76 diwrnod i glirio eitemau sydd wedi eu tipio'n anghyfreithlon ar ôl cael gwybod amdanynt. Rydym yn defnyddio mesur o'r enw 'Mynegai Glendid' (cyfuniad o asesiad mewnol ac allanol) er mwyn asesu safon glendid ac edrychiad strydoedd.




Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnal arolwg i sefydlu faint o 'ddiffygion' fel sbwriel, chwyn, baw cŵn, gwm cnoi a stympiau sigarets sydd ar unrhyw stryd. Yn ôl yr arolwg annibynnol, mae safon glendid ac edrychiad strydoedd Gwynedd yn parhau i fod yn dda ac mae'n debyg bod newid ymddygiad er gwell yn ddiweddar i atal llanast. Yn ddiweddar, cynhaliodd Cadwch Gymru'n Daclus arolwg glanweithdra ar gyfer 2019-20. Mae'r sgor wedi'i gofnodi ar y chwith.

Rydym hefyd yn parhau i gydweithio ar *brosiect Delwedd Bangor,* sydd â'r nod o wella edrychiad ac amgylchedd y ddinas. Mae Delwedd Bangor yn bartneriaeth gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Dinas, Ardal Gwella Busnes Bangor, Prifysgol Bangor a sawl mudiad arall, ac yn dempled o sut gellir gweithredu mewn partneriaeth i wella edrychiad cymuned.

Ers sefydlu'r bartneriaeth rydym wedi cyflawni:

- Gwneud ffwrdd ag arwyddion tai ar osod
- Cefnogi ymgyrch *Bangor di-blastig*
- Gwella edrychiad y Stryd Fawr
- Treialu hysbysu ar gylchfannau

Rydym yn awyddus i sefydlu partneriaethau tebyg ledled y sir, er mwyn cydweithio â chymunedau i wella edrychaid ac amgylchedd eu bro.

## Cynnal Tiroedd




Mae'r Adran yn gyfrifol am gynnal ymylon ffyrdd a thiroedd agored er mwyn gwella ansawdd amgylchedd ein trefi a'n pentrefi a'u gwneud yn fwy diogel i drigolion. Mae cynilo ariannol wedi arwain at doriadau gwair llai rheolaidd erbyn hyn, ond rydym yn awyddus i fanteisio ar y cyfle i hybu bioamrywiaeth, tra hefyd yn sicrhau fod ein cyffyrdd a'n mannau cyhoeddus yn aros yn ddiogel a deniadol.

## Caeau Chwarae Plant

Mae plant, rhieni a gofalwyr plant yn gwerthfawrogi meysydd chwarae ac rydym yn cynnal 131 ohonynt ledled y sir. Mae offer chwarae yn ddrud iawn ac mae'r arian ar gyfer cael offer newydd yn hynod brin.



**Byddwn yn ceisio cynnal meysydd chwarae fel eu bod yn ddiogel i blant a phobl ifanc gael eu mwynhau.**



Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:

- addasu ein patrymau torri gwair er mwyn hybu bioamrywiaeth
- ymchwilio i ddulliau eco-gyfeillgar o ymdrin â chwyn, gan geisio osgoi defnyddio chwynladdwr niweidiol lle bynnag y bo'n bosib
- ehangu ar ddatblygu partneriaethau cymunedol i wella ansawdd ac edrychiad y sir
- edrych ar ddulliau amgen o gynnal a chadw meysydd chwarae, drwy gydweithio â chymunedau.

## Gwasanaeth Profedigaeth




Rydym yn rheoli Amlosgfa Bangor ac 16 o fynwentydd prysuraf a mwyaf y sir.

Mae'r gwasanaeth profedigaeth yn un hollbwysig i drigolion a byddwn yn sicrhau gwasanaeth sy'n briodol a pharchus.

## Toiledau Cyhoeddus



Mae'r Adran yn gyfrifol am gynnal a glanhau **toiledau cyhoeddus** y sir. Nid oes rhaid i'r Cyngor ddarparu toiledau cyhoeddus, ac fe ddaeth cynllun i gau nifer o doiledau'r sir yn dilyn ymgynghoriad 'Her Gwynedd'. Serch hynny, creda'r adran fod darpariaeth o doiledau cyhoeddus addas yn bwysig i brofiad unigolion o'r sir, ac fe ddatblygwyd dulliau amgen o gadw cymaint o doiledau a phosib ar agor – drwy bartneriaethu â chynghorau cymuned neu drwy gefnogi toiledau cymunedol o fewn busnesau Gwynedd.




Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi partneriaethu gyda'r Cyngor i gynnal darpariaeth amgen. Drwy weithio ar y cyd, rydym ymhlith y siroedd sydd â'r ddarpariaethau uchaf o doiledau cyhoeddus yng Nghymru.

## Teledu Cylch Cyfyng



Er mwyn diogelu a gwarchod y gymuned rydym yn gofalu am rwydwaith o gamerâu Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) ym mannau poblog y sir sef Bangor, Caernarfon a Phwllheli. Mae'r systemau yn cynorthwyo i fonitro digwyddiadau troseddol a gwrthgymdeithasol.

Mae'r Adran wedi gwella'r rhwydwaith o gamerâu teledu cylch cyfyng ar draws Gwynedd er mwyn parhau gyda'r gwaith o ddiogelu trigolion ac eiddo'r sir.

Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:

- cynnig ehangu'r rhwydwaith drwy gydweithio â chymunedau.

## Gwasanaeth Fflyd

Mae'r Adran yn gyfrifol am reoli a chynnal holl fflyd y cyngor. Mae'r Gwasanaeth Fflyd yn arwain a rhoi cymorth i adrannau'r cyngor er mwyn sicrhau defnydd priodol, diogel a chyfreithlon o'u cerbydau.

Yn ogystal, mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am gynnal a chadw dros 400 o gerbydau i safon uchel ac fe wneir hyn dros dri lleoliad gwahanol ar draws Gwynedd gyda gweithdai yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau.

Mae'r adran wedi bod yn ceisio lleihau allyriadau carbon y fflyd drwy fuddsoddi mewn cerbydau effeithlon, gan gynnwys cerbydau trydan. Mae allyriadau'r fflyd wedi gostwng 19.8% rhwng 2005/06 a 2018.

Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:


- blaenoriaethu'r gwaith o ddad-garboneiddio'r fflyd
- ymchwilio i'r potensial o ddefnyddio hydrogen fel tanwydd di-garbon i redeg ein fflyd drom
- sefydlu system pŵl cerbydau ar gyfer y Cyngor, gan edrych hefyd ar gynnig defnydd cymunedol.

## Priffyrdd a Goleuo Stryd




Mae'n bwysig bod busnesau a thrigolion Gwynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y sir ac er mwyn sicrhau hyn mae'r Cyngor yn cynnal 2,697 cilomedr o **ffyrdd sirol** ynghyd â 199 cilomedr o **gefnffyrdd** (sef priffyrdd o bwysigrwydd cenedlaethol, ar ran Llywodraeth Cymru). Ar hyn o bryd mae ein priffyrdd yng Ngwynedd, sef ffyrdd Dosbarth A a B, mewn cyflwr da gyda llai na 4% ohonynt yn ddiffygiol ac angen sylw.

Gyda lleihad yn y gyllideb berthnasol, parhau mae'r dirywiad yng nghyflwr ein ffyrdd Dosbarth C a di-ddosbarth. Oherwydd y pwysau ariannol ar y Cyngor mae'n anorfod y bydd pwysau pellach ar y gyllideb cynnal ffyrdd, a bydd yn her i ni atal dirywiad yn safon ein ffyrdd, yn enwedig y ffyrdd o lai o flaenoriaeth sef Dosbarth C a di-ddosbarth.




Mae Côd Ymarfer cenedlaethol newydd mewn grym erbyn hyn sydd yn rhoi pwyslais ar reoli risg. Mae'r gwasanaeth yn y broses o gyflwyno newidiadau i'r Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd er cysoni a diwygio i sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r côd newydd.

Rydym yn ceisio atal dirywiad sydyn yn safon ein ffyrdd. Drwy wneud hyn byddwn yn adlewyrchu ar yr hyn sydd o fewn y côd ymarfer newydd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn treialu defnydd o ddeunyddiau newydd neu ail-ddefnyddio deunyddiau er mwyn llenwi tyllau. Bydd hyn yn ein cynorthwyo drwy leihau ar waredu gwastraff ac yn cyfrannu at ein gwaith o leihau ein ôl troed carbon.




## Cytundeb Cynnal Priffyrdd Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am arwain partneriaeth o saith cyngor yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru er mwyn rheoli a chynnal 1,100km o gefnffyrdd (priffyrdd cenedlaethol pwysig Llywodraeth Cymru).

Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
North & Mid Wales Trunk Road Agent

Ein Gwasanaeth Priffyrdd sydd yn gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw ynghyd â delio â damweiniau a digwyddiadau sy'n deillio o dywydd garw a thu allan i oriau gwaith arferol.




## Cynnal a Chadw Pontydd a Strwythurau

Rydym yn cynnal a chadw 631 pont drwy'r sir. Mae 338 pont bwa a 96 pont wedi eu rhestru sydd â gofynion ychwanegol. Yn ogystal, mae gennym 1,618 o waliau cynnal drwy'r sir sydd hefyd yn cael eu cynnal a'u cadw gan yr adran.

## Goleuo Stryd

Rydym yn cynnal 18,705 o **oleuadau stryd** a 6,067 o **arwyddion** wedi eu goleuo er mwyn gwneud ein ffyrdd a'n strydoedd yn fwy diogel. Mae goleuadau yn defnyddio ynni trydan sydd ag effaith andwyol ar yr amgylchedd o safbwynt allyriadau carbon a llygredd golau.

Dros y 3 mlynedd ddiwethaf rydym wedi bod yn newid ein goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED (light emitting diode) gyda'r mwyafrif yn pylu neu ddiffodd pan fo'n briodol. Mae hyn i bwrpas lleihau costau ynni, lleihau allyriadau carbon ac atal llygredd golau heddiw ac i'r dyfodol. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cynorthwyo lleihau carbon wrth flaenoriaethu'r gwaith yma.




Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:

- cyflwyno Cynllun Cynnal Asedau newydd sydd yn blaenoriaethu ar sail risg
- treialu dulliau eco-gyfeillgar newydd o drin ein ffyrdd gan annog ail-ddefnyddio deunyddiau crai
- cyflwyno trefn electroneg symudol er mwyn i'n gweithwyr dderbyn a chofnodi gwaith. Bydd hyn yn galluogi i ni gyflawni'r gwaith yn fwy effeithlon.
- cwblhau'r gwaith o newid holl oleuadau stryd y sir i LED, sydd wedi sicrhau lleihad o bron i 12,000 tunnell o garbon hyd yma.

Mae gwaith yr adran hon yn cyfrannu tuag at rai o Amcanion Llesiant Gwynedd, gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.

# Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

**Ein pwrpas yw sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu rhag niwed; yn profi sefydlogrwydd yn eu bywyd ac yn cael y cyfleoedd gorau o ran eu hiechyd a'u lles.**

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth gwella canlynol:

- Cefnogi Llesiant Pobl - (Blaenoriaeth Gwella 3)
- Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd - (Blaenoriaeth Gwella 6)
- Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth - (Blaenoriaeth Gwella 6)
- Sicrhau fod teuluoedd a phlant ag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu - (Blaenoriaeth Gwella 6)

Mae sawl tîm o fewn ein gwasanaeth ac rydym yn gweithio o fewn 3 haen o angen:

1. **Ymyrraeth Gynnar**
2. **Anghenion gofal a chefnogaeth, diogelu a gofal**
3. **Timau Arbenigol**

Yng Ngwynedd rydym yn credu y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. Rydym yn cydnabod bod plant yn datblygu orau pan maent yn cael eu cefnogi i dyfu a llwyddo o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau. Rydym hefyd yn cydnabod bod cynnig ymyrraeth yn gynnar yn hanfodol er mwyn helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys.

Mae hyrwyddo llesiant a cefnogi trigolion i ffynnu yn mynd y tu hwnt i wasanaethau adrannau unigol, ac oherwydd hynny rydym am wneud gwaith pellach ar draws holl wasanaethau ataliol y Cyngor er mwyn gwella ein gallu i ymateb i anghenion trigolion Gwynedd, mewn dull cydlynus, integredig ac effeithlon.

## Ymyrraeth Gynnar

Mae cynnig ymyrraeth yn gynnar yn hanfodol er mwyn helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys. Mae gennym nifer o wasanaethau sy'n ymyrryd yn gynnar boed hynny yn gynnar ym mywyd plentyn er mwyn iddynt gael y gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu; neu'n

gynnar pan fo her neu bryder yn amlygu gyntaf cyn i bethau waethygu; a byddwn yn gwneud hynny drwy weithio gyda'r teulu cyfan.

### Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar

Ein pwrpas yw gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant o dan 4 oed drwy gefnogi darpariaethau addysg feithrin, datblygu'r sector gofal plant a chwarae, a darparu pecynnau rhiantu i helpu teuluoedd i fagu plant iach, hapus a diogel.

Rydym hefyd yn darparu pecynnau o gefnogaeth fwy dwys mewn ardaloedd penodol o Wynedd drwy'r rhaglen **Dechrau'n Deg**. Mae'r rhaglen yn cefnogi teuluoedd gyda magu plant a rhiantu, datblygiad iaith a lleferydd plant, a chefnogaeth iechyd a gofal, a hynny mewn timau aml-asiantaethol o fyd addysg, gofal a iechyd.




### Tîm o Amgylch y Teulu

Ein pwrpas yw ymyrryd yn gynnar pan fo problemau o fewn teuluoedd yn dod i'r amlwg, ond mae hyn yn digwydd yn wirfoddol gyda chaniatâd y teulu. Byddwn yn helpu drwy ymateb i anghenion a darparu gwasanaethau priodol.

Rydym wedi derbyn 282 o gyfeiriadau i'r Tîm o Amgylch y Teulu yn ystod 2019/20.

### Gwasanaeth Ieuenctid

Mae cael y cyfle i gymdeithasu, i gymryd rhan mewn gweithgareddau a pharhau i ddysgu a datblygu sgiliau newydd y tu allan i'r ysgol yn bwysig i bobl ifanc y sir. Mae cefnogi pobl ifanc i adeiladu gwydnwch i ddelio gydag unrhyw heriau all eu wynebu yn y dyfodol yn bwysig iawn i'r Gwasanaeth Ieuenctid. Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym eu bod eisiau ein cefnogaeth ni i'w helpu i edrych ar ôl eu hiechyd a lles, i'w helpu i ddatblygu a dysgu sgiliau, ac i'w helpu i fod yn rhan o'u cymunedau.


## Anghenion gofal a chefnogaeth, diogelu a gofal

Mae'r mwyafrif o blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn byw bywydau hapus, diogel ac yn mwynhau cyfleoedd i ddysgu ac i chwarae. Fodd bynnag, mae rhai plant a'u teuluoedd angen cyngor a chymorth mwy ffurfiol ar adegau.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am arwain, ymchwilio a rheoli ymyrraethau diogelu plant y sir. Rydym yn gweithio'n agos gydag ysgolion, yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd, meddygon, ac ymwelwyr iechyd ayyb i gyflawni'r cyfrifoldeb statudol yma. Mae'r cyfrifoldeb i ddiogelu yn un o gyfrifoldebau pwysicaf y Cyngor.

Mae'r **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth** yn cynnal safonau uchel wrth ymateb yn amserol i gyfeiriadau all fod yn rhai diogelu, ac i gyfeiriadau am ofal a chefnogaeth. Er mwyn diogelu plant a phobl ifanc rydym yn ymateb heb oedi i gyfeiriadau. Pan fo'r cyfeiriadau hynny yn cynnwys pryderon am honiadau o gamdriniaeth, rydym angen ymchwilio i'r honiadau yn unol â'r Canllawiau Amddiffyn Plant. Byddwn yn gwneud penderfyniad ar bob achos o fewn pedair awr ar hugain er mwyn penderfynu ar y ffordd orau i ymateb.

Mae'r **Timau Gwaith Cymdeithasol** yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth ddwys i blant a'u teuluoedd. Mae gweithwyr cymdeithasol yn gweld plant a'u teuluoedd yn rheolaidd ac yn cadw cysylltiad da gyda hwy gan fod yn effro i faterion o risg i blant a phobl ifanc. Rydym yn sicrhau fod adnoddau ar gael i'w cefnogi a bod eu hanghenion yn glir i ni. Mae cynlluniau yn eu lle wedyn ar gyfer ymateb i'w anghenion. Ar adegau, rydym yn cyfeirio ymlaen i dimau sydd yn cynnig ymyrraeth fwy arbenigol, fel y gwasanaethau yn y Tîm Trobwynt.





Rydym yn cynnal ymchwiliadau amddiffyn plant, ac weithiau mae rhai teuluoedd angen cefnogaeth ddwys iawn ac mae angen i ni ddod â phlant sydd mewn perygl i ofal y Cyngor.

Mae plant yn dod i'n gofal fel arfer o dan amgylchiadau anodd iawn, ac rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun.

Mae lleihad yng nghydymffurfiad cynnal cynadleddau ar amser yn 2019/20 yn bennaf ddeillio o oediadau oherwydd achosion llys a salwch staff. Er yr oediadau, mae cynadleddau yn cymryd lle ac unrhyw drefniadau amddiffyn plant sydd angen bod yn eu lle yn parhau i ddiogelu plant rhag niwed.


I sicrhau fod plant a phobl ifanc yn profi sefydlogrwydd rydym yn cefnogi plant i fyw gartref gyda chefnogaeth lle bo hynny'n bosibl. Rhoddir pwyslais hefyd ar geisio lleoli plentyn gydag aelodau o'i deulu estynedig neu ffrindiau'r teulu. Lle nad yw hynny'n bosibl, lleolir y plentyn gyda gofalwyr maeth cofrestredig, neu ar adegau bydd rhai plant a phobl ifanc angen unedau preswyl arbenigol i gwrdd ag anghenion penodol.




Rôl y **Tîm Maethu** yw sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw gartref.

Rydym yn asesu a chefnogi gofalwyr maeth er mwyn iddynt allu cynnig y gefnogaeth angenrheidiol i blant sy'n dod i'n gofal, ac mae hyn yn flaenoriaeth uchel i'r Adran. Rydym yn ymwybodol bod plant sydd mewn sefyllfaoedd sefydlog yn cael y cyfle gorau i brofi'r ffiniau hynny sydd yn allweddol i ddatblygiad da. Mae hyn yn gosod y sylfaen ar gyfer cyflawni'r canlyniadau gorau iddynt.

Tra bo plentyn yng ngofal y Cyngor, ein cyfrifoldeb yw darparu cynllun gofal clir ar ei gyfer sydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod y penderfyniadau iawn yn cael eu gwneud er lles y plentyn ac nad oes unrhyw oediad yn ei gynllun.




Mae'r **Tîm Ôl-16** yn cefnogi pobl ifanc sydd un ai angen eu diogelu neu angen gofal a chefnogaeth, ac mae'n cynnwys pobl ifanc sydd wedi gadael gofal hyd at 25 oed. Mae'r gweithwyr yn gweld y bobl ifanc yn rheolaidd ac yn annog iddynt gadw cysylltiad da gyda'u teuluoedd ac yn datblygu eu sgiliau i fyw yn annibynnol. Mae'r Cynllun "Pan Fydda i'n Barod" yn cynnig opsiwn i bobl ifanc nad ydynt yn barod i symud o'u lleoliad maeth ar eu pen-blwydd yn 18 oed i aros hyd nes eu bod nhw'n barod i wneud hynny.

## Y Timau Arbenigol

Pwrpas **Gwasanaethau Trobwynt** yw lleihau anghenion drwy gynnig ystod o ymyraethau a chefnogaeth ddwys i blant sydd ar fin dod i ofal, sydd newydd ddod i ofal, neu i ddychwelyd plant adref o ofal yn ddiogel. Wrth gydweithio'n agos a chyd-gynhyrchu cynlluniau gofal gyda'r plant a'u teuluoedd mae anghenion iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol plant a'u teuluoedd yn cael eu diwallu.




Mae anghenion y teuluoedd y bu i ni eu cefnogi yn ystod 2019/20 wedi bod yn fwy cymhleth a dwys; yn arbennig felly y nifer o bobl ifanc yn eu harddegau a oedd yn derbyn cefnogaeth.

Fel rhan o'r ymyraethau hyn mae'r **Tîm Trobwynt** yn cynnig pecynnau cefnogi dwys gyda'r nod o gadw plant yn sefydlog yn eu cartrefi. Mae'r **Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS**) yn cynnig ymyrraeth arbenigol i deuluoedd ble mae camddefnydd o alcohol a chyffuriau gan y rhieni a gofalwyr yn ffactor o risg i'r plant. Oherwydd natur ddwys yr ymyrraeth, mae'r gwasanaeth wedi ei flaenoriaethu ar gyfer y teuluoedd ble mae'r risg i blant yn uchel. Mae'r prosiect **Adlewyrchu** yn cynnig cefnogaeth arbenigol i rieni sydd â phlant yn y system gofal yn barhaol. Yn ogystal, mae **Trobwynt** yn

cynnig gwasanaeth arbenigol sy'n canolbwyntio ar ddiddymu gorchmynion gofal lle mae gwaith dwys eisoes wedi ei gwblhau, a thrwy hynny yn cynnig ffordd allan o ofal i blant a'u teuluoedd.

Mae **Tîm Derwen** yn darparu gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a gwael a'u teuluoedd. Rydym yn darparu cymorth i bobl ifanc anabl i'w helpu i gael eu cynnwys mewn gweithgareddau a bywyd cymunedol a chynyddu sgiliau i'w gwneud yn fwy annibynnol. Rydym yn darparu cyfnodau o ofal seibiant drwy wasanaeth cefnogol i nifer fawr o deuluoedd. Mae'r tîm yn un amlddisgyblaethol ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd. Mae gennym weithwyr cymdeithasol, nyrsys a seicolegwyr yn gweithio yn y tîm ac oherwydd ystod eang o anghenion cymhleth mae ein gweithwyr angen meddu ar sgiliau arbennig i ymateb i anghenion y plant a'u teuluoedd.



Pwrpas y **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid** yw gweithio yn ddwys gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu i'w hatal rhag aildroseddu. Rydym yn cynnig ystod eang o ymyrraethau arbenigol ac yn gweithio gyda'r teulu cyfan er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau i helpu'r plant a phobl ifanc rhag aildroseddu. Rydym hefyd yn gweithio yn ataliol gyda phlant a phobl ifanc i'w hatal rhag troseddu yn y lle cyntaf. Byddwn yn gwneud hyn mewn partneriaeth ag ysgolion ac o fewn cymunedau'r unigolion. Rydym yn dîm amlasiantaethol ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Bwrdd Iechyd, Gyrfa Cymru, Tai Gogledd Cymru ac eraill.

## Sut rydym yn sicrhau ansawdd Diogelu

Er mwyn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn mae gennym **Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd** sydd yn canolbwyntio ar agweddau gwahanol ar y maes pwysig hwn. Rydym yn gweithredu'r dyletswyddau statudol i adolygu achosion Plant mewn Gofal, ac yn rhoi arweiniad ar amddiffyn plant, gan gadeirio Cynadleddau Achos a Chyfarfodydd Strategaeth lle mae honiadau yn erbyn pobl broffesiynol.

Byddwn yn cynnal cynadleddau amddiffyn plant mewn partneriaeth â'r teuluoedd a gweithwyr eraill. Mae ymyrryd gyda theulu i ddiogelu'r plentyn yn gallu bod yn anodd iddynt. Yn aml, nid ydynt yn croesawu'r cymorth yma ac yn aml yn cydweithredu trwy orfodaeth. Ein nod yw sicrhau fod llais y plentyn yn fwy amlwg yn y trafodaethau a bod teuluoedd yn cymryd rhan fwy effeithiol yn eu cynllun diogelu.

Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn monitro cynlluniau gofal pob plentyn a pherson ifanc sydd mewn gofal. Maent yn sicrhau fod y cynlluniau gofal wedi rhoi ystyriaeth briodol a phwysau i ddymuniadau a theimladau'r plentyn, a bod y plentyn yn deall ei sefyllfa yn llawn o ystyried ei oed a'i ddealltwriaeth. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu diogelu trwy gydol eu hamser mewn gofal. Maent yn gwrando ar blant, gwneud yn siŵr eu bod yn hapus gyda'u cynlluniau, sicrhau bod eu barn yn cael llais a bod eu cynlluniau yn cael eu dilyn, a bod yn ddigon grymus i wneud rhywbeth am y peth os nad ydynt yn cael eu dilyn.




Mae gwaith yr adran hon yn cyfrannu tuag at rai o Amcanion Llesiant Gwynedd, gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

# Adran Amgylchedd

**Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar y prif feysydd canlynol:**

- **Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu**
- **Gwarchod y Cyhoedd**
- **Trafnidiaeth a Chefn Gwlad**

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth gwella canlynol:

- Capasiti Gwarchod y Cyhoedd - (Blaenoriaeth Gwella 7)
- Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd - (Blaenoriaeth Gwella 8)

Yn naturiol, mae argyfwng Covid-19 a'r cyfyngiadau sydd wedi dod gydag o wedi cael effaith sylweddol ar holl wasanaethau'r adran, gyda nifer e.e ein gwasanaethau **Gwarchod y Cyhoedd** yn cyflawni gwaith tra gwahanol i'r arfer, a hynny o dan bwysau. Rydym wedi sefydlu gwasanaeth gwbl newydd, y **Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu**, ac wedi gorfod dod o hyd i atebion gwahanol i sicrhau ein bod yn medru parhau i ddarparu gwasanaethau eraill. Mae hyn oll wedi cael effaith ar rediad arferol yr adran, ac ar ein blaenoriaethau'n ystod 2020/21. Bydd yr her o adfer a sefydlogi yn ein wynebu yn ystod 2021/22, ac fe fyddwn yn defnyddio'r gwersi sydd wedi codi o'r argyfwng wrth ystyried siâp ein gwasanaethau i'r dyfodol.

## Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu

- **Gwasanaeth Cynllunio**
- **Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd a Môn)**
- **Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu**

### Gwasanaeth Cynllunio

**Pwrpas y gwasanaeth yma yw i hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy er budd ein cymunedau, yr economi a'r amgylchedd o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (nad yw'n cynnwys ardal y Parc Cenedlaethol).**

Yn ystod 2019/20 derbyniwyd dros 1,000 o ymholiadau cynllunio cyffredinol neu ymholiadau cyn cyflwyno cais. Rydym yn gwneud penderfyniadau ar **geisiadau cynllunio** i ddatblygu tir ac yn ymdrin ag oddeutu 1,100 o geisiadau cynllunio'n flynyddol, gyda dros 91% o geisiadau'n derbyn caniatâd. Mae ceisiadau'n cymryd 68 diwrnod i'w penderfynu ar gyfartaledd gydag oddeutu 86% yn cael eu penderfynu o fewn yr amser gofynnol.




Canran ein cwsmeriaid oedd yn fodlon neu'n fodlon iawn â lefel y gwasanaeth

Rydym yn cymryd **camau gorfodaeth** ar ddatblygiadau sydd heb gael caniatâd cynllunio gan ymdrin ag oddeutu 210 o achosion yn flynyddol. Fe ymchwiliwyd i 60% o'r achosion gorfodaeth o fewn 84 diwrnod ac mae nifer o rybuddion gorfodaeth wedi eu cyflwyno.

Rydym yn delio gyda phob math o ddatblygiadau megis tai (yn cynnwys tai fforddiadwy), ysgolion newydd, ffatrïoedd a datblygiadau is-adeiledd sylweddol megis cynlluniau gan y Grid Cenedlaethol.

## Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd a Môn)

**Pwrpas y gwasanaeth yma yw i baratoi dogfennau polisi cynllunio, yn cynnwys paratoi a monitro'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a Chanllawiau Cynllunio Atodol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy ac mae'n cynnwys mapiau a pholisïau ysgrifenedig a ddefnyddir i benderfynu ceisiadau cynllunio.**


Ers mabwysiadu'r **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** (Gwynedd a Môn), mae 8 (allan o gyfres o 17) o Ganllawiau Cynllunio Atodol wedi eu mabwysiadu gydag 2 arall wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r canllawiau yn rhoi cig ar esgyrn polisïau cynllunio, ac yn atgyfnerthu gallu'r Cynllun Datblygu i roi sail gadarn i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i'r dyfodol. Mae Adroddiad Monitro Blynyddol draft wedi cael ei baratoi ar gyfer 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 ac wedi ei drafod efo Aelodau'r Cabinet. Bydd y gwasanaeth angen cyflwyno adroddiad fydd yn adrodd ar gyfnod o 2 flynedd ym mis Hydref 2021 gan nad oedd yn rhaid adrodd yn 2020. Casgliad yr Adroddiad Monitro Blynyddol drafft oedd bod y cynllun yn cyflawni'r strategaeth a bod polisïau'r cynllun yn gweithio.

Rhoddir hefyd arweiniad ar faterion polisi cynllunio i Awdurdod Cynllunio Gwynedd, Awdurdod Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn, sefydliadau allanol a'r cyhoedd.

Yn sgil Deddfwriaeth fydd yn dod i rym yn 2021 i greu Cydbwyllgor Corfforaethol (CJC) ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru (a'r rhanbarthau eraill), bydd gofyn statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth. Bydd disgwyl i'r Cyngor gyfrannu tuag at y costau o greu Uned Newydd fydd yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol, gyda hyn ar adeg lle bydd y Gwasanaeth angen bod yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygieidig neu Newydd.

## Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu

**Pwrpas y gwasanaeth yma yw i sicrhau'r safonau gofynnol i sicrhau iechyd a diogelwch pobl o gwmpas adeiladau tra yn gwella cadwraeth tanwydd a phŵer, amddiffyn a gwella'r amgylchedd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Rydym hefyd yn sicrhau bod mynediad a chyfleusterau angenrheidiol yn cael eu darparu ar gyfer pobl ag anableddau mewn adeiladau newydd ac fel rhan o addasiadau.**




Mae'n rhaid i waith adeiladu gael ei gyflawni yn unol â gofynion penodol Rheoliadau Adeiladu. Mae hyn yn

bwysig a gwerthfawr i bobl Gwynedd, gan y bydd yn sicrhau bod unrhyw waith adeiladu yn ddiogel ac o'r safon angenrheidiol.

Yn nhermau adeiladau a strwythurau peryglus, rydym yn cynnig gwasanaeth 24 awr i sicrhau bod iechyd a diogelwch trigolion Gwynedd yn cael ei warchod.

Ar gyfer ceisiadau Rheolaeth Adeiladu Llawn, mae'r gwasanaeth yn anelu i archwilio'r cynlluniau o fewn 15 diwrnod gwaith, gyda'r penderfyniad yn cael ei ryddhau cyn gynted â phosib, ac yn cynnig cydweithio yn agos gydag adeiladwyr a phenseiri er mwyn i gais gyrraedd safon da.

Yn dilyn adolygiad Ffordd Gwynedd mae'r Gwasanaeth yn canolbwyntio ar geisio cyflawni'r pwrpas o sicrhau fod gwaith adeiladu yn cael ei wneud yn unol â'r gofynion priodol, gyda rheoliadau yn cael eu gorfodi lle bo cyfiawnhad, i ddiogelu iechyd a lles trigolion a'r amgylchedd. Mae hyn hefyd yn golygu fod y Gwasanaeth yn ail edrych ar y model ar gyfer cyllido'r gwaith dydd i ddydd, gan hefyd fwydo mewn i newidiadau sydd yr y gweill yn genedlaethol gyda'r gyfundrefn Rheolaeth Adeiladu.

# Gwarchod y Cyhoedd

- **Gwasanaeth Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu**
- **Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch**
- **Gwasanaeth Safonau Masnach**
- **Gwasanaeth Olrhain [rhan o drefn Profi, Olrhain, Diogelu Covid-19]**

**Pwrpas cyffredinol y gwasanaethau hyn yw i warchod y cyhoedd mewn perthynas ag amrediad o faterion amgylcheddol ac iechyd.**

## Gwasanaeth Rheolaeth Llygredd a Thrwyddedu

**Pwrpas y gwasanaeth yma yw sicrhau nad yw busnesau neu unigolion yn llygru'r aer, y tir, neu ddyfroedd gyda sylweddau neu sŵn annymunol drwy ymateb ac ymchwilio i gwynion llygredd a niwsans statudol.**



Rydym yn asesu diogelwch dŵr yfed o darddiad preifat ac yn gorfodi gwelliannau fel bo angen, gan asesu 536 sampl dŵr yfed dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym hefyd yn archwilio a monitro **prosesau diwydiannol** ar 49 safle ac yn rheoleiddio allyriadau diwydiannol i'r aer (llosgyddion gwastraff olew, malurwyr symudol, peiriannau sment).

Rydym hefyd yn trefnu angladdau lle nad oes teulu - gyda 14 o achosion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rydym yn trwyddedu'r meysydd â ganlyn er mwyn gwarchod defnyddwyr, busnesau a chymunedau Gwynedd rhag unrhyw effeithiau andwyol; ac yn cymryd camau gorfodaeth lle mae hynny'n ofynnol er mwyn cadw defnyddwyr y gwasanaethau trwyddedig yn ddiogel.

| Gorfodi Trwyddedau | |
| --- | --- |
|  1,001 Eiddo Alcohol |  66 Eiddo Gamblo |

- Trwyddedau alcohol ac adloniant (yn cynnwys digwyddiadau) a gamblo.
- Trwyddedau anifeiliaid yn cynnwys siopau anifeiliaid anwes, sefydliadau marchogaeth a sefydliadau bridio cŵn.
- Cerbydau, gyrwyr a gweithredwyr tacsis.
- Safleoedd carafanau, a thrwyddedu delwyr metel sgrap.

| | |
|---|---|
| 301 Cerbyd a 503 Gyrrwr Tacsi | 35 Trwyddedau Anifeiliaid |
| 477 Safleoedd Carafanau | 26 Delwyr Metel Sgrap |

## Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch

**Pwrpas y gwasanaeth yma yw;**

- **Sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yng Ngwynedd yn rhydd o beryglon i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio â gofynion cyfansoddiadol a labelu**
- **Atal marwolaethau, anafiadau a chyflyrau sy'n gysylltiedig â mannau gwaith**
- **Gwarchod trigolion ac ymwelwyr i Wynedd rhag afiechydon heintus a chemegau niweidiol**
- **Cynorthwyo busnesau Gwynedd i gwrdd â'r gofynion statudol sy'n ofynnol ohonynt.**

I wireddu ein pwrpas rydym yn addysgu unigolion a busnesau, ac yn cynnal rhaglenni o archwiliadau, yn samplo bwyd ac yn ymgymryd â gwaith ymchwil. Byddwn hefyd yn cwblhau ymyraethau adweithiol fel sydd angen. Mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at gynnal yr economi'n lleol drwy gynorthwyo busnesau i gydymffurfio â rheoliadau a delio gyda busnesau sy'n dewis peidio, fel nad ydynt yn derbyn mantais dros fusnesau cyfreithlon a pheri risg i iechyd y cyhoedd. Mae ein gwaith yn cynorthwyo'r Cyngor i wireddu ein hamcanion llesiant er mwyn sicrhau fod Gwynedd yn le iach, saff a chynaliadwy i fyw a gweithio ynddo.

**Monitro 2019-20**

| | | |
|---|---|---|
| Dros 2,100 o fusnesau bwyd | 200 Sampl bwyd | 70 o ddamweiniau a chwynion diogelwch |
| SGÔR HYLENDID BWYD 0 1 2 3 4 5 DA IAWN<br>93.23% o fusnesau bwyd â sgôr o 3 (boddhaol) neu uwch | Dros 40 Ymweliad Addysgol | Ymweld â 2,000+ o fusnesau yn flynyddol |

**Ceisiadau am Wasanaeth**

| | | |
|---|---|---|
| 745<br>Diogelwch Bwyd | 125<br>Iechyd a Diogelwch | 320<br>Afiechydon Heintus |

## Gwasanaeth Safonau Masnach

**Pwrpas y gwasanaeth yma yw hyrwyddo, cynnal a sicrhau amgylchedd teg a chyfiawn tra'n gwarchod buddiannau trigolion a busnesau Gwynedd.**

Rydym yn gyfrifol am orfodi amrediad eang o ddeddfwriaeth yn ymwneud â chyflenwi a dosbarthu nwyddau a gwasanaethau ac yn ymdrin ag amryw o bynciau, yn cynnwys:

- diogelwch nwyddau
- codi ymwybyddiaeth o sgamiau a benthyca arian anghyfreithlon
- troseddau stepen drws
- gwerthu nwyddau â chyfyngiadau oed
- cyngor busnes
- nwyddau ffug a throseddau a hawliau eiddo deallusol
- e-fasnach ac ymchwiliadau rhyngrwyd
- cyfraith gwerthwyr tai a disgrifiadau eiddo
- petroliwm a ffrwydron/tân gwyllt
- iechyd a lles anifeiliaid
- bwyd anifeiliaid
- pwysau a mesurau

**MONITRO 2019/2020**

Dros 8,000 o fasnachwyr

Dros 2,000 ffermydd

Ymweld a dros 160 o sefydliadau bwyd anifeiliaid

119 Busnes Newydd wedi derbyn cyswllt/cyngor

30 Busnes i gadw tân gwyllt

44 Busnes i storio petroleum

**CEISIADAU AM WASANAETH 2019/2020**

| 1341 | 295 | 60+ | 62 | 240 |
|---|---|---|---|---|
| Cwyn | Cais am gyngor gan fusnesau | Teclyn blocio galwadau niwsans wedi dosbarthu i drigolion bregus | Cais am wasanaeth ble codir tâl | Cais iechyd anifeiliaid |

Mae dyletswyddau craidd y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd wedi eu cyfyngu i faterion risg uchel ac ymdrechion i drio parhau i ddarparu'r gwasanaethau craidd, wrth i'r ymdrechion o ymateb i'r pandemig barhau i gymryd blaenoriaeth yn 2021.

## Y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu (Gwasanaeth Newydd)

Sefydlwyd y gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) ym mis Mai 2020, a daeth yn weithredol ar 1 Mehefin 2020. Mae'r gwasanaeth bellach yn cyflogi 103 o weithwyr.

Amcanion y gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu yng Ngwynedd yw:

- Lleihau lledaeniad Covid-19 ar draws ein cymunedau drwy gefnogi pobl sydd wedi'u heintio gyda'r feirws i ynysu yn ystod eu cyfnod heintus

- Adnabod y bobl sydd wedi bod mewn cyswllt ag achos positif o Covid-19 a'u cefnogi i ynysu hyd nes i'r symptomau neu gyfnod magu'r haint fynd heibio
- Cefnogi pobl sydd â symptomau i gael mynediad at brawf Covid-19
- Gweithio â phartneriaid arbenigol ym maes rheoli risgiau i reoli unrhyw risgiau i bobl sy'n ynysu ynghyd â chymunedau a busnesau ehangach yng Ngwynedd.

Ers mis Mehefin 2020, mae TTP yng Ngwynedd wedi ymateb i:

- 8,049 o achosion Covid-19 yng Ngwynedd (rhwng 01/06/20-31/12/20)
- 1,420 o achosion (Index cases) Covid-19 wedi eu hadnabod (rhwng 01/06/20-31/12/20)
- 6,513 o gysylltiadau i Index Cases wedi'u creu.

Ar gyfartaledd, yng Ngwynedd mae gan achos positif 'Index Case' 4.67 o gysylltiadau.

Yn ogystal ag ymdrin ag achosion yng Ngwynedd, rydym yn ymgymryd â gwaith sylweddol ar ran awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru – gelwir hyn yn gyd-gymorth. Ers 1 Mehefin 2020, rydym wedi darparu'r gefnogaeth a ganlyn ledled Cymru i awdurdodau lleol eraill:

- Oddeutu 550 achosion positif Covid-19
- Oddeutu 370 o gysylltiadau i achosion positif

Mae hyblygrwydd y model TTP yn ein galluogi i fod yn fwy gwydn ledled Cymru gyfan, i leihau lledaeniad y feirws a sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus a bydd hyn yn parhau yn 2021.

# Trafnidiaeth a Chefn Gwlad

- **Gwasanaeth Parcio a Gofal Stryd**
- **Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau**
- **Gwasanaeth Cludiant Integredig a Diogelwch y Ffyrdd**
- **Gwasanaeth Cefn Gwlad a Mynediad**

**Nodir y bydd creu'r Cydbwylllgor Corfforaethol (CJC) ar gyfer Gogledd Cymru hefyd yn effeithio ar y gwasanaethau trafnidiaeth gan y bydd un o ddyletswyddau'r CJC yn ymwneud a pharatoi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Bydd disgwyl i'r Cyngor fod yn cyfrannu tuag at y costau o greu uned newydd a fydd yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.**

## Gwasanaeth Parcio a Gwaith Stryd

Ar dro'r flwyddyn hon, adnabuwyd cyfle i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd drwy gyfuno'r unedau Parcio a Gwaith Stryd oherwydd y synergedd rhwng cyfrifoldebau a gweithgareddau'r timau. Ffurfiwyd gwasanaeth newydd oddi fewn i'r Adran Amgylchedd, sef y Gwasanaeth Parcio a Gwaith Stryd.

**Pwrpas y gwasanaeth yw sicrhau fod rhwydwaith y sir yn ddiogel a dirwystr, hwyluso llif trafnidiaeth a sicrhau bod safleoedd parcio priodol i bawb.**

Rydym yn cwrdd â'n pwrpas drwy gyflawni'r agweddau canlynol:

- sicrhau nad oes rhwystr diangen i'r defnydd o briffyrdd yn sgil gweithgareddau a digwyddiadau, drwy gydgordio a rheolaeth briodol
- gorfodaeth parcio ar ac oddi ar ein strydoedd
- cynnal ein meysydd parcio a sicrhau eu diogelwch
- cynnal ein peiriannau talu ac arddangos.

Rydym yn gyfrifol am gydlynu a monitro'r holl weithgareddau a wneir ar y rhwydwaith briffordd gyhoeddus gan ymgymerwyr statudol (e.e. Dŵr Cymru, BT) neu eu contractwyr. Rydym hefyd yn **trwyddedu gosod sgipiau a sgaffaldau** ar ein ffyrdd yn ogystal â gorfodi perchnogion eiddo i dorri coed, symud rhwystrau oddi ar y ffordd ac yn y blaen.

Ffurfiwyd **Grŵp Tasg Parcio** yn 2019 er mwyn cynnal adolygiad o strategaeth parcio bresennol y Cyngor gan fod llawer iawn wedi newid ers i'r Cyngor gynnal yr adolygiad diwethaf yn 2015. Yn ogystal, mae'r flwyddyn hon wedi gwaethygu'r problemau yn nhermau parcio megis prinder llecynnau parcio ledled y sir o ganlyniad i'r ffaith fod y mwyafrif o bobl wedi aros yn y DU yn hytrach na mentro dramor ar wyliau yn sgil argyfwng Covid-19. Mae hyn yn sicr wedi amlygu'r angen am bwerau ychwanegol i ymdrin â cherbydau sydd yn creu rhwystr a gwell rheolaeth o gartrefi modur. Mae cyfle rwan i adolygu'r trefniadau presennol ac argymell gwelliannau sydd yn cyrraedd datrysiadau priodol ac ymarferol.

Roedd pryderon wedi eu hamlygu yn ardal Dyffryn Ogwen am y diffyg llefydd parcio i drigolion a gweithwyr yr ardal. Er y bwriad i barhau i fonitro'r sefyllfa yno, oherwydd argyfwng Covid-19 roedd rhaid lleihau'r gwaith monitro yn sylweddol yn ystod 2020/21 ond byddwn yn ailgydio yn y gwaith yma unwaith y bydd sefyllfa'r argyfwng yn gwella.


## Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau


**Pwrpas y gwasanaeth yma yw galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio ffyrdd Gwynedd mewn modd diogel a dirwystr.**


Rydym yn cwrdd â'n pwrpas drwy'r prif weithgareddau canlynol:

- sicrhau bod ein ffyrdd yn ddiogel a dirwystr ar gyfer pob defnyddiwr, a chynnig mesuryddion priodol i'w monitro a'u gwella
- cydymffurfio â'n ddyletswyddau o dan y Ddeddf Teithio Llesol 2013 drwy ddarparu rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio, a hyrwyddo teithio llesol
- cyflawni prosiectau sydd yn ymwneud â diogelwch y ffyrdd, gwella'r rhwydwaith a thrafnidiaeth integredig a chynaliadwy mewn modd cost effeithiol, amserol a diogel
- sicrhau bod datblygiadau newydd sy'n cael effaith ar ein rhwydwaith ffyrdd wedi'u dylunio a'i gweithredu'n ddiogel.

Rydym hefyd yn rheoli prosiectau gwella ffyrdd amrywiol ledled y sir a bob amser yn edrych am gyfleoedd i ariannu ein cynlluniau trafnidiaeth a diogelwch o ffynonellau allanol.








## Gwasanaeth Cludiant Integredig a Diogelwch y Ffyrdd

**Pwrpas y gwasanaeth cludiant yw darparu cludiant diogel o ansawdd sy'n gost effeithiol i drigolion Gwynedd. I'r perwyl hwn, yr uned sy'n gyfrifol am yr holl faterion yn ymwneud â chludo trigolion Gwynedd, boed hynny ar gludiant cyhoeddus, cludo dysgwyr i sefydliadau addysgol, cludiant cymunedol neu gludiant ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.**

Mae dros hanner y **llwybrau cludiant cyhoeddus** o fewn Gwynedd yn derbyn cymorth ariannol i'w rhedeg oherwydd nad ydynt yn fasnachol-hyfyw. I hwyluso hyn, rydym yn paratoi contractau cludiant cyhoeddus yn ogystal â pharatoi a chreu amserlenni gweithredu ar gyfer y gwahanol lwybrau. Rydym hefyd yn gyfrifol am drefnu **contractau cludiant addysg** (gan gynnwys cynllun prynu seddau) er mwyn darparu trafnidiaeth am ddim i ddisgyblion cymwys.




Mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth cludiant confensiynol ar gael, neu ar gyfer ein trigolion sy'n methu neu'n ei chael hi'n anodd i ddefnyddio cludiant cyhoeddus confensiynol, rydym hefyd yn ystyried cyfleoedd ar gyfer **cludiant cymunedol** e.e. defnyddio cerbyd trydan yn ardal Nebo a Nasareth i gludo teithwyr i gyfarfod bws ym Mhenygroes.

### Rhaglen Gwella Bws (Bus Reform Programme)

Mae'r prosiect yma yn anelu i wneud gwelliannau ehangach i'r rhwydwaith ar draws Cymru erbyn diwedd Mawrth 2021. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymgynghorwyr i gyflawni'r gwaith. Y nod yw sefydlogi'r rhwydwaith, cynyddu'r nifer o deithwyr gan ddefnyddio'r gwasanaeth bysiau i annog newid moddol ac ymddygiad teithio. Byddant yn dylunio rhwydwaith newydd yn Ionawr 2021. Does dim son am arian ychwanegol i gyfarch y newidiadau hyn. Bydd Trafnidiaeth i Gymru yn rheoli'r rhwydwaith.

### Newid Hinsawdd

Yn unol â Chynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023, i ymateb i newid hinsawdd rydym wedi sicrhau £.3.6m gan Llywodraeth Cymru i brynu 6 bws trydan a fydd yn gweithredu rhwng Blaenau Ffestiniog a

Chaernarfon a Blaenau Ffestiniog a Llandudno o Medi 2021. Mae hyn yn cydfynd â dymuniad Llywodraeth Cymru i fysiau cyhoeddus a tacsis fod yn garbon niwtral erbyn 2028.

**Pwrpas y gwasanaeth diogelwch ffyrdd yw ceisio lleihau anafiadau a damweiniau ar ein ffyrdd drwy ymgymryd â mentrau addysgol, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd.**

Rydym yn cwrdd â'r pwrpas drwy ymwneud â'r agweddau canlynol:

- hyfforddiant beicio yn ddiogel (cynradd)
- hyfforddiant croesi'r ffordd fawr yn ddiogel (cynradd)
- ymgyrchoedd cerdded i'r ysgol (cynradd ac uwchradd)
- hyfforddiant 'Pass Plus Cymru' (gyrwyr ifanc)
- rheolaeth cerbyd (gyrwyr ifanc)
- byw yn iach - gyrru'n iach (gyrwyr hŷn)
- ymgyrchoedd ar y cyd ag eraill ar agweddau yfed a gyrru, goryrru, gwregys diogelwch, seddi babis a ffonau symudol (oedolion).

Codwyd pryderon ynghylch diogelwch y ffyrdd tu allan i ysgolion cynradd ac uwchradd Penygroes sy'n gwasanaethu ardal Dyffryn Nantlle. Mae llwybr newydd wedi'i agor sy'n galluogi disgyblion Ysgol Dyffryn Nantlle ac Ysgol Bro Lleu, Penygroes i gerdded i'r ysgol gan osgoi rhannau prysur o'r ffordd fawr. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i wella darpariaeth parcio a bysus ar yr amseroedd prysuraf, a'r gobaith yw i greu maes parcio newydd yn yr ardal.

Yn yr un modd, codwyd pryderon ynghylch diogelwch y ffyrdd tu allan i rai o'r ysgolion yng Nghaernarfon. Bellach, mae cynllun ar y gweill i wella diogelwch defnyddwyr ffyrdd yng nghyffiniau Ysgol y Gelli, Ysgol Syr Huw Owen a Chanolfan Byw'n Iach Arfon. Bydd y cynllun yma'n cynnwys mesurau i dawelu traffig, estyniad i faes parcio, darpariaeth i dacsis a llwybr troed newydd.

## Gwasanaeth Cefn Gwlad a Mynediad

### Gwasanaeth Cefn Gwlad

**Pwrpas y gwasanaeth yw gofalu am rwydwaith llwybrau Gwynedd, harddwch y tirlun a byd natur ar dir a môr.**

Llwyddwyd i fwrw ymlaen gyda rhai o'r meysydd gweithredu a adnabwyd yn Adolygiad Ffordd Gwynedd y Gwasanaeth yn 2019, a bydd y gwaith yn parhau yn 2021/ 22.

## Bioamrywiaeth ac AHNE Llŷn

Rydym yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Cyngor i warchod ein bioamrywiaeth yng Ngwynedd, drwy roi cyngor arbenigol ar geisiadau cynllunio, datblygiadau ac ymholiadau.

Mae argaeledd grantiau drwy'r **Bartneriaeth Natur Leol** wedi'n galluogi i gefnogi ac ysgogi gwaith sy'n gwella natur yn lleol ar draws y sir. Mae eu prosiectau ar gyfer 2021/22 yn cynnwys:

- Creu perllan gymunedol a difa planhigion ymledol i wella coridorau i beillwyr yn ardal Blaenau Ffestiniog
- Ym Mhwllheli mae partneriaeth leol sy'n cynnwys y Cyngor Tref ac ysgol Glan y Môr yn mynd ati i wella cysylltiadau cynefin a bioamrywiaeth mewn gwarchodfa leol a chodi ymwybyddiaeth am yr ardal ymysg trigolion lleol
- Cefnogi mudiadau lleol i reoli tir ger Trem yr Wyddfa, Penygroes er budd natur ac fel adnodd cymunedol.

Mae'r adran yn gyfrifol am gyd-gordio'r gwaith o reoli safle Ewropeaidd dynodedig ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau morol o bwysigrwydd Ewropeaidd, sef Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau. Mae'r adran hefyd yn gwarchod a cheisio rheoli ansawdd **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn** (AHNE) yn unol â phrotocol. Mae Cynllun Rheoli AHNE yn cael ei weithredu gan y Cyngor a sefydliadau eraill.

Mae **rhwydwaith llwybrau cyhoeddus Gwynedd** oddeutu 3,800km o hyd. Rhoddir blaenoriaeth i gynnal y llwybrau hynnny sy'n roi cyfleoedd hamdden a teithio llesol o fewn cyrraedd i gymunedau. Mae'r Adran hefyd yn gyfrifol am gynnal a datblygu'r Llwybr Arfordir cenedlaethol sydd oddeutu 300km o hyd yng Ngwynedd. Rydym yn ymdrin â cheisiadau i wyro a chreu llwybrau ac yn cynnal a diweddaru'r map diffiniol sy'n dangos rhwydwaith hawliau tramwy'r sir.

Mae rhaglen grant i wella mynediad wedi caniatáu gwelliannau i lwybrau ar draws y sir gan gynnwys llwybr Buan rhwng Llanelltyd a Dolgellau oedd wedi'i erydu yn ddrwg. Mae'r llwybr bellach yn gallu cael ei ddefnyddio gan y gymuned gyfan.

Roedd nifer o ddefnyddwyr Lôn Eifion a Lôn Las Menai yn bryderus nad oedd posibl dilyn canllawiau pellhau cymdeithasol oherwydd rhannau cul i'r llwybrau. Bydd gwelliannau'n cael eu gweithredu'n fuan yn 2021/22 i ledu'r llwybrau a gwneud mynedfeydd yn fwy hwylus i bawb eu defnyddio.

Yn dilyn galw lleol i gwblhau'r llwybr beicio rhwng Tywyn ac Aberdyfi, sydd eisoes yn un o flaenoriaethau'r Cyngor, mae'r Adran wedi wedi methu a chanfod arian grant gan Lywodraeth Cymru i'n galluogi i symud ymlaen â'r gwaith. Byddwn yn parhau i geisio canfod cyllid digonol i gwblhau'r linc Teithio Llesol pwysig yma.

Roedd galw hefyd i adeiladu llwybr aml-ddefnydd rhwng Pwllheli a Llanbedrog a fyddai'n galluogi defnyddwyr i gael mynediad rhwydd ar hyd arfordir deheuol Pen Llŷn. Mae gwaith cyfreithiol yn mynd rhagddo i geisio cael hawliau beicio a marchogaeth ar y llwybr er mwyn ehangu ein rhwydwaith Teithio Llesol, a bydd y gwaith yma'n derbyn sylw yn 2021/22.

Byddwn hefyd yn parhau i weithio tuag at greu llwybrau arfordirol addas i'w pwrpas rhwng Tal y Bont, Bangor a Phorth Penrhyn, ac hefyd rhwng Dinas Dinlle a Threfor yn ystod 2021/2022.

## Gwasanaeth Busnes

**Pwrpas y gwasanaeth yma yw i gefnogi gwasanaethau eraill yr Adran i gyflawni eu pwrpas.**

Mae ein gwaith yn cynnwys rheoli contractau, cyllid ac incwm; rheoli datblygiad a gweithrediad effeithiol systemau technoleg gwybodaeth; integreiddio darpariaeth tendro a chaffael, pridiannau tir a darparu gwasanaeth cefnogol a gweinyddol i'r gwahanol wasanaethau.


Rydym yn paratoi, gweithredu, a rheoli nifer fawr o gontractau'r Adran; monitro cynnydd a pherfformiad darparwyr a chontractwyr yn nhermau cytundebau, contractau a chyllid y gwasanaethau; dylunio systemau gweithredol a gweithdrefnau'r Adran mewn ffyrdd cost-effeithiol a pharatoi a chyflwyno papurau gwaith yn ymwneud ag arbedion, newidiadau i'r sefydliad staffio a ffioedd a phrisiau.

Mae angen i ni reoli datblygiad a gweithrediad systemau technoleg gwybodaeth, dylunio systemau gweithredol a gweithdrefnau'r holl wasanaethau sy'n cael eu defnyddio ar draws yr Adran mewn ffyrdd cost-effeithiol a fydd yn arwain at arferion gweithio mwy effeithlon ac effeithiol.

### Rheolaeth Categori Corfforaethol

**Pwrpas y Gwasanaeth yw cydweithio a chefnogi gwasanaethau'r Cyngor i wario arian cyhoeddus mewn modd strategol a chywir.**

Mae rheolaeth categori yn darparu dealltwriaeth ddyfnach o'r farchnad, cynhyrchion, cyflenwyr a'r gadwyn gyflenwi i ddatblygu cynlluniau categori strategol trawsadrannol.




**Gwerth am Arian -** Yn y flwyddyn 2019/20 arbedwyd £165,000 a nodwyd £78,000 arall fel arbedion posibl ynghyd â gwerth ychwanegol anariannol i bob contract corfforaethol a osodwyd yn ystod y flwyddyn. Yn 2020/21, er gwaethaf dargyfeirio staff a bod yn gyfrifol am PPE a nwyddau glanhau o safon am y chwe mis cyntaf, llwyddwyd i arbed £58,000 ac adnabod £23,000 ychwanegol rhwng Ebrill a Thachwedd.

**Cadw'r Budd yn lleol -** Trwy ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad leol a chydweithio gyda Busnes Cymru sy'n darparu cyngor a chefnogaeth i baratoi cynnig roedd cynnydd yn y gwariant lleol o 1% o'i gymharu â 2018/19. Mae ymdrech y tîm yn 2019/20 yn parhau i wella canran lleol, a rhwng Ebrill a Thachwedd **2020** mae'r gwariant lleol wedi codi eto o 1%. Yn ogystal â'r cynnydd mewn gwariant uniongyrchol gyda'r farchnad leol, rydym yn annog cyflenwyr i gynyddu eu gwariant lleol o fewn eu cadwyni cyflenwi.

**Am weddill 2020/21** mae rhaglenwyr datblygu cynlluniau strategol pellach yn ogystal â darparu cefnogaeth ymarferol i roi'r cynlluniau hynny ar waith. Rhoddir ffocws arbennig lle bo hynny'n bosibl ar gyd-ddatblygu a gweithredu arferion caffael gwerth cymdeithasol i alluogi chwarae teg i fusnesau bach a chanolig.

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.

# Adran Economi a Chymuned

**Mae'r Adran Economi a Chymuned yn cynnwys ystod o wasanaethau sydd yn anelu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.**

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth ganlynol:

1) Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru - (Blaenoriaeth Gwella 1)
2) Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £28,500 neu fwy) - (Blaenoriaeth Gwella 1)
3) Arloesi Gwynedd Wledig - (Blaenoriaeth Gwella 1)
4) Hybu Canol Trefi - (Blaenoriaeth Gwella 1)
5) Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith - (Blaenoriaeth Gwella 1)
6) Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu - (Blaenoriaeth Gwella 1)
7) Twristiaeth – llunio cynllun twristiaeth cynaliadwy - (Blaenoriaeth Gwella 1)
8) Adfywio: Llunio cynlluniau adfywio ar gyfer ein hardaloedd - (Blaenoriaeth Gwella 1)
9) Mwy o drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith -(Blaenoriaeth Gwella 3)

Dyma fraslun o waith yr Adran yn 2021/22:

## Gwasanaeth Datblygu Economaidd

Mae perfformiad yr economi yn effeithio ar ansawdd bywyd trigolion Gwynedd gan ddylanwadu ar gostau byw ac incwm aelwydydd. Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid i greu'r amodau i fusnesau a mentrau sefydlu, cystadlu a datblygu yng Ngwynedd gan greu a chynnal swyddi o ansawdd ar draws y sir.

**Mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar gyflogwyr a busnesau Gwynedd yn 2020 - mae nifer busnesau, cynhyrchiant a gwerth busnesau wedi gostwng. Mae'r nifer sydd yn ddi-waith wedi cynyddu yn sylweddol a'r economi wedi mynd i ddirwasgiad. Mae Brexit hefyd wedi creu ansicrwydd i nifer o fusnesau, yn enwedig busnesau yn y sector amaeth a rhai sydd yn ddibynnol ar allforio a mewnforio nwyddau allweddol.**

Roedd economi Gwynedd yn perfformio yn gymharol dda ar lefel Cymru ond ddim o'i gymharu â rhanbarthau eraill o Brydain ac Ewrop. Mae lefelau cyflog yng Ngwynedd yn llawer is na rhannau eraill o Gymru ac mae gwerth cynhyrchiant busnesau Gwynedd yn isel o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Mae'n bwysig felly fod Cyngor Gwynedd yn cymryd camau rhagweithiol i greu'r amodau fydd yn sbarduno twf yn yr economi a hynny mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd.

**1,200** o grantiau wedi eu rhannu i fusnesau Gwynedd yn 2020 gwerth £2.6 m

Roedd 16,010 o fusnesau, mentrau a chwmnïau cymunedol yng Ngwynedd yn 2019. Mae'r Adran yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ymarferol i'w helpu i sefydlu, sefydlogi a datblygu er mwyn cynnal a chreu swyddi. Mae'r Gwasanaeth yn rhoi sylw arbennig i gefnogi busnesau drwy ddarparu gwahanol becynnau cymorth busnes a hyrwyddo arloesedd i

fusnesau gan eu hannog i wneud gwell defnydd o dechnoleg yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf gwledig.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ddatblygu prosiectau i wella cynhyrchiant economaidd y rhanbarth a chreu swyddi gwerth uwch yn y sir. Yn sgil y cynnydd sylweddol mewn diweithdra rydym hefyd yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn cefnogi busnesau i gyflogi a phobl Gwynedd i gael mynediad i swyddi.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn ceisio deall effaith hir dymor Covid-19 a Brexit ar fusnesau Gwynedd gan godi ymwybyddiaeth o ffynonellau cymorth er mwyn galluogi busnesau i ymdopi â'r newid.

## Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

**Mae'r diwydiant twristiaeth yn gyflogwr allweddol yng Ngwynedd.** Gyda gwerth economaidd o dros £1.35 biliwn, roedd dros 18,200 o bobl yn gweithio yn y maes yn 2019. Ond mae'r economi ymweld wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan Covid-19 gyda busnesau wedi bod ar gau drwy'r rhan fwyaf o 2020 a digwyddiadau wedi cael eu hatal. Wrth i gyfyngiadau gael eu llacio dros gyfnod yr haf gwelwyd nifer ymwelwyr i brif gyrchfannau ymwelwyr yn cynyddu yn sylweddol gan roi pwysau ar gymunedau lleol. Er mwyn gallu ymateb i bryderon cymunedau a busnesau, mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad o'r maes a mabwysiadu cyfres o egwyddorion er mwyn galluogi'r sector i adfer a datblygu'n gynaliadwy i'r dyfodol er budd a lles pobl Gwynedd.

**77,570**
o ddilynwyr ar gyfryngau cymdeithasol Eryri, Mynyddoedd a Môr yn 2020/21

Yn 2021/22 bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar gefnogi economi ymweld sy'n:

- dathlu a pharchu ein cymunedau, iaith a'n diwylliant;
- cynnal a pharchu ein hamgylchedd;
- sicrhau bod y manteision i gymunedau Gwynedd yn fwy nac unrhyw anfanteision

## Gwasanaethau Morwrol

Gan fod tirwedd ac amgylchedd naturiol Gwynedd mor bwysig i ffyniant y sir, mae'r adran yn ceisio sicrhau **adnoddau diogel o ansawdd yn ein harbyrau, ein marinas ac ar draethau** Gwynedd er mwyn creu atyniadau hamdden i bobl leol ac ymwelwyr. Mae'r adran yn rheoli 301km o arfordir Gwynedd gan ganolbwyntio ar 8 o draethau Baner Las, 4 harbwr a 2 marina gan gynnwys Hafan Pwllheli sy'n cynnig llety i 400 o gychod.

**1,777** o gychod a **923** o fadau dŵr personol wedi eu cofrestru yn ystod 2018/19

Yn 2021/22 byddwn yn:

- diweddaru Cynllun Rheolaeth Traethau Gwynedd
- gweithredu Strategaethau Carthu Harbwr Pwllheli a Doc Fictoria
- sefydlu trefniadau rheoli Hafan a Harbwr Pwllheli i'r dyfodol

## Gwasanaeth Adfywio

Mae nifer o ffactorau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn cyfuno i wneud Gwynedd yn le arbennig i fyw, gweithio a mentro. Ond mae rhai o'r cymunedau lle nad ydi grym y farchnad yn gryf angen hwb ar adegau er mwyn gwyrdroi dirywiad, ac er mwyn ymateb i heriau sy'n eu hwynebu cyn gallu cyflawni potensial i'r dyfodol. Adfywio ydi'r broses yma ac mae'n **ymdrech fwriadol i gydweithio gyda phobl Gwynedd a phartneriaid i wella ardaloedd** er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gyda lle amlwg a chanolog i'r iaith Gymraeg.

Nid oes modd i un adran gyflawni amcanion agenda Adfywio Gwynedd ar ei phen ei hun. Er mwyn gwneud gwahaniaeth hirdymor a gwneud y defnydd gorau o adnoddau rhaid cydweithio ar draws adrannau'r Cyngor a chydag amrywiaeth o bartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae Bwrdd Adfywio trawsadrannol wedi cael ei sefydlu ac yn ystod 2021/22 bydd yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn adnabod blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol gan roi sylw arbennig i raglenni gwella canol tref.

## Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Mae'r adran yn darparu gwasanaethau er mwyn i bobl Gwynedd wneud ein cymunedau yn llefydd gwell i fyw. **Mae'n bwysig bod grwpiau gwirfoddol a mentrau lleol yn cael eu cefnogi i ymateb i gyfleoedd ac anghenion lleol.** Mae gan y Cyngor rwydwaith o swyddogion i gefnogi cymunedau a 'CIST' o grantiau i gefnogi prosiectau cymunedol penodol.



**65** o brosiectau'n datblygu gwasanaeth newydd/ diogelu mynediad at wasanaeth yn ystod 2018/19

Byddwn yn targedu rhai cymunedau yn fwy na'i gilydd gan roi sylw arbennig i gynllunio cefnogaeth i ardaloedd gyda'r anghenion mwyaf.

Yn 2021/22 byddwn yn:

- cefnogi rhwydweithiau cymunedol i gefnogi'r unigolion mwyaf bregus yn sgil Covid-19
- mesur y galw am gymorth gan gymunedau ac ystyried opsiynau i ddarparu'r gwasanaeth i'r dyfodol
- cyfrannu at waith Bwrdd Adfywio'r Cyngor drwy arwain ar y gwaith o ymgysylltu gyda chymunedau i geisio adnabod blaenoriaethau lleol.

# Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth mewn 9 prif lyfrgell, 4 llyfrgell gymunedol a 3 dolen clicio a chasglu ar draws y sir. Mae'n bwysig i bobl Gwynedd eu bod yn gallu benthyg llyfrau a llyfrau llafar, a lawrlwytho e-lyfrau, e-lyfrau llafar ac e-gylchgronau o'u dewis. Benthycwyd 463,370 o eitemau gan bobl Gwynedd yn 2019/20. Ond nid yw holl drigolion Gwynedd yn gallu cyrraedd eu llyfrgell leol felly mae'r Cyngor hefyd yn darparu Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref sy'n ymweld â 479 o unigolion yn fisol. Mae Llyfrgelloedd Gwynedd hefyd yn cael eu comisiynu gan yr Adran Addysg i ddarparu gwasanaeth Lori Ni sy'n ymweld â phob Ysgol Gynradd, Arbennig a Dilynol ddwywaith y flwyddyn i fenthyg llyfrau darllen i blant 3-11 oed.

**Mae pobl Gwynedd yn defnyddio'r llyfrgelloedd ar gyfer llawer iawn mwy na benthyg llyfrau.** Maent yn llefydd croesawgar i bobl eu defnyddio ar gyfer amryw o anghenion - i gael gwybodaeth am wasanaethau, ynghyd â chymorth a chefnogaeth i gyrchu gwybodaeth ar-lein. Trwy'r Bartneriaeth Addysg Oedolion Gwynedd a Môn, rydym yn gallu trefnu a chynnig nifer o gyrsiau byr a sesiynau blasu, megis sesiynau digidol, meddwlgarwch, a sesiynau crefft. Rydym hefyd yn cynnal gweithgareddau i Ddysgwyr Cymraeg, ac yn cynnal sesiynau i fabanod ac amseroedd stori i blant. Trwy ein Casgliadau Darllen yn Well, gellir cael mynediad at wybodaeth gellir ymddiried ynddo ar faterion iechyd a lles, yn cynnwys Dementia ac Iechyd Meddwl. Mae trigolion Gwynedd hefyd yn gallu defnyddio un o'r 96 o gyfrifiaduron, neu'r wi-fi, sydd yn y llyfrgelloedd yn rhad ac am ddim i chwilio am waith, neu gael at wasanaethau lleol, yn ogystal â gallu llungopïo a sganio.

Derbyniodd Gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd adroddiad ardderchog ar ei berfformiad yn 2019/20, sy'n dangos fod y gwasanaeth yn perfformio'n dda oddi mewn i Fframwaith Asesu Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Yn sgil Covid-19 mae'r llyfrgelloedd wedi bod ar gau i'r cyhoedd am gyfnodau helaeth, ond mae gwasanaethau amgen, gan gynnwys clicio a chasglu wedi bod ar gael.

Yn 2021/22 byddwn yn:

- parhau i gydweithio gyda chymunedau a hyrwyddo mynediad diogel i'r gwasanaeth
- dysgu o brofiad cyfnod Covid-19 ac yn adolygu trefniadau'r gwasanaeth llyfrgell deithiol
- ail agor Neuadd Dwyfor i'r cyhoedd a pharatoi achos busnes i'w chynnal i'r dyfodol

**35,596**
o bobol Gwynedd yn aelodau o Lyfrgell

# Gwasanaeth Archifau

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i **warchod ein cofnodion cyhoeddus a gwneud yn siŵr fod gan bobl fynediad atynt**. Rydym yn gwneud hyn trwy ddau archifdy yng Ngwynedd - Archifdy Caernarfon ac Archifdy Meirionnydd yn Nolgellau.

**9,843**
o ddogfennau wedi eu gweld gan y cyhoedd yn 2019-20

Mae gan Archifdai Gwynedd ystod eang o ddogfennau, lluniau, mapiau a phapurau newydd, gyda'r ddogfen hynaf yn dyddio'n ôl i 1176. Ceir amrediad o gasgliadau cyhoeddus, swyddogol a phreifat sy'n adlewyrchu diwylliant a threftadaeth cymunedau Gwynedd. Mae'r Archifdai yn darparu sesiynau blasu, a chyrsiau hanes teulu ac yn cydweithio gydag ysgolion cynradd Gwynedd.

Yn 2021/22 byddwn yn:

- cydweithio gyda Llywodraeth Cymru ac archifau eraill ar draws gogledd Cymru i adnabod cyfleoedd i wneud y defnydd gorau o adnoddau archifau yn y rhanbarth
- gweithio gyda'r Adran Addysg i drafod cynnal y Gwasanaeth Addysg Archifau ac Amgueddfeydd i'r dyfodol
- adnabod cost digideiddio'r casgliadau a chydweithio i adnabod systemau i alluogi mynediad i gasgliadau digidol

## Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Mae'r gwasanaeth yn rhedeg dwy amgueddfa yng Ngwynedd ac yn gyfrifol am edrych ar ôl casgliadau a chreu arddangosfeydd yn y ddwy, sef Storiel ym Mangor ac Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy.

**64.000**
o bobl wedi ymgysylltu gydag ein hamgueddfeydd yn 2019/20

Mae llawer o'n gwaith yn y maes celfyddydau cymunedol yn targedu **prosiectau iechyd, lles, addysg a thaclo unigrwydd**. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am ddyrannu grantiau celfyddydol er mwyn cefnogi safon a chyfleoedd celfyddydol i bawb.

Mae'r amgueddfeydd wedi bod ar gau am gyfnodau helaeth yn y flwyddyn ddiwethaf a'r gweithgareddau celfyddydol wedi cael ei ddarparu yn rhithiol a thrwy gyfryngau amrywiol.

Ein nod fydd parhau i gyfoethogi bywydau trigolion Gwynedd trwy hyrwyddo dealltwriaeth o'n hetifeddiaeth a'n diwylliant unigryw.

Yn 2021/22 byddwn yn:

- gweithio gyda Chyfeillion Amgueddfa Lloyd George i greu ffordd newydd o reoli'r Amgueddfa
- sicrhau llwyddiant cynllun Storiel a sefydlu Ymddiriedolaeth Ddatblygu ar ei chyfer allai weithio gyda'r sector gelfyddydol a threftadaeth yng Ngwynedd yn y dyfodol
- gweithio gyda'r sector gelfyddydol i wireddu amcanion ein strategaeth newydd i'r celfyddydau

# Gwasanaeth Hamdden a Pharciau Gwledig

Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn ysbrydoli, cefnogi a galluogi pobl Gwynedd i fod yn egnïol a byw eu bywydau yn iach.

**Mae tueddiadau iechyd trigolion Gwynedd ychydig is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gyda lefelau gordewdra plant 4 oed yng Ngwynedd ymysg yr uchaf yng Nghymru, mae'n allweddol fod Cyngor Gwynedd a phartneriaid yn ymateb a chreu'r amodau i hyrwyddo byw'n iach.**

Mae gan Gyngor Gwynedd rwydwaith o 12 o ganolfannau hamdden ar draws Gwynedd sy'n denu 1.3 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn. Mae'r ddarpariaeth yma yn galluogi trigolion Gwynedd o bob oedran i ddysgu sgiliau newydd a mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol mewn lleoliadau diogel.



91% o ddefnyddwyr yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda gwasanaeth Byw'n Iach yn 2020

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i barhau i ddarparu'r cyfleusterau hyn ac wedi sefydlu Cwmni Byw'n Iach Cyf. er mwyn rhedeg y canolfannau ar ei rhan i'r dyfodol. Mae'r adran wedi gosod cytundeb i'r cwmni i reoli'r gwasanaeth o 1 Ebrill 2019 a byddwn yn monitro'r cytundeb yn rheolaidd er mwyn sicrhau ansawdd y gwasanaeth. O ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19 mae'r canolfannau wedi gorfod bod ar gau am gyfnodau helaeth yn ystod 2020 a 2021.

Mae'r Cyngor hefyd yn rheoli parciau gwledig yng Nglynllifon a Phadarn. Mae'r parciau hyn yn safleoedd treftadaeth bwysig ac yn atyniadau poblogaidd i ymwelwyr. Ond mae'r parciau hefyd yn asedau gwerthfawr i wella llesiant trigolion Gwynedd a hyrwyddo byw'n iach. Bydd yr adran yn ceisio sicrhau mwy o fudd lleol i'r cymunedau o'r asedau hyn i'r dyfodol.



818 o sesiynau ffitrwydd rhithiol wedi eu cynnal yn 2020

Yn ogystal â'r cyfleusterau hyn mae'r Cyngor yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod rhaglen o weithgareddau egnïol cynhwysol ar gael i bobl ifanc drwy'r tîm Chwaraeon am Oes mewn canolfannau, ysgolion, clybiau ac yn y gymuned. Mae rhaglen o weithgareddau Cyfeirio i Ymarfer hefyd ar gael yng Ngwynedd i helpu lleihau effaith cyflyrau sy'n atal trigolion Gwynedd rhag ymarfer a gwella eu hiechyd. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn niferoedd y cleientiaid ar gyfer y gwasanaeth yma, yn arbennig yn y meysydd dementia a chyflyrau cronig, ac mae tystiolaeth glir yn dangos effaith y buddsoddiad ar ansawdd bywyd ac iechyd. Darperir y 2 raglen yma yng Ngwynedd drwy gytundeb gyda chwmni Byw'n Iach.

Yn 2021/22 byddwn yn:

- cefnogi Cwmni Byw'n Iach i reoli canolfannau hamdden ar draws Gwynedd
- sefydlu trefniadau i uwchraddio a buddsoddi yn ein cyfleusterau hamdden
- cydweithio gyda phartneriaid er mwyn datblygu model newydd i ddarparu gwasanaeth Chwaraeon am Oes ar draws gogledd Cymru a sefydlu gwasanaeth datblygu chwaraeon newydd ar y cyd â Chwmni Byw'n Iach yng Ngwynedd

- cydweithio gyda Chyrff Llywodraethol Chwaraeon er mwyn cynnig ystod o weithgareddau cynhwysol sy'n ymateb i'r galw yng Ngwynedd a'r cyfleoedd arbennig sydd ar gael yn y sir drwy ein hadnoddau naturiol
- cydweithio gyda Chwmni Byw'n Iach i ddarparu'r gwasanaeth Cyfeirio i Ymarfer ar ran y Cyngor i'r dyfodol
- datblygu opsiynau rheoli Parciau Gwledig Glynllifon a Pharc Padarn i'r dyfodol.

Mae blaenoriaethau lleol wedi cael eu nodi yng Nghynllun y Cyngor ers 2018/19 gan ymateb i'r anghenion oedd wedi eu codi gan Gynghorwyr lleol. Mae'r adran wedi defnyddio'r blaenoriaethau hyn wrth ddatblygu eu rhaglenni gwaith ehangach, ac felly mae nifer o'r anghenion yn cael eu cyfarch drwy waith sydd eisoes wedi ei ddisgrifio yn y Cynllun Adran hwn.

Isod rydym yn rhestru'r blaenoriaethau lleol ochr yn ochr â'r rhaglen neu brosiect sydd wedi ei chynllunio er mwyn ymateb i'r angen lleol a sirol hwnnw.

| **Blaenoriaethau Lleol** | **Rhaglen** |
|---|---|
| Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr lleol ardaloedd Porthmadog, Ffestiniog a Phenllyn yn ôl yn haf 2017, nodwyd dyhead i ddenu mwy o swyddi tymor hir sy'n talu cyflogau da er mwyn gwella sefyllfa economaidd trigolion lleol. Mae'r flaenoriaeth Creu Swyddi Gwerth Uchel yn datblygu cyfleoedd newydd yn Nhrawsfynydd a Llanbedr fydd yn elwa'r cymunedau hyn. Yn ardal Porthmadog, nodwyd yn ogystal fod pryder ymysg y cynghorwyr lleol ynglŷn â chyflwr rhai safleoedd segur yn yr ardal ac mewn ymateb i hyn byddwn yn effro i unrhyw gyfleoedd i gefnogi gwella neu ailddefnyddio'r safleoedd. | • Swyddi Gwerth Uchel<br>• Hybu Canol Tref |
| Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr ardal Dolgellau daeth i'r amlwg fod cysylltedd gwael ffonau symudol a band eang yn llesteirio trigolion a busnesau'r ardal. Rydym yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i'r sir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn y maes drwy ddilyn egwyddorion Gwynedd Ddigidol. | • Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru<br>• Arloesi Gwynedd Wledig |
| Yn ardaloedd Dyffryn Ogwen a Dyffryn Nantlle, nododd y cynghorwyr lleol fod hyrwyddo ac adfywio'r stryd fawr yn flaenoriaeth leol, ac rydym wedi gwneud ceisiadau amlinellol ar gyfer peth gweithgaredd adfywio yn yr ardaloedd yma. | • Hybu Canol Tref |

| | |
|---|---|
| Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr ardal Bangor, nodwyd dyhead i wella edrychiad yr ardal leol ac i ymateb i siopau gwag, gan nodi dymuniad i gydweithio â phartneriaid megis busnesau lleol a Chynghorau Tref a Chymuned i greu incwm er mwyn cyfrannu at y gwaith. Gallai hyn yn ei dro gefnogi busnesau a chrefftwyr lleol. Rydym yn ystyried y cyfleoedd i adeiladu ar y gwaith a wneir eisoes ar y cyd ag Ardal Gwella Busnes Bangor a'n partneriaid yn lleol ac yn rhanbarthol er mwyn llunio ymateb. Mae arian grant ychwanegol i uchafu budd y Cynllun Benthyciadau di-log wedi ei sicrhau. | • Hybu Canol Tref |
| Mae cyswllt hefyd gyda'r flaenoriaeth sirol ar gyfer rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith. Dylai adfywio'r ardaloedd yma wella unrhyw ddelwedd negyddol sy'n deillio o fod yn ardaloedd ôl-ddiwydiannol gan ryddhau eu potensial. | • Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith |
| Yn ystod sesiwn ymgynghori yn ardal Ffestiniog fe ddaeth i'r amlwg fod pryderon ymysg cynghorwyr lleol ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Gymunedol a'r gwasanaethau a leolir yno. Cynhaliodd y tîm Adfywio arolwg diweddar ar adeiladau cyhoeddus ar hyd a lled Gwynedd. Dangosodd yr arolwg fod defnydd aneffeithiol yn cael ei wneud o nifer o adeiladau cyhoeddus ym Mlaenau Ffestiniog gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol. Mae cyfle yma, mewn cyfnod o gynni ariannol, i rannu adnoddau yn well i'r dyfodol. | • Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau |

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.

# Adran Tai ac Eiddo

**Mae'r Adran Tai ac Eiddo yn adran newydd a sefydlwyd yn ystod 2019 gyda'r nod o hwyluso gallu'r Cyngor i wynebu un o'r heriau mwyaf yn y Sir, sef sicrhau digon o dai pwrpasol a safonol i gyfarch anghenion poblogaeth sydd yn newid.**


Mae'r Adran hefyd yn gyfrifol am reoli asedau eiddo'r Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer darparu gwasanaethau i drigolion y sir.

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r Adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth ganlynol:

1) Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Sicrhau cymeradwyaeth i'r Cynllun Tai a dechrau gweithredu – (Blaenoriaeth Gwella 4)
2) Mynediad rhwydd a chlir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai: Sefydlu un drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn eu helpu gyda phroblemau tai - (Blaenoriaeth Gwella 4)
3) Gosod tai cymdeithasol i bobl leol: Creu polisi gosod newydd ar gyfer y sir fydd yn rhoi mwy o flaenoriaeth i bobl leol - (Blaenoriaeth Gwella 4)

## Materion Tai


Mae'r Cyngor yn defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru i hwyluso gallu'r Cymdeithasau Tai i adeiladu mwy o dai i bobl leol. Mae ein Cynllun Gweithredu Tai yn gosod her i geisio adeiladu 500 o dai cymdeithasol newydd erbyn 2026. Mae gennym bellach Bolisi Gosod Tai Lleol newydd felly bydd trigolion Gwynedd yn cael blaenoriaeth am denantiaeth yn y tai newydd hyn.




### Digartrefedd

Mae'r Gwasanaeth Digartrefedd yn darparu cyngor a chymorth i bobl sydd yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd. Mae'r tîm yn cyflawni dyletswydd statudol y Cyngor er mwyn cwrdd â gofynion y Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae eu gwaith yn cynnwys:

- helpu i atal digartrefedd cyn iddo ddigwydd
- asesu anghenion llety ac anghenion cefnogaeth unigolion a theuluoedd sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref
- helpu i ffeindio rhywle arall i fyw pan fo unigolyn neu deulu yn wynebu dod yn ddigartref
- darparu llety dros dro mewn achosion o argyfwng, a sicrhau llety ar gyfer y rhai sydd mewn blaenoriaeth angen.




## Llety Dros Dro




Mae'r gwasanaeth yn darparu nifer o lety dros dro nes bod eiddo parhaol ar gael i bobl ddigartref, gan gynnwys dwy hostel ym mherchnogaeth y Cyngor, 68 eiddo wedi eu prydlesu gan berchnogion preifat, a 31 eiddo wedi eu prydlesu gan Gymdeithasau Tai. Darparwyd llety ar gyfer 401 o deuluoedd/unigolion yn 2019/20. Mae'r niferoedd digartref wedi cynyddu'n gyson ers rhai blynyddoedd ac mae pwysau cynyddol ar y gwasanaeth i ddelio gyda'r angen i gartrefu pobl ar fyr rybudd.

## Cefnogaeth tenantiaeth




Gan fod nifer o bobl ddigartref yn fregus, darperir cefnogaeth i sicrhau fod unigolion yn gallu cynnal eu tenantiaeth ac osgoi dod yn ddigartref eto. Mae cymorth yn cael ei rhoi ar nifer o faterion megis hawlio budd-daliadau, cymorth ar gyfer cynnal a chadw llety, deall hawliau a chyfrifoldebau, a cheisio am grantiau ar gyfer dodrefnu eiddo.

## Cofrestr Tai Cymdeithasol



Mae'r tîm Opsiynau Tai Gwynedd yn gweinyddu'r Gofrestr Tai Cyffredin ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r darparwyr tai cymdeithasol yn y sir sef Adra, Grŵp Cynefin a Thai Gogledd Cymru. Prif nod y tîm ydi blaenoriaethu mynediad at dŷ cymdeithasol ar sail y mwyaf anghenus yn ein cymunedau ac i ddarparu cyngor i drigolion ar yr opsiynau tai



sydd ar gael yng Ngwynedd. Gyda chymorth Opsiynau Tai Gwynedd llwyddodd dros 690 o deuluoedd i gael tenantiaeth gymdeithasol newydd yn 2019/20.

## Cynllun ail leoli ffoaduriaid

Ers 2016 mae Gwynedd wedi cyfrannu at gynllun Llywodraeth y DU i Ailsefydlu Pobl Fregus o Syria. Ymrwymodd y Cyngor i groesawu a chartrefu hyd at 40 o unigolion oedd wedi gorfod ffoi o Syria yn dilyn y rhyfeloedd yno. Bellach rydym wedi cyflawni ein haddewid fel Cyngor ac yn ymfalchïo ein bod wedi gallu helpu 8 teulu i ymgartrefu yng Ngwynedd.

Yn sgil llwyddiant y cynllun hwn, mae'r Cyngor bellach wedi ymrwymo i groesawu hyd at 20 o ffoaduriaid mwyaf bregus sy'n cael eu hadnabod gan Uchel Gomisiwn Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig (UNHCR) fel rhan o'r cynllun Ffoaduriaid Byd Eang dros y tair blynedd nesaf.

## Safle teithwyr

Mae gofyn statudol ar bob Awdurdod Lleol i gwrdd â'r angen am safleoedd addas ar gyfer teithwyr. Mae safle pwrpasol yn cael ei rheoli gennym yn Llandygái ers blynyddoedd lawer ac yn dilyn derbyn cymorth grant gan Lywodraeth Cymru bu buddsoddiad o £1.8m yno yn ddiweddar i wella'r cyfleusterau ac ymestyn y ddarpariaeth i gwrdd â'r gofyn o fewn y sir.


## Gorfodaeth Tai



Pwrpas y Tîm Gorfodaeth yw sicrhau cartrefi safonol, cynnes a diogel i denantiaid o fewn y sir. Rydym yn gyfrifol am orfodi safonau mewn 9,000 o dai rhent preifat a 8,500 o dai cymdeithasol yng Ngwynedd.

Rydym hefyd yn gofalu am Gynllun Trwyddedu Tai Aml Ddaliadaeth (HMO's) sydd yn gwirio fod tai o'r fath yn cyrraedd y safonau disgwyliedig. Ar hyn o bryd mae 900 o dai aml ddeiliadaeth wedi derbyn trwydded gennym yn dilyn proses archwilio fanwl.

Mae'r Uned hefyd yn gweithio ar y cyd gyda Rhentu Doeth Cymru i gynnal cofrestr cenedlaethol o dai rhent, yn archwilio anheddau ar gyfer achosion y Swyddfa Gartref, delio gyda dros 300 o gwynion blynyddol yn ymwneud ag achosion o niwsans, ymdrin â phroblemau yn deillio o dai gwag ac yn ymdrin ag oddeutu 20 achos blynyddol o ddadfeddiannu anghyfreithlon.



## Addasiadau i Dai

Mae'r uned hon yn gyfrifol am hybu annibyniaeth a lles trigolion Gwynedd drwy ddarparu addasiadau prydlon a safonol i dai oedolion a phlant sydd ag anableddau corfforol. Buddsoddir oddeutu £1.3m y flwyddyn ar gynlluniau megis creu ystafelloedd ymolchi hygyrch, gosod rampiau y tu allan i'r tŷ, codi estyniadau ayb. Mae oddeutu 30 o'r rhain yn gyfeiriadau a dderbynnir gan ysbytai er mwyn galluogi i gleifion allu dychwelyd adref. Rydym hefyd yn ariannu oddeutu 900 y flwyddyn o fân addasiadau megis gosod canllawiau, rampiau symudol ac addasiadau bychain eraill.




Mae'r uned yn gweinyddu benthyciadau di-log ar gyfer atgyweirio tai mewn cyflwr gwael sydd mewn perchnogaeth trigolion ar incwm isel, mae galw sylweddol a chyson ar y benthyciadau hyn.


## Tai Gwag




Mae oddeutu 1,300 o dai gweigion yng Ngwynedd ar hyn o bryd, ac mae gennym rôl bwysig wrth geisio dod a'r tai yma yn ôl i ddefnydd er mwyn cyfrannu at y nifer o dai fforddiadwy sydd ar gael i bobl leol. Ers 2008 mae dros 600 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd drwy ddulliau megis cynnig grantiau i brynwyr tro cyntaf, darparu benthyciadau i landlordiaid a defnyddio pwerau gorfodaeth. Mae hyn wedi arwain at allu cartrefu dros 1,000 o bobl leol mewn tai oedd yn arfer bod yn wag ers peth amser. Yn ystod 2019/20 buom yn ffodus i ddenu grant ychwanegol ar gyfer dod a tai gwag yn ôl i ddefnydd sy'n egluro'r naid mewn niferoedd y flwyddyn hon.

## Tlodi Tanwydd

Mae rhan fwyaf o adnoddau'r Llywodraeth yn y maes yma'n cael ei gyfeirio tuag at y Cymdeithasau Tai ond mae'r Cyngor wedi gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr yn y maes pwysig yma hefyd. Mae gennym nifer o gynlluniau sy'n cael eu hariannu o wahanol ffynonellau gyda'r nod o gynorthwyo'r rhai sydd fwyaf tebygol o ddioddef o dlodi tanwydd.



# Materion Eiddo

**Pwrpas y Gwasanaethau Eiddo yw sicrhau fod gennym eiddo sy'n addas i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a rheoli'n asedau eiddo yn effeithiol ac effeithlon.**

Mae'r Cyngor yn berchen ar 965 o adeiladau wedi eu lleoli ar 477 o safleoedd ledled y sir. Mae'r rhain yn bennaf yn adeiladau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd ond rydym hefyd yn berchen ac yn defnyddio eiddo anweithredol i hyrwyddo amcanion y Cyngor e.e. datblygu'r economi, darparu gofal cymdeithasol ayb. Mae nifer o'r eiddo anweithredol yma'n cael eu prydlesu i fusnesau lleol a sefydliadau eraill, sydd yn creu incwm refeniw blynyddol o oddeutu £1.1m i'r Cyngor.

## Cynnal a Chadw



Mae'r uned Cynnal a Chadw adeiladau yn darparu desg gymorth 24/7 er mwyn delio gyda oddeutu 8,000 o alwadau y flwyddyn am waith trwsio adeiladau. Mae nifer o'r rhain yn alwadau am waith lle bo angen ymateb brys er mwyn osgoi cau adeilad.

Er mwyn cyflawni'r gwaith hwn rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o gontractwyr lleol ond rydym hefyd wedi datblygu tîm mewnol o grefftwyr sy'n gallu delio gyda gwaith adeiladu, gwaith coed, gwaith trydanol a gwaith plymio.

## Diogelwch Eiddo

Rydym yn sicrhau fod ein hadeiladau yn ddiogel i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd drwy sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r llu o gyfrifoldebau statudol a sicrhau fod gennym raglen cynnal a chadw effeithiol. Rydym yn rheoli risgiau asbestos, Clefyd y Lleng Filwyr, Radon a risgiau tân ac yn sicrhau fod systemau trydanol, nwy, olew, dŵr ayb yn ddiogel ar gyfer y miloedd o drigolion y sir sy'n treulio amser yn ein hadeiladau bob dydd.

## Datblygu Eiddo



Dyluniad cysyniadol o'r Ysgol newydd yng Nghricieth fydd yn agor ym Medi 2023


Pwrpas yr uned yw datblygu adeiladau newydd neu addasu ac adnewyddu adeiladau presennol i wella'r gwasanaeth a roddir i drigolion Gwynedd.

Drwy gydweithio'n agos gyda'r Tîm Moderneiddio Addysg bu i'r Uned Datblygu Eiddo gwblhau rhaglen £60m o adeiladau ysgol newydd dros y 7 mlynedd ddiwethaf a bellach mae rhaglen newydd £47m wrthi'n cael ei datblygu ar gyfer y pedair mlynedd nesaf.

Mae'r tim hefyd wrthi'n cyflawni rhaglen o welliannau ac estyniadau i gartrefi gofal y sir ynghyd â rhaglen o unedau blynyddoedd cynnar i gyfarch yr angen mewn nifer o gymunedau unigol ledled Gwynedd. Yn ogystal, mae'r tîm wedi dechrau cyflawni rhaglen o ddatblygiadau'r Cynllun Gweithredu Tai, sy'n ymateb i angenion tai pobl Gwynedd.

## Rheoli Stadau

Ein pwrpas yw sicrhau fod y Cyngor yn derbyn y gwerth gorau wrth reoli ei bortffolio asedau eiddo a sicrhau mai dim ond yr asedau hynny sydd wirioneddol eu hangen arnom sydd yn cael eu cadw. Dros y degawd diwethaf rydym wedi gallu lleihau maint stad eiddo'r Cyngor dros 25% gan sicrhau fod ein gwariant ar gynnal a darparu adeiladau cyn lleied â phosib er mwyn rhyddhau adnoddau ariannol ar gyfer darpariaeth gwasanaethau rheng flaen. Bydd hyn yn parhau pan fydd cyfleon yn codi ond byddwn hefyd yn ystyried unrhyw asedau nad oes bellach eu hangen i wireddu cynnwys y Cynllun Gweithredu Tai.




Y Tîm Stadau sydd hefyd yn gyfrifol am reoli holl brydlesi'r Cyngor gan gynnwys y Stâd Manddaliadau a'r portffolio Eiddo Diwydiannol gan gynnwys Canolfannau Menter Intec ac Mentec gan greu incwm rhent blynyddol o dros £1.1m.

## Rheoli Swyddfeydd



Mae'r Tîm Swyddfeydd yn darparu gofod swyddfa ar gyfer oddeutu 1,500 o staff mewn 7 adeilad sylweddol, gan gynnwys yr holl wasanaethau perthnasol y mae hynny yn ei olygu fel gofalu, glanhau a threfniadau diogelwch ar gyfer yr adeiladau a'u defnyddwyr. Rydym hefyd yn gosod gofod swyddfa i denantiaid allanol.




## Gwasanaeth Glanhau

Rydym hefyd yn darparu **gwasanaeth glanhau** ar gyfer nifer sylweddol o adeiladau amrywiol a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau rheng flaen y Cyngor. Rydym hefyd yn ddarparwr i sefydliadau allanol.

## Uned Cadwraeth Ynni

Yn dilyn mabwysiadu ein Cynllun Rheoli Carbon, mae'r Tîm Ynni yn gweithredu nifer o brosiectau i **leihau allyriadau carbon**. Ers mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Carbon yn 2010, rydym wedi llwyddo i leihau'r allyriadau carbon o'n gweithgareddau 46.6%. Mae gwaith y tîm i leihau ein defnydd wedi creu

arbedion refeniw blynyddol o dros £1.1m i'r Cyngor. Rydym wedi cychwyn y gwaith o adnabod sut allwn ni gyfrannu ymhellach tuag at ddyhead y Cyngor i wynebu'r argyfwng hinsawdd.




Mae'r Uned Cadwraeth Ynni wedi llwyddo i sefydlu fframwaith prynu ynni, sy'n ein galluogi i sicrhau pris rhatach am ein trydan a nwy. Drwy wneud hyn rydym yn arbed oddeutu £200,000 dros bum mlynedd.

Mae rhaglen i godi ymwybyddiaeth ymysg plant ysgol wedi bod yn rhan bwysig o'r gwaith hwn gan ddefnyddio cymeriadau megis Sbarci a Fflic. [www.sbarciafflic.org](http://www.sbarciafflic.org)



## Rheoli Pla a Wardeiniaid Cŵn



Rydym yn cynnig gwasanaeth rheoli a difa pob math o bla drwy gontractau a thrwy ymateb i alwadau dyddiol gan y cyhoedd am gymorth i reoli pla yn eu cartrefi neu fusnesau.

Rydym hefyd yn cyflawni'r gwasanaeth statudol i ofalu am gŵn strae.



## Teleofal



Rydym yn darparu gwasanaeth gosod a chynnal a chadw offer Teleofal i drigolion Gwynedd. Mae hwn yn wasanaeth poblogaidd tu hwnt gan unigolion bregus a'u teuluoedd gyda'r defnydd o Dechnoleg Gynorthwyol yn galluogi i bobl barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartref.

Mae gwaith yr adran hon yn cyfrannu tuag at rai o Amcanion Llesiant Gwynedd ,gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.

# Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)

**Mae Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn gweithredu fel adran fasnachol sy'n dod ag incwm i'r Cyngor, tra hefyd yn ymgymryd â swyddogaethau statudol ym maes dŵr a rheoli llifogydd. Drwy gyfuno'r masnachol a'r statudol mae YGC yn gallu cynnal swyddi safon uchel wrth gadw arbenigedd o fewn y sir. Mae'r Adran yn arbenigo mewn meysydd peirianyddol, adeiladu a newid hinsawdd mewn perthynas â llifogydd ac erydiad arfordirol.**

## Dŵr a Llifogydd

**O ganlyniad i Newid Hinsawdd, mae bygythiadau erydiad arfordirol a llifogydd yn gwaethygu. Ein bwriad yw, lle yn bosib, i reoli a lleihau effeithiau'r bygythiadau hyn ar bobl Gwynedd. Mae hefyd deddfwriaethau cenedlaethol sy'n gosod cyfrifoldebau statudol ar y Cyngor.**

### Blaengynllunio ac Adnabod Risg

Yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), mae'n hanfodol ein bod yn blaengynllunio i gadw'n cymunedau yn ddiogel, yn iach ac yn hyfyw i'r dyfodol. Mae newid hinsawdd yn creu heriau penodol, ac mae'r maes llifogydd wedi'i gydnabod fel maes blaenoriaeth yn rhyngwladol.

Er mwyn blaengynllunio am yr heriau hyn, rydym yn mynd ati i greu darlun o berygl llifogydd ar draws Gwynedd drwy ddadansoddi'r data sy'n cael ei gasglu gennym; yn ogystal â data allanol swyddogol arall megis rhagolygon hinsawdd a lefelau'r môr. Hyn oll sydd, wedyn, yn sail i'n Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn annog cydweithrediad rhwng y Cyngor cyfan a rhanddeiliaid amrywiol (megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, a'n cymunedau) i sicrhau ein bod yn cymryd pob cyfle posib i gydweithio ac addasu i amddiffyn rhag llifogydd. Mae ceisiadau grant llwyddiannus yn sicrhau buddsoddiad yn isadeiledd Gwynedd sy'n cynyddu gwytnwch ein cymunedau yn wyneb risgiau llifogydd. Rydym wedi adnabod bod angen cefnogaeth barhaus ymhob cymuned er mwyn sicrhau gwytnwch cynaliadwy i liniaru'r risgiau yma i'r dyfodol.

Isod, fe welwch grynodeb o'r gwaith casglu data sy'n bwydo i mewn i'r gwaith hwn.

**Archwiliadau i Achosion o Lifogydd**



Mae ymchwilio i ddigwyddiadau o lifogydd yn ddyletswydd arnom o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Ers i'r Ddeddf ddod yn weithredol yn 2010 mae YGC wedi ymchwilio i 42 digwyddiad o lifogydd mewnol bob blwyddyn, ar gyfartaledd. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth wrth ddarganfod diffygion, neu dderbyn unrhyw bryderon gan drigolion Gwynedd sy'n gysylltiedig â llifogydd. Ein nod yw ymateb i'r rhain yn yr amser byrraf posib.

**Cynnal a Chadw Asedau Atal Llifogydd**



21 km

o amddiffynfeydd arfordirol yn cael eu cynnal

Rydym yn gyfrifol am gynnal 229 o asedau arfordirol sy'n ymestyn ar hyd 21km o amddiffynfeydd arfordirol, a 52 o asedau sy'n rheoli'r risg o lifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin. Mae arolygu a chynnal yr asedau hyn yn hanfodol wrth warchod cymunedau Gwynedd. Rydym yn rhoi sgôr o 1 i 5 (gydag 1 yn golygu 'fel newydd') i bob ased, ac yn gosod targed cyflwr i bob un. Ein nod yw i bob ased yng Ngwynedd gyrraedd ei darged cyflwr i sicrhau eu bod yn lliniaru risgiau llifogydd i bobl Gwynedd. Rydym hefyd yn cynnal ac yn gweithredu rhaglen fonitro arfordirol sy'n asesu newidiadau i'r arfordir. Bydd hyn, oherwydd effaith newid hinsawdd, yn effeithio ar ein cymunedau arfordirol fwyfwy yn y blynyddoedd i ddod.

## Ein Rôl yn y Drefn Gynllunio

Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Llifogydd Arweiniol Lleol, ac felly mae gan YGC rôl i atal datblygiadau a gweithgareddau a allai gyfrannu at berygl llifogydd. Mae'r rhain yn bennaf yn cynnwys:

- Rhoi cyngor ar geisiadau cynllunio o ran risg llifogydd dŵr wyneb.
- Cyngor i'r gwasanaeth cynllunio.
- Cynghori ar waith mewn cyrsiau dŵr a chaniatáu ceisiadau perthnasol - ar gyfartaledd yn flynyddol, rydym yn derbyn 50 cais sy'n cael effaith ar neu yn rhwystro'r llif mewn cwrs dŵr cyffredin. Rydym yn sicrhau bod y gwaith adeiladu'n cael ei wneud mewn modd sydd â'r effaith lleiaf posib i berygl llifogydd a'r amgylchedd. Mae gofyniad statudol arnom i ymateb mewn 28 diwrnod, ond y nod ym mhob achos yw cymeradwyo ceisiadau cyn gynted ag y bo modd.

## Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy

Ers Ionawr 2019 mae angen i fathau penodol o ddatblygiadau dderbyn caniatâd Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS). Cyn cychwyn adeiladu, mae angen i ddatblygwyr ystyried sut y byddent yn rheoli dŵr ar y safle, er mwyn sicrhau ansawdd y dŵr a lleihau'r risg o lifogydd i'r dyfodol.

Rydym yn gorff cymeradwyo SuDS ac yn cynnig cymorth cyn cais i helpu datblygwyr i gwrdd â'r gofynion.

**Yn 2021/22, byddwn yn:**

- **Parhau i ddatblygu cynlluniau er mwyn denu buddsoddiadau i liniaru risgiau llifogydd i drigolion Gwynedd.**

# Gwasanaethau Ymgynghorol



**Mae YGC yn dylunio a rheoli prosiectau sy'n ymwneud â ffyrdd, strwythurau, adeiladau ac ati yng Ngwynedd a thrwy Gymru. Rydym yn creu a chynnal swyddi o ansawdd na fyddent yn y sir fel arall, a thrwy ddenu ffioedd am ein gwaith rydym yn cyfrannu tuag at gostau cynnal Cyngor Gwynedd.**

Rydym yn darparu gwasanaethau ymgynghorol amrywiol yn y meysydd isod:

- adeiladu ac isadeiledd,
- dŵr ac amgylchedd,
- technegol, a
- busnes a rheoli prosiectau.

## Perfformiad Cyllidol

| 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| Trosiant: **£5.5m** | Trosiant: **£5.3m** | Trosiant: **£5.3m** | Trosiant: **£6m** |
| Elw **+£96k** *uwchben y targed* | Elw **+£81k** *uwchben y targed* | Elw **+£59k** *uwchben y targed* | Elw **+£11k** *uwchben y targed* |

Fel rhan o'r gwasanaethau yma, gallwn wneud gwaith pensaernïol, syrfeio, dylunio, archwilio ac asesu, modelu hydroleg, geodechnegol a llawer mwy.

Mae'r gwaith yma'n chwarae rôl hanfodol yn ein gallu i wireddu ein gofynion statudol mewn perthynas â llifogydd ac erydiad arfordirol. Mae ein gallu i ddenu ffioedd am ein gwaith ymgynghorol yn ein galluogi i adeiladu arbenigedd technegol a gwyddonol o fewn y Cyngor, a dal ein gafael ar yr arbenigedd hwnnw.

Yn ei dro, mae'r arbenigedd yma'n darparu'r seiliau i ni allu denu grantiau'n llwyddiannus drwy ddatblygu cynlluniau gwaith rheoli risg llifogydd sy'n arloesol ac yn gynaliadwy. Mae'r gwasanaethau ymgynghorol felly yn allweddol i'n caniatáu ni i warchod pobl Gwynedd yn wyneb effeithiau newid hinsawdd.

**Yn 2021/22 byddwn yn canolbwyntio ar ychwanegu i'n rhestr o gleientiaid er mwyn cynyddu'r buddsoddiad rydym yn ei ddenu tra hefyd yn ymestyn yr amrediad o wasanaethau proffesiynol y gallwn eu cynnig.**

Mae gwaith dydd i ddydd yr adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.

# Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

**Mae'r adran yn atgyfnerthu gallu'r Cyngor i ddarparu'r gorau i drigolion Gwynedd trwy gyfuniad o wasanaethau cefnogol, arbenigol a rheng-flaen. Mae hyn yn rhoi cyfle i weddill y Cyngor ganolbwyntio ar y gwasanaethau eraill a ddarperir yn uniongyrchol i'r cyhoedd.**

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth gwella canlynol:

- Cadw'r Budd yn Lleol – (Blaenoriaeth Gwella 1)
- Merched mewn Arweinyddiaeth – (Blaenoriaeth Gwella 3)
- Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb (Sicrhau Tegwch i Bawb) – (Blaenoriaeth Gwella 3)
- Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig – (Blaenoriaeth Gwella 5)
- Hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau'r Cyngor – (Blaenoriaeth Gwella 5)
- Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus – (Blaenoriaeth Gwella 5)
- Sicrhau fod rheolwyr yn arddel eu rôl Iechyd a Diogelwch yn effeithiol – (Blaenoriaeth Gwella 7)
- Cynllunio'r Gweithlu – (Blaenoriaeth Gwella 7)
- Gweithredu rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd (Arfogi unedau i roi 'Ffordd Gwynedd' ar waith) – (Blaenoriaeth Gwella 7)

## Cyswllt Cwsmer

Mae Galw Gwynedd, o'i ganolfan ym Mhenrhyndeudraeth, yn ymateb i alwadau ffôn, negeseuon e-byst a cheisiadau am wasanaeth ar-lein ar ran gwasanaethau'r Cyngor. Mae Siop Gwynedd yn Nolgellau, Pwllheli a Chaernarfon yn gweithredu fel siop-un-stop a derbynfa i'r un pwrpas, yn ogystal â gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y Gwasanaethau Trethi a Budd-dal.

**Ateb galwadau ffôn, ar gyfartaledd o fewn 49 eiliad**

Derbynnir tua 190,000 galwad ffôn yn Galw Gwynedd bob blwyddyn, a daw o leiaf 20,000 o ymwelwyr i Siopau Gwynedd yn flynyddol.

I'r dyfodol byddwn yn:

- adolygu a chyflwyno trefniadau newydd i'r gwasanaeth switsfwrdd er mwyn gwella gwasanaeth i gwsmeriaid,

- ail-strwythuro er mwyn sicrhau y gellir darparu yr ystod llawn o wasanaethau ymhob un o'n Canolfannau Cyswllt Cwsmer,
- datblygu'r defnydd presennol o "web-chat" ac ymestyn y gefnogaeth i ddefnyddwyr ein gwasanaethau ar-lein.


## Cofrestru



Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth cofrestru o bedwar lleoliad ar draws y sir.

Cofrestrwyd dros 5,600 o briodasau, partneriaethau sifil, genedigaethau a marwolaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a derbyniwyd dros 3,000 o geisiadau am dystysgrifau. I'r dyfodol byddwn yn:

- datblygu hunan wasanaeth ar gyfer ceisiadau am dystysgrifau,
- cryfhau ein trefniadau parhad gwasanaeth.




## Cyfathrebu ac Ymgysylltu




Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn hwyluso deialog ddwyffordd gyda phobl Gwynedd, staff a chynghorwyr.

Mae'r cyfathrebu yma yn cynnwys cynnal perthynas ragweithiol gyda'r cyfryngau, cynnal gwefan a chyfrifon gwefannau cymdeithasol y Cyngor, cyhoeddi Newyddion Gwynedd, cydgordio cyfleoedd i bobl Gwynedd leisio barn ar waith y Cyngor a chynnal trefniadau cyfathrebu mewnol y Cyngor.

I'r dyfodol byddwn yn:

- gwella'r drefn o adnabod a blaenoriaethu'r prif negeseuon a'r prif faterion er mwyn sicrhau bod pobl Gwynedd yn derbyn yr wybodaeth maent ei angen
- ymgymryd â gwaith datblygu i sicrhau bod gwefan y Cyngor yn parhau i gwrdd ag anghenion pobl Gwynedd
- cryfhau ac ymestyn ein trefniadau cyfathrebu mewnol.



## Cefnogi Busnes y Cyngor

Mae'r gwasanaeth hwn yn cydlynu trefniadau ar gyfer cyhoeddi Cynllun y Cyngor, Cynllun Cydraddoldeb ac adroddiadau perfformiad y Cyngor yn ogystal â darparu cefnogaeth weithredol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, cynghori ar drefniadau prosiect a rheoli prosiectau, adolygiadau gwasanaeth ac ymchwiliadau craffu. Byddwn yn helpu gwasanaethau'r Cyngor i roi ystyriaeth deg i gydraddoldeb a hawliau pob unigolyn, ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cynorthwyo swyddogion a chynghorwyr i herio cynlluniau ac arferion gwaith.

Elfen arall o waith y gwasanaeth yw cefnogi gwaith y *Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus* lle mae cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn yn ogystal â'r Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cydweithio er mwyn gwella lles trigolion mewn sawl maes.

I'r dyfodol byddwn yn:

- gweithredu ar y rhaglen waith o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 er mwyn sicrhau fod cydraddoldeb wedi'i wreiddio yn holl waith y Cyngor
- adolygu a diweddaru'r asesiadau llesiant a gyhoeddwyd ar gyfer yr 14 ardal llesiant sydd yng Ngwynedd a Môn.

## Ymchwil a Gwybodaeth

Er mwyn i bob gwasanaeth yn y Cyngor fod yn gweithio'n llwyddiannus yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd maent angen deall beth ydi anghenion eu cwsmeriaid, yn gallu mesur os ydyn nhw'n cyflawni yr hyn sy'n bwysig i'w cwsmeriaid, ac yn gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth o'r effaith ar bobl Gwynedd. I wneud hyn i gyd mae gwybodaeth – ei gasglu, ei gadw, a'i ddadansoddi – yn hollbwysig. Mae'r gwasanaeth yma i gefnogi gwasanaethau'r Cyngor i wneud hyn.

Gan bod cymaint o wybodaeth yn cael ei ddal ar gyfer darparu gwasanaethau'r Cyngor, yn cynnwys gwybodaeth am bobl, mae angen gwneud yn siŵr fod y trefniadau ar gyfer creu, cadw, rhannu a defnyddio'r wybodaeth yma yn gweithio'n iawn ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth.

I'r dyfodol byddwn yn:


- cydweithio hefo'r Gwasanaeth Cefnogi Busnes i wella'r dystiolaeth sydd ar gael i wasanaethau'r Cyngor ynglŷn â natur ac anghenion ardaloedd lleol yng Ngwynedd
- datblygu'r wybodaeth a dadansoddiadau mae rheolwyr y Cyngor yn ei gael ynglŷn â'u gweithlu a gwneud yr wybodaeth yma yn haws i gael mynediad ato
- gwneud y mwyaf o botensial system rheoli dogfennau a chofnodion newydd y Cyngor (iGwynedd), gan helpu gwasanaethau i ddatblygu pethau sy'n hwyluso ffyrdd o weithio a dileu camau diangen
- sicrhau bod trefniadau ac arferion gwaith cadw a rhannu gwybodaeth yn sicrhau bod y defnydd o ddata yn ddiogel ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar bob adeg.

## Caffael

Mae'r Cyngor yn gwario dros £118m y flwyddyn ar gaffael, neu brynu, gwahanol nwyddau a gwasanaethau o gyllidebau refeniw. Yn 2019/20, roedd pryniant o nwyddau a gwasanaethau lleol gyfwerth â £71m i'r economi leol.

I'r dyfodol byddwn yn:

- cryfhau a datblygu'r arbenigedd caffael o fewn y Cyngor ac adolygu'r hyn yr ydym yn ei brynu ar hyn o bryd
- mabwysiadu'r arfer orau yn y maes a chyflwyno cynlluniau pellach i gefnogi'r farchnad
- datblygu'n systemau pwrcasu electroneg er mwyn ymateb i ofynion newydd.




## Democratiaeth ac Iaith


Mae'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith yn gyfrifol am dri maes penodol, sef democratiaeth, cyfieithu ac iaith. Rydym yn gyfrifol am gynnal y drefn bwyllgorau a chynnig cefnogaeth amrywiol i'r 75 cynghorydd.

Iaith weithredol y Cyngor yw'r Gymraeg, ond mae holl wasanaethau'r Cyngor ar gael i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Felly rydym yn hybu ac yn galluogi'r defnydd o'r Gymraeg trwy'n holl wasanaethau. Cefnogir hyn trwy ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar bapur ac ar lafar i staff, cynghorwyr a thrigolion y sir.

Mae'r Cyngor eisiau gweld sefyllfa lle mae Gwynedd yn parhau i fod yn gadarnle i'r iaith a'i bod yn iaith bob dydd sydd yn cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion ar draws y sir.

I'r dyfodol byddwn yn:

- adeiladu ar y trefniadau mynychu o bell a gwe ddarlledu pwyllgorau presennol
- adolygu sut yr ydym yn hybu'r Gymraeg yn y gymuned
- hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg.



## Gwasanaeth Cefnogol



Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn darparu cymorth gweinyddol megis trefnu penodiadau, archebu nwyddau, argraffu, talu biliau a dosbarthu post i staff y Cyngor.

Yn 2019/20, mae'r gwasanaeth wedi canolbwyntio ar symleiddio trefniadau gweinyddol, lleihau gwaith papur diangen a galluogi staff a rheolwyr i gael mynediad at wasanaeth a gwybodaeth yn uniongyrchol ac yn amserol.

I'r dyfodol byddwn yn:

- mewnosod trefniadau recriwtio a phenodi er mwyn lleihau gweinyddiaeth fewnol a hefyd hwyluso'r dasg i unigolion wrth ymgeisio am swydd efo'r Cyngor
- newid y drefn o gyfathrebu a gweinyddu trwy bapur i fod yn gweithio'n electroneg.

## Cynlluniau Argyfwng

Mae gan y Cyngor rôl i baratoi cynlluniau ar gyfer ymdrin ag argyfwng ac i gydweithio efo'r gwasanaethau brys, asiantaethau a gwirfoddolwyr er mwyn gofalu am les y cyhoedd. Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu'r rôl allweddol honno fwy nag erioed o'r blaen.

Mae darparu cyfleusterau bwyd a gorffwys, llety dros-dro a diogelwch ffyrdd yn enghreifftiau amlwg o'r cyfrifoldebau penodol sydd gan y Cyngor wrth ymateb i amrywiol argyfyngau.

Mae'r Grŵp Gweithredol Cynlluniau Argyfwng, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob Adran, yn cyd-gordio trefniadau i baratoi ar gyfer argyfyngau tra bo Grŵp Strategol, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Corfforaethol, yn cadw trosolwg ac yn herio'r trefniadau hynny yn ôl yr angen. Cefnogir hyn oll gan y Gwasanaeth Cynlluniau Argyfwng Rhanbarthol sydd wedi'i gytundebu i ddarparu'r arweiniad arbenigol yn y maes hwn.

I'r dyfodol byddwn yn:

- adolygu a chryfhau ein trefniadau parhad gwasanaeth gan gynnal ymarferion lleol i sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn effeithiol i'r amrywiol argyfyngau a wynebir .

## Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol



Mae'r tîm o ymgynghorwyr a swyddogion adnoddau dynol yn gyfrifol am gynghori rheolwyr a phenaethiaid ysgolion ar ystod eang o faterion cyflogi staff. Mae hynny'n cynnwys dehongli yr amodau gwaith, materion cyflog cyfartal, ailstrwythuro neu dorri ar wasanaethau, ymdrin â disgyblaethau a chwynion, rheoli absenoldebau a chynllunio'r gweithlu. Mae'r gwasanaeth hefyd yn arwain ar raglen sy'n canolbwyntio ar adolygu a datblygu amodau gwaith y Cyngor ac yn chwarae rôl ganolog mewn cynnal perthynas waith adeiladol efo'r undebau llafur.

I'r dyfodol byddwn yn:

- datblygu a gweithredu model busnes y gwasanaeth, fel bo'r pwyslais cynyddol ar roi cyngor a chefnogi rheolwyr i gymryd perchnogaeth o faterion cyflogaeth dydd i ddydd
- gweithredu rhaglen o adolygu a datblygu'r amodau gwaith lleol fel eu bod nhw'n adlewyrchu a chefnogi'r ffordd y mae'r Cyngor am i'w staff weithio.

## Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant



Mae'r gwasanaeth yn cyflawni rôl statudol o roi cyngor cymwys i'r cyflogwr ar faterion iechyd, diogelwch a llesiant. Mae hyn yn cynnwys cynghori ar safonau cyfreithiol ym maes diogelwch, ymchwilio i ddamweiniau a digwyddiadau eraill, monitro, archwilio a chynnal rhaglen hyfforddi.

Yn ychwanegol, rydym yn cefnogi staff trwy gyfnodau o absenoldebau, yn rhoi cyngor i reolwyr ar iechyd eu staff ac asesu addasrwydd i weithio yn dilyn anaf neu salwch, yn sgrinio iechyd gweithwyr, yn cynnal gwyliadwriaeth iechyd ar staff yn ogystal â chynllunio a gweithredu rhaglen hybu iechyd a llesiant.

I'r dyfodol byddwn yn:

- prif ffrydio iechyd a llesiant meddyliol o fewn y gweithlu, gan godi ymwybyddiaeth ac arfogi staff ar draws y Cyngor ac hyrwyddo diwylliant o rannu profiadau a chefnogi unigolion

- datblygu a gweithredu model busnes newydd ar gyfer y gwasanaeth er mwyn annog perchnogaeth yn y gwasanaethau o faterion iechyd a diogelwch dydd i ddydd o fewn y Cyngor gan flaenoriaethu adnodd ar gyfer y risgiau uchaf.




## Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

Mae'r gwasanaeth yn cynnig cefnogaeth dysgu a datblygu arloesol a pherthnasol, drwy ymgynghori ac ymateb i anghenion unigolion a thimau, helpu i ddatblygu diwylliant ac awyrgylch waith a buddiannau fel bod pawb yn rhoi o'u gorau, helpu gwasanaethau i adnabod cyfleoedd i wella a datblygu talent i lenwi bylchau'r dyfodol.

Darperir rhaglenni *Dysgu a Datblygu* i staff (ar bob lefel) ac Aelodau Etholedig, sy'n cynnwys datblygu'r arweinyddiaeth. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau a swyddogion i sicrhau perthnasedd ac ansawdd yr arlwy, i 'lenwi bylchau' yn y ddarpariaeth a theilwra teitlau i gyfarfod eu hanghenion. Mae'r gwasanaeth yn hybu a chefnogi unigolion i gymryd perchnogaeth dros eu dysgu eu hunain, a chynigir amrediad o ddulliau dysgu sy'n cynnwys y 'traddodiadol' yn ogystal â dulliau arloesol megis *cymhelliant a mentora* a dysgu trwy brofiad.

Mae pwyslais arbennig ar ddatblygu dulliau dysgu o bell ('rhithiol'), ac mae'r rhaglen ddysgu yn adlewyrchu hyn, gyda mwy gyfleon dysgu yn cael eu hychwanegu'n rheolaidd.

Amcan y gwaith *Datblygu'r Sefydliad* yw meithrin ymddygiadau a diwylliant sy'n creu a chynnal awyrgylch waith lle mae staff ar eu gorau i wasanaethu pobl Gwynedd. Mae rhoi llais i staff, gyda chyfle i gyfrannu barn a syniadau yn rhan allweddol o hyn tra bo ffocws hefyd ar ddatblygu gweithlu'r dyfodol trwy gynlluniau *Adnabod a Datblygu Talent*. Cynigir amrediad cynyddol o fuddiannau sydd yn cyfrannu at lesiant a bodlonrwydd staff.

Elfen bwysig arall yw *Gwella Gwasanaeth* drwy ymateb yn gadarnhaol i gwynion, gan hwyluso trefniadau i wasanaethau gymryd perchnogaeth drostynt, a dysgu ohonynt. Hefyd i ddathlu llwyddiannau.

I'r dyfodol byddwn yn:

- datblygu ac ymestyn y ddarpariaeth dysgu o bell
- cyfrannu at gynllun i sicrhau bod holl staff y Cyngor yn meddu ar sgiliau technoleg gwybodaeth briodol er mwyn defnyddio systemau hunan-wasanaeth a manteisio ar y ddarpariaeth dysgu
- ymestyn y gwaith (ymgynghorol ac ymarferol) i gefnogi adrannau i ddatblygu timau a sgiliau arwain
- datblygu a chydgordio amrediad o becynnau cefnogol i helpu staff a rheolwyr ymdopi.

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

# Adran Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)

**Bwriad yr Adran Cyllid yw cyfrannu at gyflawni'r nod o geisio'r gorau i bobl Gwynedd mewn cyfnod anodd drwy:**

- **sicrhau'r gefnogaeth briodol i weithrediad busnes y Cyngor a'i wasanaethau wrth reoli, gwarchod a datblygu ei sefyllfa ariannol, er mwyn sefydlu cymuned gynaliadwy mewn modd agored, ymatebol a blaengar**
- **sicrhau arweiniad cefnogol proffesiynol a thechnoleg o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol y Cyngor ac annog mentergarwch**
- **darparu gwasanaethau rheng-flaen (fel casglu refeniw a thalu budd-daliadau) o ansawdd addas i'r cwsmer, gan ddarparu tegwch i bobl a chymunedau, a rhoi ffocws ar drigolion.**


Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiect blaenoriaeth gwella canlynol:

- Trosglwyddiad unedau gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes: pwyso am newid deddfwriaeth perthnasol – (Blaenoriaeth Gwella 4)

## Gwasanaeth Budd-daliadau

Mae'r Cyngor yn gweinyddu cymorth budd-daliadau i tua 7,500 o denantiaid i dalu eu rhent, ac i tua 10,000 o unigolion, cyplau neu deuluoedd i dalu eu bil Treth Cyngor, gan anelu i wneud hynny'n brydlon a chywir.

Fe welir o'r graff bod y nifer o ddiwrnodau mae'n ei gymryd i dalu wedi lleihau yn 2019/20 ar ôl ychydig flynyddoedd o gynyddu'n raddol. Mae hyn yn ganlyniad ymdrechion parhaus i adolygu trefniadau gwaith.





***Bydd 2021/22 yn flwyddyn allweddol wrth i Lywodraeth y DU gynnal adolygiad cynhwysfawr o drefniadau ariannol. Byddwn yn lobïo'r Llywodraeth fod lefel y galw am wasanaeth gan y Cyngor am barhau'n uwch na'u rhagdybiaethau. Er fod awdurdodau lleol wedi colli'r grant 'sybsidi' roedd yn ariannu cefnogaeth i gyllidebu personol a chefnogaeth ddigidol, disgwylir i ymholiadau gan y cyhoedd barhau.***

***Ar y cyfan, mae trefniadau yn gweithredu'n llyfn ac felly mae'r tebygolrwydd o ddirywiad yn y gwasanaeth a roddir gan y Cyngor yn gymharol isel erbyn hyn. Rydym hefyd wedi lobïo'r Llywodraeth, ac wedi llwyddo i'w argyhoeddi eto i gynnal yr elfen wledig o Daliadau Tai Dewisol, fydd yn gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i bobl Gwynedd yn 2021/22.***

## Gwasanaeth Trethi

Heb Dreth Cyngor a Threthi Busnes, ni fyddai'n bosib i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau. Mae'r gwasanaeth yma yn gweinyddu a chasglu Treth Cyngor dros 61,500 eiddo, a Threth Busnes (Treth Annomestig) tua 8,000 eiddo busnes yn y ffordd fwyaf prydlon ac effeithlon bosib, gan gynnwys gweinyddu'r amrywiaeth o ddisgowntau, eithriadau a chynlluniau rhyddhad sydd ar gael.




Ar ôl ychydig o flynyddoedd o ostyngiadau ymylol yn y gyfradd gasglu Treth Cyngor, arhosoddd y gyfradd yn lled gyson yn 2019/20.


Deallwn yn iawn nad yw hi'n hawdd i bawb dalu'r trethi yma, ac yng nghyd-destun cyfyngiadau'r pandemig bydd y gyfradd gasglu yn gostwng eto yn 2020/21. Ar ôl atal trefniadau adennill am 3 mis yn Mawrth i Mehefin 2020, mae'r gwasanaeth Trethi yn hyblyg (e.e. annog trefniadau a chytundebau talu) a chydymdeimladol i amgylchiadau unigolion. Mae staff Trethi'r Cyngor yn ceisio cymell unigolion i ofyn am gyngor ar gyllido personol a chyngor dyledion ehangach.

***Mae trosglwyddiad unedau gwyliau o'r drefn Treth Cyngor i drethi annomestig yn parhau'n risg ariannol. Yn 2021/22 byddwn yn anelu i gyfarfod gyda'r Gweinidog er mwyn rhoi pwysau ar y Llywodraeth i newid deddfwriaeth yn ymwneud â thai haf ac unedau gwyliau, ac yn cynnal ymgyrch ehangach i hyrwyddo deddfwriaeth addas.***

## Gwasanaeth Incwm

Mae'r Cyngor yn derbyn incwm (e.e. grantiau, taliadau am wasanaeth) o bob math, ac mae'r Gwasanaeth Incwm yn prosesu'r incwm yma, gan gasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn gwneud yn fawr o'r incwm. Mae'r gwasanaeth yn ystyried anghenion adrannau'r Cyngor a gweithredu'n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr wrth gyflawni ei waith.

***Roedd ffigwr y dyledwyr dros 6 mis oed ar 31 Mawrth 2020 yn uwch nag ar y dyddiad cyfatebol mewn blynyddoedd blaenorol, yn rhannol oherwydd cyfyngiadau'r pandemig.***



**% Anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod**



**2019/20**
**92%**



**2018/19**
**90%**



**2017/18**
**87%**

## Gwasanaeth Taliadau

Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am dalu credydwyr y Cyngor yn gywir ac ar amser. Mae dros 105,000 o anfonebau yn cael eu talu'n flynyddol, gyda 92% ohonynt wedi'u talu o fewn 30 diwrnod ar gyfartaledd, gan anelu i dalu cyflenwyr lleol yn brydlon.


***Mae'r gwasanaeth wedi symud i drefn o dderbyn anfonebau yn electroneg, gyda dros 95% o'n taliadau bellach yn daliadau trwy'r banc, yn hytrach na thrwy sieciau.***

## Gwasanaeth Cyflogau

Mae dros 7,200 o unigolion gwahanol yn gweithio i'r Cyngor er mwyn ei alluogi i wasanaethu ar ran pobl Gwynedd, a phwrpas y Gwasanaeth Cyflogau ydi sicrhau eu bod yn cael eu talu yn gywir ac ar amser. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC).

## Gwasanaeth Pensiynau

Mae'r Gwasanaeth Pensiynau yn gyfrifol am weinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) ar ran dros 40 o gyflogwyr gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r gronfa yn cynnwys dros 18,000 o aelodau actif, 12,000 o aelodau gohiriedig a 10,000 o bensiynwyr. Mae dyletswyddau'r gwasanaeth o ddydd i ddydd yn cynnwys sefydlu record i aelodau newydd; gwneud newidiadau i gofnodion aelodau; cyfrifo buddion gohiriedig; trosglwyddo hawliau pensiwn i mewn ac allan o'r CPLlL, a thalu buddion ar ôl ymddeoliad a marwolaeth aelodau'r cynllun.




***Yn ystod 2021/22, bydd y Gwasanaeth Pensiynau yn canolbwyntio ar wella'r ohebiaeth a darpariaeth hunan wasanaeth i aelodau. Hefyd, bwriedir gweithio gyda chyflogwyr y Gronfa Bensiwn i dderbyn manylion perthnasol ar gyfer ail gyfrifo buddion aelodau yn dilyn yr achos 'McCloud'.***


## Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys

Mae'r gwasanaeth yma'n buddsoddi arian y Cyngor er mwyn ennill llog, i gyfrannu at ariannu gwasanaethau. Maent hefyd yn rheoli buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn, er mwyn sicrhau'r gallu i dalu pensiynau rŵan ac i'r dyfodol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r gwasanaeth yn cynllunio a threfnu benthyciadau hir-dymor.

Amcan yr uned yw cadw'r arian yn ddiogel, ennill llog a sicrhau fod arian ar gael i dalu am wariant dyddiol.

Yn ystod 2020/21 arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. £546,000 oedd cyfanswm y llog a difidendau a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau'r Cyngor, sydd yn uwch na'r £406,000 oedd yn y gyllideb. Nid oedd unrhyw fanciau yr oedd y Cyngor wedi'u defnyddio ar gyfer buddsoddi wedi methu talu.

Mae cronfeydd pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru yn cyd-fuddsoddi yn gynyddol er mwyn cael y budd gorau i aelodau'r cynllun pensiwn. Mae Cronfa Gwynedd wedi pwlio'r buddsoddiadau ecwiti ac incwm sefydlog, gyda marchnadoedd datblygol i ddod yn haf 2021. Roedd 2020/21 yn flwyddyn heriol, yn sgil cwymp y marchnadoedd stoc ym Mawrth 2020 oherwydd y pandemig, ond mae'r marchnadoedd wedi bownsio yn ôl gydag adferiad yng ngwerth y Gronfa Bensiwn i £2.2 biliwn erbyn 30 Medi 2020.




## Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg (yn cynnwys unedau datganoledig)

Darperir gwasanaeth cyllid a chyfrifeg i wasanaethau'r Cyngor, i'w cynorthwyo a'u cefnogi i fod yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae'r gwasanaeth:

- Yn gosod cyllideb gytbwys flynyddol ar gyfer y Cyngor
- Yn monitro ac adrodd yn rheolaidd ar berfformiad ariannol y Cyngor
- Yn darparu cefnogaeth ariannol gyda chyllideb gros o dros £431 miliwn
- Yn gyfrifol am gynhyrchu cyfrifon terfynol ar gyfer Cyngor Gwynedd, GwE, Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, Harbyrau a Bwrdd Uchelgais Economiadd Gogledd Cymru
- Yn cynorthwyo'r adrannau i wireddu dros £30 miliwn o arbedion ers 2015 (allan o gyfanswm o £36 miliwn).



**Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb**

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad archwiliad diamod ar ddatganiadau ariannol 2019/20, sef bod y cyfrifon wedi eu paratoi'n briodol ac yn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ariannol.


***Yn sgil effaith y pandemig ar y Cyngor, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol a cholledion incwm gwerth dros £13 miliwn erbyn diwedd Tachwedd 2020, byddwn yn darparu mwy o gyngor ariannol i holl ddeiliaid cyllidebau'r Cyngor, yn ogystal â chyngor "busnes" i adrannau.***

***Yn gyffredinol, nid yw'r arian mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i dalu am y gwasanaethau allweddol mae'r Cyngor yn ddarparu. Felly, er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys, byddwn hefyd yn parhau i wireddu'r arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo, a hefyd yn cynllunio, fel bo angen, i ddarganfod a dethol yr arbedion er mwyn ymateb i'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y dyfodol.***

## Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Mae'r gwasanaeth yn adolygu trefniadau llywodraethu a gweinyddol y Cyngor er mwyn rhoi hyder i'r awdurdod ac i'r dinesydd fod y trefniadau yma'n gadarn. Adroddir yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac i gyd-bwyllgorau mae Gwynedd yn lletya.

Ym Mawrth 2020 bu'n rhaid dargyfeirio adnoddau Archwilio Mewnol dros dro i ddelio gyda'r argyfwng Covid-19, felly ni chafodd pob archwiliad ei gwblhau yn unol â'r amserlen ddisgwyliedig.




## Gwasanaeth Risg ac Yswiriant

Mae angen i holl adrannau'r Cyngor asesu'r bygythiadau a chyfleoedd all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau, a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Rôl y Gwasanaeth Risg ac Yswiriant yw cynghori a chefnogi'r adrannau wrth wneud hyn. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn amddiffyn buddiannau trethdalwyr, drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â thua 250 o hawliadau'r flwyddyn.

***Mae gwaith yn parhau i sicrhau fod adrannau'r Cyngor yn cofnodi eu prif risgiau a'u hadolygu'n rheolaidd. Bydd y Gwasanaeth Risg ac Yswiriant yn cefnogi'r holl adrannau er mwyn sicrhau fod defnydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gyson ar draws y Cyngor, ac fod asesiadau o risgiau yn cael eu diweddaru'n barhaus. Law yn llaw â hynny, bydd ystyriaeth gynyddol o gynnwys cofrestrau risg wrth fonitro perfformiad adrannau.***

## *Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth*

***Gweithredir Strategaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor er mwyn helpu pobl Gwynedd i gael mynediad rhwydd at wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor, ac i staff weithio'n effeithlon.***

Wyneb y gwasanaeth yw'r *Gwasanaeth Cefnogol a'r Ddesg Gymorth* sy'n cefnogi 2,550 o ddefnyddwyr ac yn diwallu oddeutu 20,000 cais am wasanaeth yn flynyddol. Mae 2020/21 wedi bod yn heriol iawn, gyda 600 o liniaduron wedi eu paratoi yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn - nifer 33% yn uwch na'r cyfanswm arferol sy'n cael eu darparu mewn blwyddyn gyfan.

**% argaeledd y rhwydwaith**

**2019/20: 99.98%**
**2020/21: 99.98%**



**% bodlonrwydd y Ddesg Gymorth**

**2019/20: 99.35%**
**2020/21: 99.22%**



Roedd newidiadau sylweddol wedi eu rhaglennu cyn i'r pandemic gyrraedd, ac mae newidiadau megis cyswllt 'VPN', 'Microsoft Teams' ac 'Office 365' wedi bod yn arwyddocaol yn ymdrechion y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i gynnal gwasanaethau'r Cyngor.

Mae'r *Uned Isadeiledd, Diogelwch a Rhwydwaith* yn sicrhau bod gwasanaethau technoleg yn cael eu cyflwyno ar seiliau cadarn gan ymledu i 300 adeilad, 1,400 o bwyntiau mynediad di-wifr a 2,700 o gysylltiadau ffôn, ac yn cefnogi'r holl systemau yn y ganolfan data, ar 440 gweinyddwr a thros 1,000TB o storfa. Cysylltir y ddwy ganolfan ddata gyda chyswllt ffibr cyflym ac mae buddsoddiad diweddar mewn generadur yn y Pencadlys yn golygu bydd gwelliannau pellach i wytnwch isadeiledd y Cyngor.

Gyda hyd at 2,450 o swyddogion yn gweithio adref, roedd rhaid gwneud newidiadau sylweddol ar gychwyn y flwyddyn i alluogi'r ddarpariaeth, gan ddyblu'r cyswllt i'r rhyngrwyd, adeiladu dwy wal dân newydd, a darparu cyfarpar arbenigol i alluogi canolfannau cyswllt Galw Gwynedd, Y Ddesg Gymorth TG, a llinell flaen Treth Cyngor i wasanaethu'n llawn o gartrefi'r staff unigol.

Mae'r *Uned Datblygu a Gwasanaeth Gwybodaeth Ddaearyddol* yn darparu systemau sydd wedi eu datblygu o amgylch anghenion pwrpasol y defnyddiwr, gan gynnwys systemau sy'n cael eu defnyddio gan yr adrannau i wasanaethu'r cyhoedd, rhyngwynebau uniongyrchol i'r cyhoedd, a hunan-wasanaeth i staff. Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol ar gyflwyno systemau newydd yn ystod 2020/21, gan gynnwys darparu nifer o systemau ar frys mewn ymateb i'r pandemig, gan gynnwys darpariaeth i archebu apwyntiadau Siop Gwynedd a'n canolfanau ailgylchu, system profi, olrhain a diogelu ar gyfer awdurdodau lleol gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd, ynghyd â systemau hawlio a phrosesu amrywiol grantiau i fusnesau'r sir.

Mae'r *Uned Rheoli Rhaglen ac Arloesi* yn darparu cefnogaeth i'r adrannau ar gyfer diwallu eu hanghenion TG, gan gynnwys archebu cyfarpar a deunyddiau TG, gweithredu a monitro cytundebau a dadansoddi anghenion.

Paratowyd Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd, gyda'r ddarpariaeth bellach ar waith, a byddwn yn cyflwyno Strategaeth Ddigidol Corfforaethol newydd yn ystod 2021/22 gyda golwg ar alluogi trawsnewid gwasanaethau'r Cyngor ymhellach.

***Yn ystod 2021/22 bydd y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn cynnal ymarferion gwytnwch ar isadeiledd y Cyngor, cyflwyno gwelliannau sylweddol o fewn yr ysgolion, a rhoi'r Strategaeth Ddigidol newydd ar waith.***

# Gwasanaethau Cyfreithiol

**Mae'r adran yn cefnogi gallu'r Cyngor i ddarparu'r gorau i drigolion Gwynedd drwy gyfuniad o wasanaethau cefnogol a rheng-flaen.**

## CYFREITHIOL

**Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth gyfreithiol ar draws holl ystod gwaith y Cyngor, o amddiffyn plant ac erlyn i baratoi gorchmynion traffig a thrafodion tir ac eiddo.**

Yn ogystal â bod ar gael i ymdrin ag ymholiadau dyddiol, mae'r tîm yn ymdrin â thua 900 o achosion a thrafodion yn flynyddol ar gyfartaledd. Rydym hefyd yn cefnogi prif flaenoriaethau'r Cyngor, yn benodol felly gweithredu y Strategaeth Tai ac adolygiad cyfundrefn Addysg ôl 16.




## PRIODOLDEB

**Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro i weithredu eu cyfrifoldebau am briodoldeb gweithrediad y Cyngor, y Cyfansoddiad a chwynion ynghyd â'r trefniadau ar gyfer cynnal safonau ymddygiad aelodau'r Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned.**

Rydym yn parhau i gefnogi cyfundrefn priodoldeb Cyngor Gwynedd ynghyd â'r gyfundrefn foesegol i Gynghorau Tref a Chymuned y sir. Mae hyn hefyd yn golygu rhoi cyngor a sicrwydd cyfreithiol ar benderfyniadau a chyfundrefnau penderfynu. Darperir gwasanaeth Swyddog Monitro a chefnogaeth gyfreithiol hefyd i brosiectau cyd-weithio, GwE, Cyd-Bwyllgor Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 fydd:

- Cydweithio yn lleol ac yn rhanbarthol i gynllunio ac ymateb i newidiadau i lywodraethu ac i'r Cyfansoddiad fydd yn deillio o ddyfodiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2020.

## ETHOLIADAU

**Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth i'r Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.**

Rydym fel tîm yn gweinyddu'r gofrestr etholwyr ynghyd â chynnal etholiadau ac isetholiadau lleol a chenedlaethol, refferenda neu boliau o fewn y sir.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2021/22 fydd:

- Ymateb i ehangu a diwygio yr etholfraint, yn benodol ar gyfer etholwyr rhwng 16 ac 18 oed, a ddaw yn sgil Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2019 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2020 drwy hyrwyddo cofrestru a chyfranogiad mewn etholiadau perthnasol.
- Ymateb i ardrawiad ac oblygiadau Covid-19 ar etholiadau ac isetholiadau all gael eu heffeithio drwy gynllunio trefniadau sydd yn sicrhau cynnal etholiadau effeithiol a phriodol.

## CRWNER


**Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth i Wasanaeth y Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru.**

Rydym yn cefnogi a gweinyddu trefniadau'r Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r tîm wedi ei sefydlu o fewn y Cyngor ac yn derbyn cefnogaeth uniongyrchol o fewn yr adran bellach.

Ein blaenoriaeth ar gyfer 2021/22 fydd:

- Ymdrin â threfniadau penodi Uwch Grwner ar gyfer yr ardal all olygu cynnal adolygiad o'r ardal Grwnerol bresennol.

# Gwybodaeth Ariannol 2021/22




Mae **Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd** yn denu incwm ac felly'n cychwyn y flwyddyn ariannol gyda chyllideb o -£133,880

| Adran Addysg 2021/22 | |
|---|---:|
| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
| Ysgolion - Datganoledig | 79,173,330 |
| Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion | 2,712,530 |
| Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol | 8,828,400 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad a Lles | 4,841,940 |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | 2,234,770 |
| **Cyfanswm** | **97,790,970** |

| Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant 2021/22 | |
|---|---|
| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
| Pobl Hŷn | 24,800,530 |
| Anabledd Corfforol | 3,662,080 |
| Anabledd Dysgu | 20,598,500 |
| Iechyd Meddwl | 3,808,620 |
| Rheolaeth, Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Eraill | 3,788,040 |
| **Cyfanswm** | **56,657,770** |

| Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol 2021/22 | |
|---|---|
| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
| Gwastraff ac Ailgylchu | 11,129,926 |
| Cynnal Ffyrdd | 8,338,480 |
| Glendid Strydoedd | 2,511,372 |
| Goleuadau Stryd | 1,687,960 |
| Toiledau Cyhoeddus | 749,880 |
| Cynnal Tiroedd a Meysydd Chwarae | 517,032 |
| Amlosgfa a Mynwentydd | -95,000* |
| Teledu Cylch Cyfyng | 55,270 |
| Rheolaeth Fflyd | 370,220 |
| Eraill | 436,560 |
| **Cyfanswm** | **25,701,680** |

| Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd 2021/22 | |
|---|---|
| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
| Rheolaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd | 591,690 |
| Gwasanaethau Gweithredol | 2,082,810 |
| Gwasanaethau Lleoliadau | 11,722,230 |
| Gwasanaethau Derwen | 1,832,830 |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid | 253,200 |
| Tîm Trothwy Gofal, Tîm Nos a Gwasanaethau Eraill | 1,850,350 |
| Uned Blynyddoedd Cynnar | 149,150 |
| Gwasanaethau Ieuenctid | 890,240 |
| **Cyfanswm** | **19,372,500** |

| Adran Amgylchedd 2021/22 | |
|---|---|
| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
| Rheolaeth a Chategori Corfforaethol | 659,380 |
| Gwasanaethau Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu | 176,700 |
| Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 215,710 |
| Diogelwch, Glendid a Safonau Bwyd | 714,330 |
| Iechyd yr Amgylchedd | 461,900 |
| Safonau Masnach | 491,280 |
| Gwasanaethau Cleient Gwarchod y Cyhoedd | -57,510* |
| Traffig, Diogelwch y Ffyrdd a Gorfodaeth | 338,020 |
| Cynllunio Ymlaen | 77,360 |
| Parcio a Gorfodaeth | -1,858,660* |
| Cludiant | 1,375,170 |
| Tocynnau Teithio Rhad | 497,640 |
| Gwasanaethau Cefn Gwlad | 625,930 |
| **Cyfanswm** | **3,717,250** |

| Adran Economi a Chymuned 2021/22 | |
|---|---|
| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
| Rheolaeth yr Adran | 374,640 |
| Rhaglenni Adfywio | 120,690 |
| Cefnogi Cymunedau | 256,520 |
| Morwrol a Pharciau Gwledig | 263,820 |
| Cytundebau Hamdden | 1,470,690 |
| Rhaglenni Chwaraeon | 52,260 |
| Rhaglenni Datblygu Economaidd | -112,390* |
| Twristiaeth a Marchnata a Digwyddiadau | 289,420 |
| Llyfrgelloedd | 1,642,510 |
| Amgueddfeydd a'r Celfyddydau | 544,730 |
| Archifau | 349,850 |
| **Cyfanswm** | **5,252,740** |

### Adran Tai ac Eiddo 2021/22

| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
|---|---:|
| Rheolaeth a Gweinyddiaeth | 296,300 |
| Gwasanaethau Eiddo Corfforaethol | 1,340,010 |
| Gofalwyr | 58,010 |
| Swyddfeydd | 1,368,900 |
| Cynnal a Chadw | 1,892,010 |
| Arlwyo, Glanhau a Gofalu | -2,320* |
| Ynni | -158,410* |
| Canolfannau Cymuned, Adeiladau Amrywiol | 230 |
| Mân-ddaliadau | -138,200* |
| Unedau Diwydiannol, Intec a Mentec | 109,870 |
| Difa Pla a Rheoli Cŵn | 10,960 |
| Gwasanaethau Tai | 665,160 |
| Digartrefedd | 1,236,850 |
| **Cyfanswm** | **6,679,370** |

### Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd 2021/22

| **Maes** | **Cyllideb Net £*** |
|---|---:|
| Peirianneg | -551,480* |
| Uned Dŵr ac Amgylchedd | -158,740* |
| Uned Adeiladu | -13,620* |
| Rheoli Risg Llifogydd | 589,960 |
| **Cyfanswm** | **-133,880*** |

### Adran Cefnogaeth Gorfforaethol 2021/22

| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
|---|---:|
| Rheolaeth Adrannol | 418,160 |
| Cynlluniau Argyfwng (yn ymddangos yng nghynllun adrannol Cefnogaeth Gorfforaethol) | 111,040 |
| Uned Cefnogi Busnes y Cyngor | 492,730 |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | 448,310 |
| Ymchwil a Gwybodaeth | 421,160 |
| Gwasanaethau Democratiaeth | 2,147,980 |
| Gwasanaethau Iaith Gymraeg | 365,470 |
| Caffael | 264,200 |
| Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol | 490,720 |
| Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant | 469,280 |

| | |
|---|---|
| Gwasanaeth Cefnogol | 550,720 |
| Dysgu a Datblygu'r Sefydliad | 351,240 |
| Siop Gwynedd, Galw Gwynedd, Bathodynnau Glas, Cofrestrydd | 688,370 |
| **Cyfanswm** | **7,219,380** |

| **Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth 2021/22** | |
|---|---|
| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
| Rheolaeth Adrannol | 360,810 |
| Cyllid a Chyfrifeg | 1,180,360 |
| Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys | 127,530 |
| Archwilio Mewnol | 314,240 |
| Cyflogau | 340,670 |
| Taliadau | 178,820 |
| Incwm | 348,540 |
| Refeniw Canolog | 299,590 |
| Trethi | 171,680 |
| Budd-daliadau | 344,450 |
| Technoleg Gwybodaeth - Corfforaethol | 869,970 |
| Technoleg Gwybodaeth - Rheoli Rhaglen | 258,030 |
| Technoleg Gwybodaeth - Datblygu | 655,960 |
| Technoleg Gwybodaeth - Isadeiledd | 837,470 |
| Technoleg Gwybodaeth - Cefnogol | 328,230 |
| **Cyfanswm** | **6,616,350** |

| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol 2021/22** | |
|---|---|
| **Maes** | **Cyllideb Net £** |
| Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr a chyllidebau cynlluniau penodol | 709,660 |
| Swyddog Monitro a Phriodoldeb | 124,660 |
| Gwasanaeth Cyfreithiol | 602,370 |
| Cofrestru Etholwyr | 164,620 |
| Crwner | 332,830 |
| Etholiadau | 23,540 |
| **Cyfanswm** | **1,957,680** |

**** ffigyrau negyddol gan fod incwm yn fwy na'r gwariant.***